



This is a digital copy of a book that was preserved for generations on library shelves before it was carefully scanned by Google as part of a project to make the world's books discoverable online.

It has survived long enough for the copyright to expire and the book to enter the public domain. A public domain book is one that was never subject to copyright or whose legal copyright term has expired. Whether a book is in the public domain may vary country to country. Public domain books are our gateways to the past, representing a wealth of history, culture and knowledge that's often difficult to discover.

Marks, notations and other marginalia present in the original volume will appear in this file - a reminder of this book's long journey from the publisher to a library and finally to you.

Usage guidelines

Google is proud to partner with libraries to digitize public domain materials and make them widely accessible. Public domain books belong to the public and we are merely their custodians. Nevertheless, this work is expensive, so in order to keep providing this resource, we have taken steps to prevent abuse by commercial parties, including placing technical restrictions on automated querying.

We also ask that you:

- + *Make non-commercial use of the files* We designed Google Book Search for use by individuals, and we request that you use these files for personal, non-commercial purposes.
- + *Refrain from automated querying* Do not send automated queries of any sort to Google's system: If you are conducting research on machine translation, optical character recognition or other areas where access to a large amount of text is helpful, please contact us. We encourage the use of public domain materials for these purposes and may be able to help.
- + *Maintain attribution* The Google "watermark" you see on each file is essential for informing people about this project and helping them find additional materials through Google Book Search. Please do not remove it.
- + *Keep it legal* Whatever your use, remember that you are responsible for ensuring that what you are doing is legal. Do not assume that just because we believe a book is in the public domain for users in the United States, that the work is also in the public domain for users in other countries. Whether a book is still in copyright varies from country to country, and we can't offer guidance on whether any specific use of any specific book is allowed. Please do not assume that a book's appearance in Google Book Search means it can be used in any manner anywhere in the world. Copyright infringement liability can be quite severe.

About Google Book Search

Google's mission is to organize the world's information and to make it universally accessible and useful. Google Book Search helps readers discover the world's books while helping authors and publishers reach new audiences. You can search through the full text of this book on the web at <http://books.google.com/>

22H 5055.6430

**Harvard College
Library**





**THE GIFT OF
EZRA HENRY BAKER
OF BOSTON, MASSACHUSETTS
CLASS OF 1881**




Cover









Trysorfa y Tlodion:

YR CYNHWYS

DEUDDEG

RIFYNAU BYCHAIN

AR

WAHANOL DESTUNAU.

GAN

D. DAVIES, PANT-TEG.

Cartrefyddin:

ARGRAFFWYD GAN J. EVANS,

YR HEOL Y PARCHEAD ISAF.

1818.

Call 5055.64.30



Edw. Baker

CYNNWYSIAD Y LLYFRYN.

- I. *BENDITH wrth wrando y gair.*
- II. *Y cyfarfod gweddi cenadol.*
- III. *Cynáuaf Mr. Harvest.*
- IV. *Dysgeidiaeth i bregethwyr.*
- V. *Ymadroddion detholedig.*
- VI. *Gair wrth ddiweddü y flwyddyn.*
- VII. *Santeiddio y Sabbath.*
- VIII. *Dylédswydd rhient.*
- IX. *Meddyginiaeth i gof-drwg.*
- X. *Buddioldeb o godi yn foreu.*
- XI. *Gwín i deulu yr adfyd.*
- XII. *Tangnesyddus ac Ymdrechus.*

G A I R

DDERBYNWYR Y DRYSORFA.

GYFEILLION HAWDDGAR,

CERFIS gynorthwy gan Ddaw i orphen y rhifynau bychain hyn. Yr wyf yn gobeithio y bydd iddynt wneuthur llës i ymdeithwyr Seton, i'w cyfarwyddo, eu' calonogi, a'u dyddanu ar y ffordd tua bryn y gwynfyd.

Er nad yw y llyfryn hwn ond seren fechan i'w gymharu â'r llyfrau gwerthfawr a roddodd amryw o'r dauinyddion Cymreig yn nwyllaw Hil Gomer, i fod yn oleuadau i'w tywys â't wasanaeth Duw, dichon idde, er hyny, fod yn fendithiol yn llaw yr Arglwydd, i arwain rhai o blant y tlodi i asael cyfoeth aanherfynol. Gosodir pethau allan yn y rhifynau hyn ar ddull o ymddyddan, er mwyn i'r gweiniaid ddëall pethau yn well. Ac er fod y llyfryn hwn ar enw y tlodion, gwel y cyfoethogion fod ynddo rai pethau ag sydd yn teilyngu eu sylw hwynt. Cynnwys hefyd addysgiadau i bob sefyllfa o ddynion, i wŷr a gwragedd, i rieni a phlant, i feistrïaid a gwasanaeth-ddynion, &c. Os bydd i'r rhifynau hyn dueddu rhai o'r Cymry i ddarllain mwy, ac ymosyn mwy am wybodaeth, gwna les mawr iddynt. Galarus yw meddwl fod cymaint yn Nghymru a'r uad ydynt yn galle darllain; ond y mae ugeiniau ag oedd yn dwed yn y blyneddau aeth heibio "na ddaethent byth i ddarllain," yn gorfod addef yn awr mai nid *anallu*, ond *diffyg ymdrech* at hyn, oedd yr achos eu bod yn methu darllain. Y mae yr ysgolion Sabbathol wedi gwneuthur daioni mawr—dygwyd rhai o bob oedran yn y rhai hyn i ddarllain

gair yr Arglwydd. Hyderus ydym fod yr amser yn agos, pan y gwelir awydd yn y Cymry i roddi mawr o'u hamser i ddarlain y Bibl, a llyfrau buddiol ereill, i ymestyn at wybodaeth, a bod mor ymdrechus i wrteithio y deall ag ydynt am fod yn enwog yn nghylch gwrteithio eu tiroedd. Os y rhan waelaf o'r ynys y mae y Cymry wedi ei chael, nis gallasai eu gelynyon eu hysbeilio hwynt o'u pwerau rhesymol fel dynion;—ac os na ellir byth gael y rhan ufawd hon o'r wlad i ateb i Loegr, gwyddom fod rhai o drigolion y rhan wael hon yn gallu ateb mewn dysgeidiaeth a phethau ereill, i'r doethaf, a'r rhai mwyaf cywraia yn mhliith y Saeson. Diffyg ymdrechu i ohwilio am wybodaeth yw yr achos fod llawer o drigolion Cymru mor dywyll—ac nid oes ganddynt hyd yn hyn ddim cymmaint o lyfrau a chyfryngau gwybodaeth ag sydd gan rai gwledydd,—ond os câ awdwr Seren Gomer, y Cronicl Cenedol, ac ysgrifenydd ereill, yr atnogaeth a ddylent gael, gwelir cyfnewidiad mawr cyn hir,—gwelir y Cymry â chyflawnder o lyfrau ganddynt yn eu hiaith ardderchog eu honnir, a hwythau, fel cenedl, mor glodfawr am ymestyn am wybodaeth ag ydynt yn awr am ymgasgu at eu gilydd i wrando pregethau, ac am eu dull seleg yn addoli Duw.

Mai 12fed, 1818.

D. D.

Trysorfa y Tlodion,

RHIF. I.—Pris Cciniog.—Yn cynnwys

YMDDYDDAN

REWNG

DAU GYFAILL,

O'R ENWAU

Thomas a Dafydd,

YN NERTACH

YR ARWYDDION

fod un yn cael

Bendith wrth wrando.



Caerfyrddin :

Argraffwyd gan J. Evans, Heol-y-Farchnad isaf.

1817.

HYSBYSIAD.

Y MAE awdwr y Rhifyn hwn yn bwriadu cyhoeddi Rhifynau bychain o'r un maintioli a'r un yma, yn fisol, dros flwyddyn o leiaf. Bydd y Rhifyn nesaf i gynnwys *Cyfarwyddiadau i gynnal y Cyfarfod Gweddi Cennadawl ar y nos Lun gyntaf o'r mis.* Nid oes rwymau ar neb a bryno hwn i bwrcasu y Rhifynau canlynol o *Drysorfa y Tlawd*, os na byddant yn ewyllysio. Bernir y bydd y cyhoeddiad hwn o les neillduol i gynnal y meddwl ya yr amserau bliain hyn.

YMDDYDDAN, &c.

Tomas. Fy anwyl gyfaill, Dafydd, onid yw yn gysurus fod Gair Duw yn cael ei bregethu mor fynych yn y gymmydogaeth hon yn awr?

Dafydd. Ydyw. Nis gallwn byth fod yn ddigon diolchas i'r Arglwydd am hyn. Fe fu amser pan nad oedd un bregeth yma o ddech hrea y flwyddyn i'w diwedd.

Tomas. A ydych ohwi yn meddwl fod rhai yma wedi cael bendith ar bregethiad y Gair iddynt?

Dafydd. Yr wyf yn gwybod fod rhai yn yr ardal ag y mae Gair Duw wedi gwneuthur lles hynod iddynt. Cyn i bregethwyr ddyfod i'n plith, yr oedd hwn a hwn yn caru yfed i ormodedd, y llall yn grib-ddoiliwr, un arall yn galed i'r tlodion, un arall yn synneryd enw

Duw yn ofer, un arall yn odinebwr, &c. Y mae y naill a'r llall yn awr yn ddynion sebr, diwair, onest, haelionus, a hawddgar.

Tomas. Y mae yn wir, fy nghyfaill, fod agwedd wahanol ar lawer yma; a da iawn yw gweled pethau fel y maent. Ond gydâ'u bod wedi enwi enw Crist, a'u hymarweddiad yn hynod hardd, fe fyddai yn dda genyf gael gwybod y modd fy mae arnynt yn awr, a pha beth sydd ganddynt i brofi eu bod yn cael lles parâus dan weinidogaeth y gair?

Dafydd. Y mae eich gofyniad yn deilwng o sylw holl grefyddwyr y byd. Y mae achos ofni mai ychydig sydd yn holi eu hunain yn nghylch hyn. Fe fu eich gofyniad dan sylw yn y gyfeillach a fu genym ddoe. A hynod fel y dywedodd y brodyr a'r chwirydd yn nghylch y nodau oedd ar y bobl ag oedd yn cael budd wrth glywed gair Duw yn cael ei bregethu. Yr oedd yn un o'r cyfarfodydd goreu a gefais erioed. Os yw weithiau yn dywyll arnom, a'n bod yn ymadael â'n gilydd heb fawr o le i feddwl fod Duw yn rhoddi ei wnech i ni, nid felly yr oedd ddoe. Tebygol yw y bydd rhai yn diolch am dano pan bydd gofid y byd wedi darfod.

Tomas: Y mae yn ddrwg genyf i mi esgeuluso. Gallaswn fod yno yn well nâ llawer, oni buasai fy anffyddlondeb. Yr wyf yn gweled nad oes dim yn bosibl i fod yn gysurus, yn llwyddiannus, ac yn ddefnyddiol heb gadw gyda y brodyr yn y cyfeillachau. Os oes amser i mi ar y ddaear, ni chewch fy ngosod byth mwy yn mhith yr esgeuluswyr. Rhoddwch wybod i mi beth oedd rhai o'r arwyddion wrth y rhai y mae i ni ddeall ein bod yn cael lles wrth wrando?

Dafydd. Y mae yn dda genyf eich bod yn bwriadu cadw at eich rhwymau eglwysig yn well. Yr ydych er ys blyneddau yn hynod ddi-fater. Yr oeddwn yn ofni mai yn eich cysgadrwydd a'ch esgeulusdra y buasai angeu yn eich dal. Yr Arglwydd a'ch cynnorthwyo i gadw at eich bwriadau presennol. Ar eich dymuniad mi ddywedaf wrthy ch am rai o'r nodau. Nid yw ddim yn ddigon genyf i fyned i'r cyfrinachau heb ymdrechu cofio a gwneuthur defnydd iawn o'r pethau a fyddom yn son am danynt.

1. Fe ddywedodd un, "Os byddai yn cael bendith, fod ei feddwl yn cael ei dueddu i sylwi ar y pethau a fyddai yn cael eu llefaru." Y mae miloedd yn dyfod i wrando, ac yn gadael

i'r meddwl fyned ar ol pethau'r bywyd hwn
Nid braint fach gafodd Lydia. Act. xvi. 14.

2. Y llall a ddywedodd, " Ei fod yn meddu
mai bendith oedd yn gael pan y byddai yn cael
ei oleuo yn ngwirioneddau y Gair." 2 Cor. i. 6.
6. Nid yw llawer ddim yn barnu eu bod yn
cael eu goleuo, oni byddont yn cael rhyw bwrdd
newydd yn barâus. Y mae yr enaid yn derbyn
goleuni os bydd yr hen wirioneddau a lefarwy-
gan y proffwydi, gan Grist a'r apostolion yn
ymddangos yn fwy gogoneddus; a hiraeth am
fod yn debyg i'r gair yn llenwi'r galon.

3. Fe ddywedodd un arall o'r brodyr, " Ei
fod yn cael budd pan y byddai'r gair yn ei ar-
gyhoeddi o bechod." Dyben y weinidogaeth
yn un peth yw dwyn dynion i gasâu pechod. Os
bydd y bregeth o les i'r hwn a fyddo yn byw
mewn diogi ysbrydol, mewn balchder, ysgafu-
der, ac mewn difatterwch yn nghylch llwyddiant
yr achos, fe wna'r pethau hyn yn ofidus i'w fe-
ddwl. " Yr oeddwn," meddai'r brawd hwn,
" wrth wrando y Sabboth diweddfaf yn cael fy
hun yn hynod euog yn wyneb y pethau oedd eith-
gweinidog anwyl yn ddweud wrthym ni. Ac y
mae yn dda genyf am y pregethau sydd yn peri-
gofid i mi am bechu yn erbyn Duw."

4. Y peth a ddywedodd un arall oedd, “ Ei fod yn cael lle da wrth wrando pan y byddai yn cael cysur yn wyneb rhyw beth a fyddai yn gofidio ei feddwl.” Ni fedr neb ddim gosod allan mor felus yw clywed gair y deyrnas ar amserau. Y mae gweision Iesu Grist yn cael eu dysgu i ddweud pethau a fyddo yn dwyn cysur i feddyliau y rhai a fyddo mewn helbul. Y mae dyledswydd ar aelodau yr eglwysi i weddio am i’w bugeiliaid gael eu dysgu i ddyddanu’r gweiniaid, a rhoddi laeth i’r babanod.

5. Fe ddywedodd un o’r chwiorydd, y gwyddai hithau ychydig am y gofyniad oedd dan sylw’r eglwys, a’i bod yn profi hyn wrth “ yr effaith oedd yn dilyn ei meddwl ar ol y bregeth.” Y cwbl y mae llawer yn ymofyn am dano yw, cael hyfrydwch tra byddont yn y cyfarfod. Nid digon gan genhadau Crist yw dweud pethau a fyddo yn boddioni y gwrandawyr am yr amser y byddont yn llefaru; ond y maent am i’r gwirioneddau fod yn *llusern i’w traed, ac yn llewyrch i’w llwybrau* yn eu teuluoedd, yn y marchnad-oedd, ac yn mhob lle arall. Ac wrth fyw yn addas i’r efengyl y mae’r aelodau i fod yn *ogoniant* ac yn *orfoledd* i’r rhai a fyddo yn eu llywodraethu yn yr Arglwydd.

6. Cyn ymadael, fe ddymunodd un ag oedd wedi bod yn hir yn wrthgiliwr, ond yn awr wedi ei adferu, gael dweud gair ar y mater hwn—a'r hyn a ddywedodd oedd, "Cyn i mi fyned i dir gwrthgiliad mi a gefais lawer o ddyddanwch ar amserau yn ngwaith Duw ; a'r peth sydd genyf i 'chwanegu at y pethau buddiol a soniwyd am danynt yw, os bydd un yn cael wyneb yr Arglwydd i wrando'r Gair, fe fydd awydd i ddal gafael ar bob cyfle i glywed gweision Duw yn llefaru." Os caiff y dyn ei adael i esgeuluso y pregethau yn yr wythnos, a bod yn ddifater am gyfarfodydd ereill a fyddo gan bobl yr Arglwydd, y mae ar y llwybr i gefnu ar dy Dduw. Ni chlywir neb o'r rhai sydd yn grefyddwyr gwresog a chydwybodol yn dweud yn aml fod y byd yn eu hattal i wrando yn yr wythnos. Y mae'n wir fod rhwystr weithiau,—ond y rhwystrau amlaf yw, *difaterwch a diogi*. Pwngwelid y ddau elyn hyn yn myned i'r pren dydddef, fe fyddai'r cyfarfodydd wythnosol yn llawn o wrandawyr ; ac ni byddai neb ar ei golled yn mhethau'r byd. Nid wrth esgeuluso gwaith Duw a bod yn ddifater am yr achos goreu y mae dysgwyl am lwyddiant yn ein bywioliaeth yma. Addas iawn yw'r cynghor yn Mat. vi. 33.

Wrth enwi y pethau ag oedd y brodyr wedi

ddweud, rhoddodd ein bugail, y diweddar Mr. Thomas Davies, o'r Pant-têg, y cyfarwyddiadau canlynol i ymdrechu am gael wyneb Duw :

1. Os am gael odfaon y byddo lles ynddynt i'r enaid, ystyriwch wrth fyned iddynt mai gwaith pwysig yw gwrando'r gair. Pe byddai yr un olwg genym ar bwys hwn yn awr ag a fydd genym yn y farn, ymdrechai pawb i anghofio'r *maes* a'r *fasnach* dros ychydig, ac ni ddeuai neb i'r cyfarfodydd heb weddio am gymhorth i wrando yn ystyriol. O'r miloedd sydd yn dyfod o ran arfer, a'u calonau yn glöedig gan anwybodaeth, gelyni-aeth at Dduw, gofalon gormodol, ac anystyri-aeth! Er eu cael dan y Gair, ni chaiff y gwirionedd dderbyniad ganddynt.

2. Wrth yr Arglwydd y dylem ddysgwyl am fendith. Nis gallasai Paul ond plannu, ac Apolos ond dyfrhâu. Gellid barnu wrth y sôn a'r canmol sydd ar rai o'r cenhadau, fod y rhai hyn yn gallu agor y galon, a dwyn dynion i graffu ar y gwirionedd. Addas hynod oedd dywediad un wrth glywed rhai yn canmol ei bregethau ac yn adrodd am ei lwyddiant mewn gwahanol fanau, "Na ddywedwch mai mawr wyf fi, ond dywedwch mai un mawr yw fy Nuw, a'i fod yn gallu dwyn y mwyaf annuwiol ato ei hun." Y mae'n

angenrheidiol fod pregethwr yn meddu gallu-
oedd cryfion, gwybodaeth helaeth, yn gallu
dweud ei feddwl yn oleu i'r bobl, ei fod yn ddya
duwiol, ac o ymarweddiad diargyoedd, a budd-
iol hynod iddo fyddai dysgeidiaeth yn ei holl
ranau,—ond ni wna efe leshâd i neb heb fendith
Duw.

3. Bod yn wylidurus wrth wrando. Fe
wyr rhai o honom mai gwaith anhawdd yw attal
y meddwl i fyned ar ol pethau ereill yr amser
hwn, gwrando drosom ein hunain, a derbyn y
gair nid fel gair dyn ond fel gair Duw. Agwedd
dlawd ar rai yw eu bod yn heppian, yn cysgu,
neu yn edrych ar wisgoedd rhai yn y cyfarfod,
neu treulio'r amser heibio mewn myfyrdodau
am bethau'r byd. Diolch i Dduw, y mae genym
rai sydd yn gofalu dyfod i'r cyfarfod yn amserol,
yn effro dan y Gair, ac yn dal gafael ar bob pre-
geth fel pe byddai yr olaf iddynt.

4. Gwnenthur defnydd o'r pregethau wedi eu
clywed. Os bydd y bregeth yn teilyngu gwran-
dawiad, fe ddylai fod yn destun i fyfyrio arni,
ac yn rheol ymarweddiad. Trwm yw meddwl
fod y rhan fwyaf o'r gwrandawyr yn ddiater.
hynod am fod yn wnenthurwyr y Gair.

Tomas. Y mae'n sicr, fy nghyfaill, fod y cyfarfod a gawsoch yn hynod adeiladol. Mi a welaf i mi gael colled fawr i aros gartref. Os iach a byw fyddaf, mi fyddaf yn y cyfarfod sydd genych yr wythnos nesaf.

Dafydd. Cofiwch am hyn. Y pwnc sydd genym i sylwi arno y tro nesaf yw, *Fod dyledswydd neillduol ar broffeswyr i weddio dros genhadau Crist.* Y mae dau o'r brodyr yn y weinidogaeth wedi addaw dyfod i'n cynnorthwyo i ddal sylw ar y pwnc pwysig hwn. Y mae'r gweinidogion sydd yn perthyn i'n *cyfarfod trimisol* ni yma wedi sefydlu ar ddyfod heibio i'r eglwysi sydd yn perthyn i'r cyfarfod, bob yn ddau, unwaith bob chwech wythnos, i gynnal *society*, a phregethu ar ryw bwnc rhoddedig.

Tomas. Y mae'n dda genyf gael gwybod y peth sydd i fod dan sylw yn y gyfrinach, fel y gallwyf barotoi rhyw beth i ddweud ar y mater. Ac y mae'n llawen genyf glywed am fwriad y gweinidogion i ddyfod i ymweled â'r eglwysi, fel y dywedaso. Nid oes genyf yn awr ddim ond diolch i chwi am eich cynghorion a'ch ceryddon, ac yr wyf yn gobeithio y cawn gyfleustra o'r fath hwn etto cyn hir. Ond tra byddwyf yn cofio, yr wyf am gael gwybod genych pa fodd y

mae'r Hymn a roddwyd allan yn yr angladd yn Llwynderw ?

Dafydd. Yr oedd yn air melus hynod : ond gobeithio eich bod chwi yn well nâ'r rhai sydd yn foddlon i anghofio'r cwbl o'r bregeth os gallant gofio y gair a gafwyd ei ganu ar ddiwedd yr odfa. Y mae'n gysurus clywed rhai wrth ddychwelyd o'r cyfarfodydd, yn holi i'w gilydd am yr hymnau; ond fe fyddai yn dda iddynt sôn ychydig am y gwirioneddau a glywsant. Gellid barnu wrth glywed rhai yn siarad cymmaint am yr hymnau, a dim am y bregeth, na wnaeth y pregethwr ddim ond adrodd emynau iddynt. Ond rhag i mi fod yn achos i chwi golli llwybr eich dyledswydd mewn peth arall, trwy eich cadw yn hir yma, ni a derfynwn y gyfrinach hon trwy ganu yr hymn yr ydych chwi am ddysgu.

Pant-têg.

D. D.

~~~~~

## HYMN.

MAE rhyw syndod am y beddrod,  
Wedi ei osod yn fy mryd,  
Wrth feddwl weithiau am fy meiau,  
A Duw'n dyoddef genyf cy'd;  
'Rwyf i weithian mewn gwth o oedran,  
Bydd dy hunan yn y lli',  
Pan b'w'i'n ffaclu ag anadlu,  
Bydd pryd hyny gyda mi.



# Trysorfa y Tlodion:

*RHIF. II.—Pris Ceiniog.—Yn cynnwys*

## GAIR YN EI BRYD

### GYFEILLION

*Cyfarfod Gweddi Cenhadawl.*

---

Yn y Rhifyn nesaf rhoddir “Hanes am ddull Mr. HARVEST yn casglu ei gynhauaf;” i gyfarwyddo crefyddwyr i ymddwyn yn addas i'r efengyl yn yr amser hwn.

---

Caerfyrddin:

*Argraffwyd gan J. Evans, Heol-y-Farchnad isaf.*

1817.

\* \* Bydd esponiad byr ar adnod neu ddwy yn mhob rhifyn fel yn hwn.



1 Cor. 15, 55—57. *O Angeu, pa le mae dy golyn? O uffern, pa le mae dy suddugoliaeth? Colyn angeu yw pechod, a grym pechod yw y gyfraith. Ond i Dduw y byddo y diolch, yr hwn sydd yn rhoddi i ni suddugoliaeth trwy ein Harglwydd Iesu Grist.*

Dywedir yn gyffredin nad oes un colyn gan angeu i gyfarfod â'r duwiol; ond gwelir yma mai yn yr adgyfodiad ac nid eyn hynny y bydd efe yn gallu dweud, "O angeu, pa le mae dy golyn?" Y mae'n wir fod cannoedd mewn ffordd o rag-fwynhâd yn dweud y geiriau hyn yn orfoleddus ar lan afon marwolaeth; ond nid yw gorfoleddu wrth feddwl am yr adgyfodiad, ddim yn profi fod yr amser wedi dyfod. Yr un peth yw dweud nad yw'r duwiol yn cael gwybod am golya angeu a dweud nad yw yn marw ac yn myned i'r bedd, oblegid colyn angeu yw'r awdurdod sydd ganddo ar y duwiol a'r annuwiol hyd ddydd y farn.

Iago 5, 17. *Elias oedd ddyn yn rhaid iddo ddyoddef fel ninnau, ac mewn gweddi efe a weddiodd na byddai wlaw: ac ni bu gwlaw ar y ddaear da'r blynedd a chwe' mis.*

Gosod allan y mae'r geiriau mewn gweddi efe a weddiodd, i Elias yn ei weddi ddymuno ar i Dduw attal y nef i roddi gwlaw. Y mae dweud mai gosod allan ei daerni a'i ddiragrithrwydd y mae'r ymadroddion hyn yr un a phe dywedid mai pregethu yn daer a olygir wrth ddweud, *Mewn pregeth efe a bregethodd yn erbyn halogi'r Sabboth.* Gwyr a'i clywodd pa un a bregethodd yn daer a llym yn erbyn y pechod hwn neu ni wnaeth; ond y cwbl y mae'r geiriau yn ddysga yw, iddo bregethu yn erbyn tori dydd yr Arglwydd.

## Gair yn ei Bryd, &c.

---

Nid oes dim yn llawenâu dysgyblion Mab Duw yn fwy nâ gweled ei achos yn myned yn mlaen yn llwyddiannus, a bod gweithwyr, fyddlon yn cael eu danfon i bregethu yr efengyl i blith yr holl genedloedd. Bu'r tadau a'r brodyr sydd wedi huno yn gweddio yn daer am i'r amser ddyfod i holl ieithoedd y byd gael clywed am y Gŵr a fu farw ar y bryn; ond nynt sydd yn cael gweled hyn. Nid oedd neb ugain mlynedd yn ol yn barnu y buasid yn cael gweled y pethau mawrion ag ydym yn eu gweled, ac yn clywed y newyddion cysurus ag yr ydym yn eu clywed, am lwyddiant teyrnas Mab Duw. Pan yr ystyrion mor bwysig yw'r gwaith sydd gan y cenhadau yn ngwledydd eilun-addolgar y byd, y mae yn rhyfedd na fyddai mwy o feddwl am danynt a gweddio drostynt genym. Sefydliad hynod addas ac angenrheidiol yw'r *cyfarfod gweddi cenhadau* sydd yn cael ei gynnal ar y nos Lun gyntaf o'r mis. Y mae y cyfarfod mewn bri hynod gan y rhai sydd yn dymunaw fod pawb yn cael eu dwyn at Dduw: ond gellir deall wrth ymddygiadau rhai eglwysi a phersonau neillduol, nad yw yr *achos cenhadau* ddim mor agos at eu calonau ag y dylai fod. Tebygol yw y gweliad yr eglwysi yn fwy gwresog dros y cyfarfod hwn, pe byddent yn gwybod yn well am yr angenrheidrwydd o hono. Tuag at ddwyn sylw profesywyr yr oes at y sefydliad hwn, ni a gawn

I. Enwi rhai o'r pethau sydd i fod yn ein gweddiau yn y cyfarfod hwn. Ni ddylem fyned un amser at orseddfainc y gras heb gofio am

lwyddiant yr achos goreu trwy'r byd; ond gau fod y cyfarfod hwn wedi cael ei sefydlu i'r dyben i deulu Duw i gyd-gyfarfod o flaen ei orsedd i weddio am lwyddiant i'w deyrnas, gwelir mai pethau yn dal perthynas â theyrnas Crist sydd i fod yn ein gweddïau yn yr amser hwn: megis,

1. *Y cymdeithasau cenhadawl.* Yn y flwyddyn 1795 ffurfiwyd cymdeithas yn Llundain dan yr enw "Y Gymdeithas Genhadawl," at anfon cenhadlau i blith y Paganiaid a chenedloedd tywyll ereill, heb fod yn perthyn i un enw neillduolo Grist'nogion, ond yn cymmeryd i mewn gredinwyr o bob enw ag sydd yn caru Iesu Grist. Y mae y Gymdeithas hon wedi bod yn llaw Rhagluniaeth yn fam i lawer o gymdeithasau ereill, ag sydd yn tueddu yn hynod at ddaioni dynolryw. Y mae llawer o gymdeithasau cynnorthwyol i'r gymdeithas hon wedi cael eu sefydlu mewn gwahanol fanau. Ac mae'r llwyddiant sydd ar y cymdeithasau cenhadawl yn mhlith y Bedyddwyr a brodyr ereill, yn peri llawenydd mawr i baw ag sydd yn gyfeillion i'r Oen a laddwyd. Y mae'r pethau hyn yn galw am i ni weddio am gael calon i ddiolch i Dduw am dueddu ei bobl i dosturio wrth y Paganiaid ac ereill sydd yn byw mewn tywyllwch. Ni a ddylem erfyn ar i'r Arglwydd osod yn meddyliau llawer o'r newydd i ffurfio cymdeithasau cenhadawl yn y manau lle nad ydynt; a'n dyledswydd yw dymuno ar Dduw gadw cyfeillion y cymdeithasau hyn yn ffyddlon hyd y bedd.

2. *Golygwyr y Cymdeithasau Cenhadawl.* Braint arbenig yw fod y rhai sydd yn trefnu yn nghylch y sefydliadau hyn yn ddynion a fyddo'n caru Crist mewn gwirionedd, ac yn ymdrechu hyd eithaf eu gallu i daenu gwybodaeth o lwybr iechydwrïaeth yn mhlith holl breswylwyr y ddaear. Gweddus yw dymunaw am i Dduw i'w dys-

yn i ddewis y mesurau goreu er daioni yr achos ;  
 i fod yn fanwl hynod wrth dderbyn rhai i fod  
 yn genhadau, fel na byddo rhai anghymhwys yn  
 myned ; ac i arfer pob moddion a fyddo yn tu-  
 eddu i annog pawb i gyfrannu yn gydwybodol,  
 fel y gallo y cymdeithasau hyn helaethu tersynau  
 eu hymdrechiadau.

3. *Yr eglwysi a phersonau neillduol ag sydd  
 yn cyfrannu at yr achos hwn.* Nis gall un enaid  
 duwiol lai na llawenâu yn fawr wrth weled mor  
 ymdrechus yw llawer o'r eglwysi a phersonau  
 neillduol, i roddi a allont at daenu yr efengyl.  
 Ac y mae yn hawdd gweled fod yr eglwysi sydd  
 yn haelionus at yr achos hwn yn llwyddo yn hy-  
 nod ; pan y mae'r rhai sydd yn ddisater yn ad-  
 feilio bob dydd. Nis gellir credu fod y bobl  
 sydd yn brin yn eu cyfraniadau at achos Mab  
 Duw yn gwybod llawer am gysuron y gair, ac  
 am y melusder sydd yn nghymdeithas Duw. Yr  
 oedd annog dysgyblion Crist i roddi yn ol eu  
 gallu at gynnal ei achos, a chanmol y rhoddwyr  
 cydwybodol yn un o'r *pethau buddiol* ag oedd  
 Paul yn bregethu i'w wrandaw. wyr, 1 Cor. 16.  
 1. "Hefyd am y gasgl i'r saint ; megis yr ordein-  
 iais i eglwysi Galatia, felly gwnewch chwithau."  
 Y mae caledi'r amseroedd yn attal llawer i roddi  
 fel ag y dymunent ; ond gwell gan y brawd Mr.  
*Fyddlon* a'r chwaer Mrs. *Cydwybodol* brynu llai  
 o bethau i addurno eu cyrff, gymmeryd peint o  
 gwrw yn llai yn y farchnad, byw ar lai o ddan-  
 teithion, ymadael â'r tlysau, a byw yn gynnil,  
 na gadael y Paganïaid ac ereill heb wisgoedd ie-  
 shydwriaeth, heb y bara ddaeth o'r nef, heb  
 wybod dim am y llwybr sydd yn arwain i'r nef-  
 oedd. Nid ydym yn gwarafun i ddynion wisgo  
 a bwyta yn ol eu sefyllfa ; ond galarus yw me-  
 ddwl fod yr arian a ddylai gael eu rhoddi at yr  
 achos cenhadawl, yn myned i gynnal *teulu'r me-*

*Fus-chwantau.* Nis gall y rhai sydd am weled y ddaear yn llawn o wybodaeth yr Arglwydd, am weled holl deyrnasoedd y byd yn parchu Crist, a deddfau Duw yn cael eu cadw, lai nâ gweddio am i Dduw agor calonau ei bobl i fod yn helaeth yn eu cyfranniadau at achos Iesu Grist.

4. *Y cenhadau.* Swydd bwysig yw bod yn genhad dros Dduw at golledigion Eden. Y mae pob un sydd yn ystyried hyn yn barod i ddweud "A phwy sydd ddigonol i'r pethau hyn?" I Dduw y byddo y diolch, y mae rhai o hyd yn cael eu tueddu a'u cymhwyso i fyned â'r trysor drud i blith y rhai sydd yn marw o eisiau gwytbodaeth. Os yw Brainerd, Vanderkemp, ac ereill o'r cenhadau wedi huno, y mae rhai gafodd eu haddysgu yn gyntaf yn yr ysgolion sabbothawl, a dynion ieuainc o amrywiol athrofeydd, yn rhoddi eu hunain i fyned i ofalo am eu llafur hwynt. Y mae sefyllfa dymhorol y Paganïaid yn galw am grefftwyr i'w plith, fel ag y mae eu sefyllfa ysprydol yn galw am bregethwyr i'w goleuo yn mhethau yr Arglwydd. Byddai yn hynod ganmoladwy fod yr eglwysi yn annog gwyr ieuainc o ymarweddiad addas a fyddo yn grefftwyr i roddi eu hunain i ddysgu y rhai sydd yn anwybodus gwbl o'r llwybr i fod yn gysurus yn y byd hwn. A phan yr ystyriom mor anhawdd yw iddynt ymadael â'u gwlad, â'u perthynasau ac â'u cyfeillion; y rhwystrau a'r caledi y maent yn gyfarfod yn y gwledydd yn y rhai y maent yn llafurio; a'r gwarth a fyddai i achos Iesu pe byddai un o honnynt yn myned yn wrthgiliwr, gwelir fod angenrheidrwydd neillduol am y cyfarfod gweddi i erfyn am iddynt gael cymhorth i fod yn ffyddlon hyd y diwedd. Can fod *cig a gwaed* i ymosod arnynt hwy fel ninnau, dylem eu cyflwyno yn aml i ofal Duw; a dymunaw am iddynt gael ufuddâu i alwad Duw, fel y gwnaeth Abraham, Gen. 12. 1. 4. "A'r

Arglwydd a ddywedodd wrth Abram, Dôs allan o'th wlad, ac oddiwrth dy genedl, ac o dŷ dy dâd, i'r wlad a ddangoswyf i ti. Yna yr aeth Abram, fel y llefarasai yr Arglwydd wrtho; a Lot a aeth gydâg ef: ac Abram oedd sab pymtheng mlwydd a thrugain pan aeth efe allan o Haran.—Gael eu gwneuthur yn foddlon i ddyoddef pob caledi fel y gwnaethwyd Paul. Act. 20, 24. “Ond nid wyf fi yn gwneuthur cyfrif o ddim, ac nid gwerthfawr genyf fy einioes fy hun, os gallaf orphen fy ngyrfa trwy lawenydd, a'r weinidogaeth a dderbyniais gan yr Arglwydd Iesu, i dystiolaethu esengyl grâs Duw.”—Gael yr un olwg ar gyfoeth a mawredd y byd ag y gafodd Moses. Heb. 11, 26. “Gau farnu yn fwy golud ddirmyg Crist, nâ thrysorau yr Aipht: canys edrych yr oedd efe ar daledigaeth y gobrwy.”—Gael eu dysgu i wneuthur cyfrif mawr o'r cynghor a roddwyd i Timotheus. 2 Tim. 2, 25, 26. “Mewn addfwynder yn dysgu y rhai gwrthwynebus; i edrych a roddo Duw iddynt hwy ryw amser edifeirwch i gydnabod y gwirionedd; A bod iddynt ddyfod i'r iawn allan o fagl diafol, y rhai a ddelid ganddo with ei cwyllys ef.”—Ac am iddynt gael eu cadw i *edrych ar Iesu* bob cam o'u llwybr, hyd nes myned adre ato. Wrth gadw golwg ar yr Iesu yn ei ostyng-eiddrwydd, addfwynder, amynedd, diwydrwydd, sobrwydd, tosturi, ac yn ei ofal mawr am enw yr hwn y daeth yn genhad drosto i'r ddaear, y mae i'r *cenhadau* a phawb ereill fod yn dawel yn wyneb pob caledi, ac yn ymdrechus dros lwyddiant teyrnas Mab y Forwyn.

5. *Perthynasau'r Cenhadau.* Y mae cael y fraint i fod yn rhieni i *genhad at y Paganitid* yn ail i'r fraint a gafodd Mair i fod yn fam i'r Messia, a Joseph i fod yn dâd-maeth iddo. Nis gall y rhieni ag sydd yn anfoddlon i'w plant

fyned yn *genhadau* brofi fod Crist yn anwyl ganddynt, ac eneidiau dynion yn werthfawr yn eu golwg. A phe byddent yn gweddio yn gys-on â'u hymddygiadau yn yr achos hwn, dywedent fel y canlyn: "O Arglwydd, bydded llwyddiant mawr ar deyrnas dy Fab—Anfon weithwyr ffyddlon i'r cynhauaf—Ond ni chaiff fy mhlentyn i byth fyned yn genhad drosot—Gwell yw genyf fod y Paganiaid yn treulio eu hamser yma yn anghysurus, ac i fod yn druenus byth, nag i fy mab i fyned atynt." Diolch i Dduw, y mae rhai yn ei chyfrif yn anghydedd gael magu mab i fod yn genhad dros Dduw: ac os na bydd un o'r meibion yn cael ei dueddu i fod yn genhad at y Paganiaid, da iawn yn eu golwg yw fod un o'u merched yn foddlon i fod yn wraig i un o'r cenhadau. Ni a ddylem weddio am i'r rhieni gael calon i ddiolch i'r Arglwydd am yr anghydedd fawr hon; am iddynt gael cymhorth i fod yn ffyddlon dros yr achos gartref; ac am iddynt gael eu gwneuthur yn barod i'w cyfarfod yn y dydd olaf. Mawr fydd y llawenydd pan y byddo rhieni duwiol yn cyfarfod â'u plant a fu yn genhadau at yr eilunaddolwyr. Ond trwm yw meddwl y gwelir rhai yn y dydd hwnw yn wylo ac yn dweud, "Dacw ein mab a'r Paganiaid a gredasant yn Nghrist trwy ei ymadrodd ef yn cael eu derbyn i lawenydd eu Harglwydd, a ninnau a fu yn dâd a mam iddo wedi dyfod i'r farn yn annuwiol." Bydd yr hyn a ddywedodd wrthym ni pan yr ymadawodd, yn peri gofid tragywyddawl. O mor daer y dymunedd arnom gofio am ein heneidiau, a gweddio am gael gwreiddyn y mater—a dywedodd hefyd, nad oedd dim lle dysgwyl am weled eu gilydd cyn y dydd mawr hwn—Ond och! dyma'r dydd wedi dyfod, a ninnau yn elynion i Dduw! Tebygot yw bydd llawer



ereïll ag oedd yn berthynasau a chyfeillion i'r cenhadau, a chwedi bod yn hynod haelionus iddynt yn amser eu hymadawiad, yn dweud dan wylo, "Dacw *fy mrawd*, meddai un—*fy nai*, medda i'r llall—*fy nghefnder*, meddai un arall—*a chymmydog i ninnau* a fu meddai llawer—y mae ei ofid ef yn dybenu, a'i ddedwyddwch i barâu byth—nid ydym ninnau ond dechreu wylo—ac yn mhen mil o filoedd o flyneddau, *dechreu wylo a fyddwn.*"

6. *Preswylwyr y gwledydd lle mae'r cenhadau yn llafurio.* Ni a ddylem weddio am iddynt gael calon i wneuthur derbyniad o Fab Duw; i wneuthur cyfrif mawr o'r cenhadau er mwyn eu gwaith; a dymuno na byddo neb o honynt mor annedwydd a bod yn esgeuluswyr o'r iechydwr-iaeth hyd awr marwolaeth. Ni bydd yn esmwyth ar neb o elynion Duw yn y farn; ond bydd yn esmwythach ar y rhai a fuant feirw heb glywed am Fab Duw, nag ar y rhai a wrthodasant gredu ynddo. Heb. 2, 3. "Pa fodd y diangwn ni, os esgeuluswn iechydwr-iaeth gymmaint, yr hon, wedi dechreu ei thraethu trwy yr Arglwydd, a sicrâwyd i ni gan y rhai a'i clywsant ef."

II. Rhoddi rhai annogaethau i gynnal y cyfarfod gweddi.

1. *Yn llaw Duw y mae'r llwyddiant.* Ni wnai Dr. Carey, Morrison, Read ac ereïll o'r cenhadau ddim heb fendith Duw. Pa rifedi bynag o ail anedigion, o gredinwyr gwirioneddol, sydd dan ofal y cenhadau, gwaith Duw ydynt. 1 Cor. 3, 7. "Felly nid yw yr hwn sydd yn plannu ddim, na'r hwn sydd yn dyfrâu; ond Duw yr hwn sydd yn rhoi'r cynnydd." Ephes. 2, 10. "Canys ei waith ef ydym, wedi ein creu yn Nghrist Iesu i weithredoedd da, y rhai a rag-darparodd Duw, fel y rhodiem ni yddynt."

2. *Y mae miloedd etto heb glywed son am y*

**Gwaredwr.** Cyfrifir fod chwech can' mil o fiodd yn addoli delwau; dau can' mil o filoedd y ddilynwyr i'r gau-broffwyd Mahomet; a phwy yr ystyriom am sefyllfa gwyr eglwys Rhufain ereill nad ydynt yn gwybod dim am yr efengyl fel ag yr oedd yn nyddiau'r apostolion, ni a wna wn fod galwad uchel am i ni weddio. Os yn un enaid yn fwy ei werth nâ'r holl fyd, pwy dylai nâ galaru wrth feddwl fod myrddiynau yn aros wybodus gwbl am drefn yr achubiaeth sydd i'r byd yn Nghrist. Pe byddai'r rhifedi *mil o filoedd* o eneidiau ag sydd yn marw o eisiau gwybod ychydig o'r aeth, yn cael argraff iawn ar y meddwl, ni wellir un eglwys cyn hir heb y cyfarfod hwn, na neb o'r bobl a oleuwyd gan Dduw yn esgeuluso dyddio fod iddo.

3. *Y mae'r cenhadau yn dymuno arnom twnethur hyn.* Dymuniad eu henaid yw. *O frodyr gweddioch drosom ni.* Diau eu bod yn llawenâ yn fawr wrth feddwl fod miloedd, unwaith bob mis, yn cyd-gyfarfod o flaen gorsedd-fainc Duw i weddio drostynt. Yn eu llythyrau atom y maent yn crybwyll yn aml am y gorfoledd a'r adfywiad y maent yn gael wrth feddwl am y cyfarfod hwn. Na ddywedod neb o'r bobl sydd yn ddifater y'ng hylch y cyfarfod gweddi, eu bod yn dymuno llwyddiant i'r cenhadau, ac yn caru clywed eu bod yn myned y'mlaen fel ag y maent.

4. *Y mae ystyried yr achos ag sydd yn galu am y cyfarfod hwn, yn tueddu i'n deffroi i holi ein hunain, ac i fod yn ymdrechus dros achos Iesu Grist.* Y mae'r brawd Ystyriol yn fynych yn ymddyddan âg ef ei hun fel y canlyn: "Yn y cyfarfod gweddi ac ar amserau ereill yr ydwyf yn uno gyda fy mrodyr a'm chwiforydd i weddio am lwyddiant ar achos y Cyfryngwr mawr dros wyneb y ddaear—gwaith sydd yn peri llawer o

wenydd i'm henaid yw hwn—Ond wrth gofio a ereill, dylwn holi yn aml i mi fy hun, Fy haid, a ydyw gair y deyrnas wedi bod o les i ? A ydwyf wedi dy ddwyn o ffordd dinystr a llwybr sydd yn diweddu mewn llawenydd agywyddol? Ni bydd fod perthynasau a byfeillion i mi yn derbyn Crist yn dwyn un elw i mi—Y mae'n rhaid i mi fy hun gael ffydd i greu ynyddo, neu fod byth yn golledig; ac os ydych chi yn dymuno fod y Paganiaid yn cael eu dysgu o'r ngair y gwirionedd, byddwn yn awyddus i ddysgu pawb i ddarllen y Bibl, i'w hannog i yrrando'r gair, i'w rhybyddio i ffoi rhag y digyfaint sydd ar ddyfod, ac i'w cael yn ddilynwyr "Fab Duw." Y mae llawer o'r eglwysi er pan dechreuodd y cyfarfod hwn, yn hynod fywlog aros wneuthur casgliadau at yr achos cenhadawl.

5. *Y mae'r llwyddiant sydd yn dilyn yr achos cenhadawl mewn gwahanol wledydd yn galw am ffrwythau'n llynu wrth orsedd y grás.* Arddeliad neillduol sydd wedi bod ac yn parhau i fod ar lafur y cenhadau yn Otaheite, yn y ddwy India, yn Affrica, &c. Gorfoleddu yr ydym wrth feddwl fod y cenhadau wedi bod yn offerynol i ddwyn miloedd i'r goleuni, i ffurfio ugeinau o eglwysi yn y gwledydd tywyll, i gyfieithu yr ysgrythurau i amrywiol ieithoedd, i sefydlu ysgolion mewn gwahanol fanau, a gwneuthur llawer o lês tymhorol yn y manau lle maent. Ond nid yw yr hyn a wnawd yn y byd ddim at yr hyn a welir cyn hir. Dat. 11, 15. "A'r seithfed angel a udganodd; a bu llesau uchel yn y nef, yn dyweddwyd, Aeth teyrnasoedd y byd yn eiddo ein Harglwydd ni, a'i Grist ef; ac esef a deyrnasa yn oes oesoedd." A phe byddai genym llawer o'r un ysbryd â Dafydd, Esaiiah ac ereill o'r hên ffyddloniaid, gwelid y cyfarfod hwn yn fwy blodeuog.

**Psal. 137, 5.** "Os anghofiaf di, Jerusalem, anghofied fy neheulaw ganu." **Esa. 62, 1.** "Er mwy Sion ni thawaf, ac er mwyn Jerusalem ni ostegaf hyd onid elo ei chyfiawnder hi allan fel dyscleirdeb, a'i hiachawdwriaeth hi fel lamp yn llosgi. Diolch i Dduw, y mae'r dynion mwyaf duwio a selog dros achos Iesu, yn caru'r sefydliad buddiol hwn.

*Pant-têg.*

D. D.

---

## HYMN.

**M**ILORDD sydd heb glywed etto,  
Am rinweddau maith y gwa'd;  
Ac heb wybod dim o'r llwybr,  
Sydd yn arwain at y Tâd;  
Sôn am Iesu, &c.  
Elo yn fuan dros y byd.

Yn llwyddiannus b'o'r cenhadau,  
I fynegu ewyllys Duw  
A datguddio'r llwybr rhyfedd,  
Sydd i achub dynol-ryw;  
Canmol Iesu, &c.  
Fyddo yn bleser iu' bob awr.

Mae'n llawenydd i bob duwio,  
Feddwl am yr hyfryd awr,  
Pan bydd holl drigolion daear,  
Yn coroni'r Iesu mawr;  
Diolch iddo, &c.  
Am râd gofio llwch y llawr.

# Trysorfa y Tlodion:

*RHIF. III.—Pris Ceiniog.—Yn cynnwys*

## HANES BYR

### DDULL MR. HARVEST

*Casglu ei Gynhauaf.*

\* Yn y Rhifyn nesaf rhoddir "Darluniad o fuddioldeb dysgeidiaeth yn ei holl ranau i bregethwr, mewn ffordd o ymddyddan rhwng dau frawd, o'r enwau Ioan a Rhys."

**Caerfyrddin:**

*Argraffwyd gan J. Evans, Heol-y-Farchnad isaf.*

1817.

## SYLWADAU AGORIADOL.

Psal. 73, 10. *Am hynny y dychwael ei bobl ef yma ; ac y gwesgir iddynt ddwfr-phiol lawn. Y mae llwyddiant yr annuwiol wedi bod yn fynych yn rhwystr i blant Duw i fyned yn mlaen yn hwylus. Yr oedd Dafydd ac ereill o bobl Dduw yn dychwelyd i edrych ar gyfoeth a mawredd gelynion yr Arglwydd, fel gwr ar ei daith yn troi i edrych ar ryw beth yn ymyl y ffordd ; ac wrth hynny yr oeddynt yn cael eu llenwi o ofid. Tebygol yw mai gofid ac nid cysur sydd yn cael ei osod allan yn yr adnod hon, oblegid mai yn nghyssegr Duw, ac nid yma wrth sylwi ar rwysg yr annuwiol, y cafodd Dafydd ei ddwyn allan o fagl y gelyn.*

Luc 8, 2. *A gwraigodd rai, o'r a iachesid oddiwrth ysbrydion drwg a gwendid ; Mair yr hon a elwid Magdalen, o'r hon yr aethai saith gythraul allan. Gan nad oes un enw ar y bechadures a sonir am dani yn y bennod o flaen hon, gwelir nad oes un sail i feddwl mai Mair Magdalen oedd hono. Ac nid oes genym un lle i farnu fod Mair yn ddynes o ymarweddiad anfoesol, fel y cymmer llawer ryddid i ddweud am danic. Pan ag y dywedir fod saith gythraul yn myned allan o honi, tebygol yw mai rhyw glefyd anarferol oedd wedi ei dal ; ac o bossibl, fod y gelyn hefyd wedi dyrysua ei synwyr. Dichon y rhai sydd yn cof-restru Mair Magdalen gyda Manasseh a phechaduriaid cyhoedd ereill, olygu eu bod yn canmol grâs ; ond nid wrth ddweud anwiredd y canmolir ef. Nid oes dim yn y Bibl yn ein rhwystro i ddweud fod Mair Magdalen o ymarweddiad mor hardd a Mair, mam Iesu.*

## *Hanes Byr, &c.*

**Y** MAR Mr. Harvest er ya blyneddau wedi myned o wlad y gefid i'w orphwysfa dragywyddol; ond er ei fod wedi marw, "y mae etto yn llefaru." Y mae pawb a'i hadwaenai yn tystio mai dyn oedd yn byw yn hynod agos at Dduw oedd efe. Clywais un o'i gymmydogion yn dweud ei fod yn addurn hynod i grefydd Mab Dpw mewn saith o bethau: 1. Yr oedd yn gweddio yn ei deulu yr hwyr a'r bore. Byddai yn arfer dweud am y bobl nad oedd yn gweddio ond yn unig yn yr hwyr, mai ail-beth oedd achos Crist ganddynt, so na wyddent ddim beth oedd meddwl yn ddifrifol am encidiau y rhai oedd dan eu gofal. Ac yr oedd yn dweud bob amser am y rhai ag oedd hanerog a difater yn nghylch y ddyledswydd deulu-aidd, eu bod yn gwneuthur niwed mawr i'r achos. 2. Anfynychy gwelid ef yn y cyfarfodydd wythnosol heb fod y teulu yn hynod gryno gydag ef ynddynt. Gofynnodd unwaith pa fodd yr oedd yn gallu dwyn ei deulu gydag ef bob amser: a oedd dim o hyn yn niweidio ei amgylchidau bydol? Attebodd y gofyniad yn y dull hwn: "Nid yw'r ddwy awr ag ydym yn dreulio yn nhŷ Dduw yn un golled i-mi, oblegid y mae'r gwasgnaethwyr yn llawer mwy bywiog a diwyd gyda eu gwaith wrth gael

hyn; ac wrth adael iddynt ddyfod yn yr wythnos yr wyf yn fwy hŷ i'w cymhell i ddyfod ar ddydd yr Arglwydd. A phwy a wŷrnad mewn rhyw gyfarfod wythnosol y bydd i'r saeth lynn yn nghalonau rhai o honynt. Dydd Mawrth diwedda fcaffodd Rachel fy morwyn benaf ei dwyn i ystyried ei diwedd dan bregeth Mr. Hughes, o'r Sychpant; a'r dydd lau cyn hynny y bu pregeth Mr. Davies, o Abertawe, yn foddion yn llaw Duw i ddwyn Dafydd, fy nhrydydd gwas, i ymofyn am ran yn nghlwyfau'r Iesu. O mor llawen y byddwn pe gwelwn bawb o'm pobl yn rhoddi eu hunain i fod yn ddysgyblion i Fab Duw." 3. Yr oedd yn gofalu dyfod i'r cyfarfodydd yn bryd-lawn. Clywais Hestor Evan, o'r Gelly, yn dweud i Mr. Harvest roddi cerydd llym i Dafydd Owen, o'r Tygwyn, am esgeuluso dyfod i'r odfaon yn amserol. Dywedodd wrtho ei fod yn peri gofid mawr i'r gweinidog; yn dwyn sylw'r bobl oddiwrth y bregeth; yn tristâu'r brodyr; yn rhoddi lle i'r annuwiolion gablu; ac yn peri i'r Arglwydd guddio ei wyneb oddiwrtho. Pa fodd, Dafydd bach, y gellwch ddysgwyl am fendith, a chwithau wedi esgeuluso dyfod i uno gydâ'r dyrfa i weddio am gymharth i addoli? Yr oedd rhan fawr o'r bregeth wedi myned heibio cyn eich bod yn y cyfarfod y Sabboth diwedda; a thebyg i hynny yw arnoch bob tro. Y mae *Anturiol*, *Amyneddus*, *Ffyddlon*, a *Charedig*, (yr henuriaid) yn bwriadu dyfod atoch yr wythnos nesaf i wybod beth yw'r achos o'ch esgeulusdra. Er mwyn daioni yr achos goreu a'ch lles eich hun, ymdrech-wch o hyn allan i ddyfod mewn pryd. Dywedodd Hector wrthyf i eiriau'r gwr da hwn fod yn hynod fendithiol i Dafydd Owen. Pe byddem mor ffyddlon i gynghori a cheryddu ein gilydd ag oedd Mr. Harvest, ni welid yr esgeuluswyr mor aml ag ydynt yn awr. 4. Yn hynod dosturiol wrth y tlodion. Gân-esid deall wrth ddagrau'r tlodion yn ei angladd, eu bod wedi cael colled fawr. Yr oedd ugeiniau yno'n dweud, Pe buasai *Mr. Cybydd*, *Mr. Calongaled*, a *Mrs. Annhrugarog* yn cael eu claddu heddyw, ni wylasai neb o honom; ond Mr. Harvest sydd yn myned i'r gwely pridd. Nid oes genym yn awr ddim ond gobeithio y caiff ei blant eu tueddu i fod



yn ymgeleddus i'r tlawd. Dywedodd eu tad wrth-  
yŵt ychydig cyn marw am iddynt gofio am y tlodion  
—am gofio i'w talu yn amserol am eu gwaith; a  
pheidio er dim a cheisio rhagor ganddynt am yr yd,  
y caws a'r ymenyn, o eisiau fod ganddynt arian bob  
amser i dalu am danynt wrth eu derbyn; a chofio  
ymwelled â hwynt pan y byddont yn glaf. Clywais  
heddyw fod Cornelius ei fab ieuangaf, a Phenelope  
ei ferch hynaf yn debyg iawn i'w tad o ran eu gofal  
am y tlawd. Nid peth bach yn ngolwg Duw yw fod  
ei ddyscypilion yn gwisgo am danynt amysgareodd  
trugareddau. Col. 3. 12. "Am hyny (megis ethol-  
edigion Duw, santaid ac anwyl) gwisgwch am dan-  
och amysgareodd trugareddau, cymmwynasgarwch,  
gostyngeiddrwydd, addfwynder, ymaros." 5. Yr  
oedd ei dŷ yn lletty i genhadau Crist. Yr oedd  
llawer yn yr ardal yn fwy cyfoethog na Mr. Harvest,  
a thai llawer yn fwy cyfeus i dderbyn dycithriaid—  
ond ei ddrws ef oedd yn agored iddynt; ac yr oedd  
yn llawen ganddo bob amser gael eu cyhoeddiadau.  
Dywedai yn aml, "Pan ag y byddo porthmon yn  
dyfod ataf, yr ydwyf yn cael gwybod am brisiau'r au-  
feiliaid. Gan fasnachwyr a ddel ataf, caf wybod am  
bris yr yd a phethau ereill. Pan ag y byddo dar-  
henyddion y naill newydd-grawu a'r llall yn ym-  
welled â mi, rhoddant wybod i mi am y rhyfeloedd,  
y marwolaethau, y priodasau, &c. Ond trwy dder-  
byn cenhadau'r efengyl dan fy nghronglwyd, yr  
wyf yn cael *gwobr proffwyd*:—yr wyf yn cael espon-  
iad ar yr adnodau dyrus ag wyf yn gadw erbyn y  
delont; yn cael clywed am y llwyddiant a fyddo ar  
achos Iesu mewn gwahanol fanau; ac yn cael llawer  
o gynghorion buddiol ganddynt. 6. Gallaisid deall  
wrtho yn mhob man ei fod yn perthyn i deulu Duw.  
Er nad oedd yn son am grefydd, ac yn dadleu fel  
rhai dros athrawiaethau'r gair yn y tafarn-dai, yr  
oedd ei sobrwydd yn peri i bawb wybod mai un o  
blant Duw oedd efe. Wrth brynu a gwerthu yr  
oedd cyflawnder a gwirionedd yn llywodraethu ei  
galen. Yr oedd meddwod, geiriau segur, ac ath-  
rodiaeth yn ffaith yn ei olwg. Yr oedd yn ym-  
ddwyn mor addas yn mhob lle, fel ag yr oedd ge-  
lyunion yr achos yn dweud, "Os oes duwiolion yn y

byd, y mae yr hen Mr. Harvest yn un o honynt." Sier yw y gwelid teyrnas Iesu yn fwy llwyddiannus, a'i ddeiliaid yn fwy aml, pe byddai ymddygiadau profesywyr yn ateb i reolau'r Bibl. 7. Yr 'oedd ganddo lwybr i wneuthur lles mawr i'w bobl yn amser y cynhaaf. Yn y flwyddyn 1193 dechreuodd ei gynhaaf yn yr wythnos olaf o Awst, a thros y deuddeg diwrnod y parâodd ei gynhaaf, nid aeth un dydd heibio heb ymddyddan â'u gilydd am bethau ysbrydol. Yr oedd Mr. Harvest yn cadw y medelwyr yn ymyl y tŷ cyn y boreu-bryd, i gael cyfle i ddarllain a gweddio yn y cynhaaf fel ar amserau ereill. Gwel pawb nad yw'r penau-teuluoedd sydd yn peidio cymmeryd amser yn y cynhaaf i addoli Duw yn y boreu ddim yn mlaen ar y rhai sydd yn addoli. Dywedai Mr. Harvest am danynt, fod ganddynt fwy o ofal am yr *ŷd* nag am y *medelwyr*; fod y *corff* yn fwy gwerthfawr na'r *enaid* ganddynt; ac *amser* yn cael y dydd ar *dragywyddoldeb*:—ond o bossibl fod yr ymadroddion hyn yn amherthynol i rai o honynt. Dywedodd un o honynt wrthyf y buasai yn dda ganddo gael cyfle i wneuthur hyn; ond nad oedd hyd yn hyn ddim yn gallu cyflawni ei ddymuniad. O bossibl bydd i mi, eb efe, drefnu rhyw beth yn nghyffwrdd hyn erbyn y cynhaaf nesaf. I attal y medelwyr i siarad â'u gilydd am bethau annefayddiol, i adrodd beiau eu cymmydogion, a son am lithriadau rhai profesywyr, rhoddodd Mr. Harvest ddau ofyniad dan eu hystyriaeth.

Holiad 1. Pa fodd y mae i ni adwaen y rhai sydd yn agos i fod yn adfed i'r tân?

Bu'r holiad hwn dan sylw dros bump diwrnod. Rhoddwyd yr atebion hyn iddo:

Atteb 1. Y mae un yn agos i fod yn adfed i'r tân pan y byddo wedi bod flyneddau dan weinidogaeth y gair, ac yn parâu i fod yn ddiiffrwyth. Heb. 6. 8. "Eithr yr hon sydd yn dwyn drain a mieri, sydd anghymeradwy, ac agos i fellidith; diwedd yr hon yw, ei llosgi." Y mae llawer wedi gwrando'r pregethwyr mwyaf doniol, ac wedi clywed cannoedd o

bregethau da, ac etto yn gwrthod Crist. Er fod y gair yn galw ar bawb i edifarâu, i dderbyn y Mâb, i rodio yn ffyrdd Duw, ac i wneuthur pob peth a wnelont er gogoniant i Dduw; gwelir mai diystyru y gair y mae miloedd; ac yn addfedu bob dydd i'r tân tragwyddol.

2. Pan ag y byddo yn caledu ei wâr yn wnech ceryddon Duw. Diar. 29, 1. "Gwr a gerydder yn fynych ac a galeda ei wâr, a ddryllir yn ddisymmwrth, fel na byddo meddyginiaeth." Cafodd Parry o'r Alltwen ei geryddu yn fynych trwy gymmeryd ymaith ei berthynasau agosaf.—Bu yn ddiweddar yn agos i derfynu ei yrfa gan gwdwm oddi ar ben y dâs gwair—Ac nid oedd neb yn meddwl y cyfodasai o'r dwymyn a gafodd y gauaf diweddaf. Er i'r Arglwydd ei geryddu trwy gymmeryd ymaith Louisa ei wraig a dau o'r plant; er iddo ef ei hun fod yn glaf hynod, ac iddo yn ei gystudd addunedu, os arbedid ef, y gadawai ei ffyrdd annuwiol, y mae yn awr yn fwy anystyriol nag y bu erioed. Nid rhyfedd a fyddai iddo gael symudiad disymmwrth i fyd arall, fel y cafodd Henry John o'r Brydan trwy y rhwym-gnoffa neu'r colic. Gwr a geryddwyd yn fynych oedd hnw.

3. Pan ag y byddo yn barod i ddweud y myaant er pob peth gadw y pechod anwylaf. *Yfed i ormodedd* yw'r pechod mwyaf anwyl gan rai; *godinebu*, gan ereill; *dygrifwch cnawdol*, gan gannoedd o blant dynion; a *charu'r byd*, gan rai ereill, &c. I amddiffyn ei hunan, dywed y meddwyd mai *yfed yn drwm* ar amserau yw'r cwbl sydd gan rai yn ei erbyn ef: ond tra byddo ceiniog yn fy llogeill ni byddaf heb ddiod, deued arnaf fel y delo. Ac meddai'r godinebwr a'r lleill am danynt eu hunain, nid oes ond *un peth* allan o le arnom ninnau. Byddai yn dda i'r bobl hyn ystyried fod *ond* meddwdod, *ond* godineb, *ond* geiriau segur, &c. wedi dwyn miloedd dan lid Duw. Mat. 5, 29, 30. "Ac os dy lygad ddeau a'th rwystra, tyn ef allan, a thaff oddiwrthyt: canys da i ti goili un o'th aelodan, ac na thaffer dy holl gorff i afferu. Ac os dy law ddeau a'th rwystra, tor hi

ymaith, a thafſ oddiwrthyt: canys da i ti gollu un o'th aelodau, ac na thafſer dy holl gorff i uffern."

4. Pan ag y byddo wedi myned yn wrthgiliwr ac yn erlidiwr creulon. Pan ag yr elo'r gwrthgiliwyr i erlid pobl Dduw, y mae achos ofni y byddant cyn hir yn addfed i ddinistr. Yr ydym yn adnabod rhai ag y bu eglwys Dduw yn meddwl yn barchus am danynt, sydd yn ſtaenoriaid yn myddin yr erlidiwyr yn awr. Y maent yn dweud am broffeswyr mai rhagrithwyr ydynt oll; yn caru clywed am lithradau y crefyddwyr; a phan ag y byddo un yn troseddu dywedant yn ddigon digywilydd, "Dyna'r fath rai ydynt i gyd." Dywedodd Ioan yn hynod gywir am y rhai hyn: I Ioan 2, 19. "Oddi wrthym ni yr aethant hwy allan; eithr nid oeddynt o honom ni: canys pe buasent o honom ni, hwy a arosasent gyda ni: eithr hyn a fu, fel yr eglurid nad ydynt hwy oll o honom ni."

5. Pan ag y byddo wedi treulio blyneddan yn eglwys Dduw ac yn ddisfater am wneuthur daioni i achos Crist. Y mae cannoedd yn eglwys Dduw er ys deug ſlynedd ar hugain, ac mor dywyll yn awr ag oeddynt yr amser y derbyniwyd hwynt; heb wybod dim am ymdrechu i gael llesiad trwy'r moddion; ac yn hollawl ddisfater am ledanu teyrnas y Cyfryngwr. Y mae *disfaterwch* ac *anffrwythlonrwydd* llawer yn peri i ni ofni mai ofn uffern a meddwl mai'r bobl sydd ar enw Crist sydd i gael y nefoedd, sydd yn eu cadw rhag myned allan o dy Dduw. Er nad yw pobl Dduw wedi cael achos i'w hysgymuno, tebygol yw mai y'mhlith y rhai a fydd ar y llaw aswy y byddant yn y dydd olaf. Mat. 13, 29, 30. "Ac efe a ddywedodd, Na fynaf; rhag i chwi, wrth gasglu yr efrac, ddiwreiddio y gwenith gyda hwynt. Gadewch i'r ddau gyd-dyfu hyd y cynhauaf; ac yn amser y cynhauaf y dywedaf wrth y medelwyr, Cesglwch yn gyntaf yr efrac, a rhwymwch hwynt yn ysgybâu i'w llwyr-losgi; ond cesglwch y gwenith i'm hysgubor."

Ar ol iddynt sylwi yn ſanwl ar y pwnc hwn, dy-

wedodd Mr. Harvest wrthynt ei fod yn gobeithio nad oedd y nodau hyn yn perthyn i neb o honynt hwy. Ond os nad ydym ni, eb efe, yn mhlith y rhai sydd yn addfedu i'r tân, y mae cannoedd trwy y wlad yn myned gyda brys neillduol tuag uffern. Y mae hyn yn galw am i ni weddio drostynt, a dweud llawer wrthynt am eu sefyllfa dragywyddol. Y mae gobaith am daant tra y byddant byw. Byddai yn dda genyf, ebe Mr. Harvest, pe byddai'r eglwysi yn cytuno â'u gilydd i gynnal *cyfarfod gweddi dros yr annuwiol* ar yr ail nôs lun o'r mis.

Hol. 2. Pa fodd y mae adnabod y rhai sydd yn agos i fod yn addfed i'r nefoedd?

Dywedodd y naill a'r llall o honynt am y pwnc hwn fel hyn:

Att. 1. Y mae'r dyn hwnw yn agos i fod yn addfed i'r nefoedd ag y mae pechod yn peri mwy o oŵd iddo na dim arall. Rhuf. 7, 24. "Ys truan o ddyn wyf fi! pwy a'm gwared i oddiwrth gorff y farwolaelh hon?"

Gwyr plant Duw beth yw cael eu blino gan ofn uffern, gan ofidiau'r byd, a chan gystuddiau; ond nid yw'r cwbl ddim at y gosid y maent yn gael oddiwrth yr hea ddyn, oddiwrth eu bod mor ddi-gynnydd, oddiwrth amherffeithrwydd eu cyflawniadau, &c.

2. Ag y byddo hiraeth parhaus yuddo am fod yn debyg i Grist. Pan ag y byddo yn meddwl am Grist fel un na chlywodd neb air segur o'i enau erioed, fel un ag oedd yn dawel yn wyneb pob gwaradwydd, ya ymdrechu i wneuthur llês i gyrff ac eneidiau dynion, ac fel un ag oedd yn amcannu yn mhob peth i osod allan y llwybr ag y mae i, ni ogoneddu Duw a bod yn ddedwydd byth, y mae'r duwiol yn galaru wrth seddwl ei fod mor annhebyg iddo. Phil. 3, 13. "Y brodyr, nid wyf fi yn bwrw ddarfod i mi gael gafael: ond un peth, gan anghofio y pethau sydd o'r tu cefn, ac ymestyn at y pethau o'r tu blaen."

3. Ag y byddo llwyddiant yr achos yn agos at ei galon. Os bydd un yn hiraethu, am weled pawb a fyddo ar enw Crist yn byw er gogoniant i Dduw, am weled hâd y duwiolion yn dyfod at grefydd, a rhai nad y'nt yn hanu o rieni duwiol yn cael eu hargyhoeddi, y gwrthgilwyr yn dychwelyd at yr Arglwydd, ac am weled holl eglwysi Mab Duw yn ymdrechus dros ledanu teyrnas gwybodaeth a rhinwedd; gellir barnu fod yr enaid hwnw yn agos i uno'r dyrfa yn y nef. Dywedodd Mr. Harvest ei fod yn cofio am yr hyn a ddywedodd Evan Powel o'r Hendre ychydig cyn marw, mewn perthynas i'r peth hwn:—"O mor ddymunol y byddai genyf, ebe Evan Powell, weled pob proffeswr mor ffyddlon dros Grist ag yw'r annwiliolion dros bechod; y pregethwyr mor awyddus i gyngori a cheryddu eu gilydd ag ydynt am weled dyscyblaeth mewn parch gan y bobl sydd dan eu gofal; a chariad brawdol yn gorchfygu rhagfarn a zêl bleidiol yn holl eglwysi Crist."

4. Ag y byddo cyfarfodydd y brodyr yn dwys llawenydd mawr iddo. Nis gallwn feddwl yn dda am y rhai sydd yn esgeuluso y *cyfrinachau*. Dywedai Mr. Harvest na welodd neb ag oedd arwyddion arnynt eu bod yn blant i Dduw yn diystyru'r cyfarfod ag sydd yn cael ei gynnal at holi profiad y duwiolion. Yr oedd y Salmydd yn mynegi yr hyn oedd Duw yn ei wneuthur i'w enaid. Sicr yw y dylai cyfarfodydd at esponio'r gair, at egwyddori eu gilydd yn mhethau yr Arglwydd, gael eu cynnal gan bob eglwys—ond nid anfuddiol a fyddai cael cyfarfod unwaith neu ddwy yn y mis i holi ein gilydd am waith grâs yn yr enaid. Nid pawb o'r bobl sydd yn sôn llawer am esponio sydd yn caru cael eu holi am y modd y mae'r gwaith yn myned yn mlaen yn eu heneidiau: ond nid boddlon yw'r brawd *Profiadol* fyw ar bethau yn banesiol.

5. Ag a fyddo yn chwennyh cael ei ddatod i addoli Duw yn berffaith yn y nefoedd. Phil. 1, 28. "Canys y mae yn gyfyng arnaf o'r ddeu-tŷ; gan fod genyf chwant i'm datod, ac i fod gyda Christ: canys llawer iawn gwell ydyw." Clywir llawer o'r

Bobl mwyaf anystyriol pan ag y byddo rhyw beth yn eu gofidio, yn dywedyd, "O na chaem farw." Addas hynod oedd attebiad Mrs. Davies, gwraig y diweddar Mr. Tomas Davies o'r Pant-têg, i gymmydog iddi am y dymuniad anystyriol hwn:—"O na chawn farw," ebe'r cymmydog; ie, "a dyfod yn ol forw," ebe hi'n hâu. Dywedwyd wrthyf i eiriau y wraig dduwiol hon fod o lês i'r cymmydog. Nid diffyg amynedd dan orthrymderau a chystuddiau y bywyd hwn sydd yn peri fod y duwiolion yn dysgwyl am angen; ond wrth feddwl fod preswylwyr y nefoedd yn rhydd oddiwrth bechod, yn gallu addoli Daw mor berffaith ag y dymument, ac yn cael amlygiadau helaeth o'r Duwdod trwy Iesu Grist, y maent yn dysgwyl am yr amser y cant fyned at y teulu sydd ar ben eu taith.

Ar ddiwedd y cynauaf talodd Mr. Harvest hwynt am eu gwaith; bu yn ddiolchgar iddynt am eu sylwadau buddiol ar y ddau bwnc a osododd dan eu sylw; a dymunodd arnynt gofio y pedwar peth hyn:—

1. Fel ag y torasoch i lawr yr fyd, bydd angen â'i golyng marwol ae â'i gryman llym, yn ein tori ninnau i fyd arall cyn hir. Bydd rhai o honom, o bosibl, cyn y cynhauaf nesaf, wedi myned i ffordd yr holl ddaear. Y mae llawer iawn o ofal genym am bethau y bywyd hwn, am ein bywioliaeth ac am ein cysur tymhorol; ond hynod mor anfynych yr ydym yn holi pa le y byddwn yn y byd arall.

2. Bydd sefyllfa dynion yn y byd tragwyddol yn ateb i'w hymddygiad yma yn yr un modd ag yr oedd yr hyn a sedasoch i mi yn ateb i'r peth a hauais. Gal. 6; 7, 8. "Na thwyller chwî. Ni watwarir Duw: canys beth bynag a hauo dyn, hynny hefyd a fêd efe. Oblêgid yr hwn sydd yn hau i'w gnawd ei hun, o'r cnawd a fêd lygredigaeth: eithr yr hwn sydd yn hau i'r Ysbryd, o'r Ysbryd a fêd fywyd tragwyddol." Y mae mor afresymol i ddysgwyl cael y nefoedd wedi byw hyd atgeu yn agwaf

anaeth pechod, ag a fyddai i un ddysgwyl am wenith yn y man lle hauwyd haidd.

3. Fel ag yr oedd yn hawdd i chwi adnabod yr efrau pan yn addfed, nis gall y rhagrithwyr guddio eu twyll yn inhellach na chynhauf y farn. Ymfrost llawer yn awr yw eu bod yn aelodau yn eglwys Lloegr, neu yn fedyddwyr, neu yn ganlynwyr i Mr. Whitfield a Mr. Dabiel Rowlands, neu yn perthyn i'r blaidd sydd at enw Mr. Wesley, neu yn Anym-ddibynwyr, neu yn Undodiaid, &c. Bod yn gredinwyr gwirioeddol fydd yn gymmeradwy yn y farn. Yn y dydd hwnaw gwelir beth sydd gan bawb o honom.

4. Fel ag y mae'r cynhauf yn boddloni'r llafurwr am ei drafferth, fe fydd dedwyddwch y nefoedd yn lloni pawb a fu yma yn ymdrechus dros helaethu teyrnas Crist. Ni bydd na Moses, na Joshua, na'r profwydi, na'r apostolion, na neb o'r merthyron yn dwend iddynt lasurio yn ofer dros fab Duw. Mat. 25, 34. "Yna y dywed y Brenin wrth y rhai ar ei ddëan-law, Deuwch, chwi fendigedigion fy Nhâd, etifeddwch y deyrnas a barotowyd i chwi er seiliad y byd.

*Pant-têg.*

D. D.

## HYMN.

BYDD pob wyneb yn ymddangos;  
Yn sobr iawn y dydd a ddaw;  
Ni bydd neb ond ffryndiau'r Iesu,  
Yno yn sefyll heb ddim braw:  
Rhaid i bawb na fyn ymostwng,  
I delerau grasol Crist,  
Fyned gydâ'r wŷs ddyweddawl,  
I aros byth yn uffern drist.

'Nawr yw'r amser i ni 'mofyn,  
Am iawn asael ar y gwir;  
Bydd y dydd i geisio'r Iesu,  
Wedi darfod cyn b'o hir:  
Mae trugaredd Duw yn foddlon  
Ymgeleddu dynolryw;  
Ni wrthodir a ddêl ati,  
Tra yn teithio tir y byw.



# Trysorfa y Tlodion:

*RHIF. IV.—Pris Ceiniog.—Yn cynnwys*

## DARLUNIAD BYR

o

### FUDDIOLDEB DYSGEIDIAETH

I Waith y Weinidogaeth;

AR DDULL YMDDYDDAN

RHWNG DAU FRAWD,

*O'r enwan Ioan a Rhys.*

---

•• Yn y Rhifyn nesaf rhoddir crynodeb o ymadroddion  
detholedig a dirgel hanesion.

---

Caerfyrddin:

*Argraffwyd gan J. Evans, Heol-y-Farchnad isaf.*

*Lle gellir cael y Rhifyn cyntaf, yr sith, a'r trydydd; o  
Drysorfa y Tlodion.*

1817.

# SYLWADAU AGORIADOL.

## 1 Tim. 2, 15.

*Etto cadwedig fydd wrth ddwyn plant, os arosant hwy mewn ffydd, a chariad, a santeiddrwydd, y'nghyd a sobriwdd.*

Y personau ag y dywedir am danynt, " Os arosant hwy mewn ffydd, &c." yw'r gwragedd. Nid yw ddim yn erbyn hyn fod yr apostol yn nechreu'r adnod yn sôn am danynt yn y rhif unigol. Gwneid pethau allan yn aml yn y dull hwn yn ngair Duw. Salm. 140, 8. " Na chaniata, Arglwydd, ddymuniad yr annuwïol: na lwydda ei ddrwg foddwl; rhag eu balchio hwynt. Selah." Cael cymhorth i esgor, a'u cadw yn y cyfyngder hwn, a olygir yma wrth y gair *cadwedig*;—cadwedigaeth dymhorol a pherthynol i'r hwydd hwn, a quid *cadwedigaeth* yr enaid, a osodir allan yma; os amgen, beth a ddaw o'r rhai nad yw yn planta? Ac nid yw fod gwragedd annuwïol yn cael nerth i esgor, ddim yn profi nad yw ymddiried yn Naw yn gwneuthur lles i'r gwragedd duwiol wrth ddwyn plant. Y mae rhai yn meddwl fod Daw, yn more Cristionogaeth, yn dangos arwyddion neilldeol o'i gafiad at y gwragedd ag oedd yn ymddwyn yn addae, pan y byddent yn geni plant, i'r dyben i ddyrchafu teyrnas ei Fab.

## 1 Cor. 11, 10.

*Am hynny y dylai y wraig fod ganddi awdurdod ar ei phen, o herwydd yr angelion.*

Ystyr y gair *angelion* yw cenadau. Tebygol yw, mai'r cenadau a fyddai'r eilun-addolwyr ac ereill yn anfon fel yspïwyr, i edrych-pa fodd y byddai canlynwyr Iesu yn ymddwyn yn yr addoliad, a olygir wrth yr *angelion* yn yr adnod hon. Rhag i'r cenadau hyn a'u cyfeillion gael lle i gablu'r achos, dymuna'r apostol ar y gwragedd i wisgo am eu penau. Yr oedd gwneuthur hyn yn arwydd o'u hymostyngiad i'w gwŷr.

## Darluniad Bgr., &c.

IOAN. BORE da i chwi fy mrawd Rhys. Y mae'n dda genyf eich gwled.—A ydyw pawb sydd yn eich tŷ yn iach?

RHYS. Diolch i chwi; yr wyf hi a'm teulu yn iach. Gobeithiwyf eich bod chwithau a'ch teulu felly. Yr oeddwn yn hiraethu am eich gwled, er mwyn cael cyfleusdra i ymddyddau ychydig am rai pethau ag sydd yn gorphwys ar fy meddwl y dyddiau hyn. Buais y Sabbath diweddas, am ddeg o'r gloch, yn gwrando y gŵr sydd yn byw yn *Idetty rhagfarn*, yn pregethu yn nghapel Salem. Kreithiodd yn hynod dda, a dywedodd wrthym lawer o bethau buddiol; ond yr oedd rhai pethau yn ei bregeth ag oedd yn gofidio fy meddwl i yn fawr. Dywedodd wrthym, "nad oedd efe ddim wedi bod yn Rhydycken, nac yn Hoxton, nac yn Nghaerodr, nac yn Nghaerfyrddin, nac yn Llanfyllin, nac mewn un athrofa (*academy*) arall; ac mai pregethwyr o waita dynlon oedd yn awr yn llenwi'r eglwyl." Ar ol i mi fyned adref, edrychais yn Esponiad Dr. Lewis am feddwl y testan oedd ganddo; a gwelais mai yn ngwaith y gŵr da hwn yr oedd wedi cael y pethau ag oedd ganddo yn teilyngu sylw y gwrandawr. —Ac am yr ymadroddion uchod, a'r cyffelyb, y mae'n hawdd i ni ddeall mai am gamol ei hun yr oedd efe. Beth yw eich barn chwi, fy mrawd, am y pregethwyr sydd yn dywedyd pethau fel hyn?

IOAN. Nid unwaith, na dwywaith 'chwaith, y darfu i minnau gael fy mlino gan bethau o'r natur hyn. Gwrandawais un yn ddiweddar yn pregethu pregeth o' waith yr enwog Edwards, o *America*, ac ar yr un pryd yn dywedyd yn erbyn dysgeidiaeth a'r athrofeydd. Pe buasai y gŵr hwn yn dywedyd y cwbl, dywedasai fel hyn:—"Ni buais i erioed mewn un athrofa,—ond gwelwch fy mod yn gallu pregethu yn swy derbyniol na'r rhai sydd wedi cael dysgeidiaeth."

Clywais i William Pngh, o'r Dyffryn, ofyn iddo beth oedd yn ei olwg wrth ddywedyd yn erbyn yr athrofeydd: a'r ateb a gafodd, oedd, mai am ganmol gwaith yr Ysbryd Glân, yn cymhwyso dynion i fod yn genadau dros Fab Duw, yr oedd efe. Nis gwn ddim beth oedd sylwadau William ar ei ateb, ond gallasai ddywedyd wrtho, "nad oedd dim eisiau diystyru ymdrechadau y llafurwr yn hau ei faes, i gael llwybr i ganmol Duw am y gwlaw cynar a'r diweddar." Yr oedd un arall, yn ei weddi, yn dywedyd fel hyn:—"O Arglwydd, yr wyt ti wedi gwneuthur defnydd o rai a fu yn yr ysgolion;—ond ni a wyddom mai o'r athrofeydd y daeth y cyfeiliornadau mwyaf." Pe buasai'r gŵr hwn mewn ysbryd addas, dywedasai mai o'r ysgolion hefyd y cawd llyfiau i orchfygu y cyfeiliornadau mwyaf,— a diolchasai i Dduw am danynt. I ateb eich gofyniad, yr wyf fi yn barnu mai clod iddynt eu hunain yw'r cwbl sydd ganddynt mewn golwg.

RHYB. Diau eich bod yn barnu yn gywir am danynt. Ac nid rhyfedd yw fod rhai eglwysi yn edrych yn wael ar rai ag a fyddo yn ysgolheigion, pan ag y maent dan ofal y fath bregethwyr ag a enwasoch: ond nid yw y pregethwyr hyn ddim yn gallu bod mor uchel ac ymfrostar ag oeddynt ugain mlynedd yn ol, nac yn gallu tueddu y bobl i edrych gyda diystyrwch ar *students* a fyddo yn ymweled â hwynt, fel y gallasant gynt. Yr wyf yn clywed rhai yn dywedyd fod Dafydd Tomas, o'r Pandŷ, yn dywedyd llawer o bethau dirmygus am rai ag a fyddo yn myned i'r ysgolion. Y mae'n debyg y cawn ei weled y fory yn y cyfarfod yn Salem.—Fe gaiff ddyfod at un o honom i aros dros nŵs y fory; ac ni a ofynnwn iddo ychydig o bethau yn nghylch yr athrofeydd. Dranoeth, ar ddiwedd yr odfaon am dri o'r gloch, ceisiodd Ioan ganddo ddyfod i lettya ato ef.—Ac ar ol myned

I'r tŷ, a chymmeryd ychydig faniseth, gofynodd Rhys iddo pa fodd yr oedd pethau yn myned ymlaen yn yr athrofa newydd yn y Fenni—pafath rai oedd yr ysgolheigion yno, &c.—“Nid ydwyf,” ebe Dafydd Tomas, “yn gwybod dim am danynt yno, nac yn caru clywed neb o'r bobl ieuainc yn pregethu: gwell yw genyf wrando y rhai nad oes ganddynt ddim ond y Bibl, a phregethau Dyer, a gorsedd y grâs, i'w cymhorth i bregethu. Nid oes dim llawer o amser er pan y clywais un o'r brodyr yn y weinidogaeth yn dywedyd am y niwed ag oedd llawer o'r ysgolheigion wedi wneuthur i achos Crist yn mhob oes; ac y mae rhai pethau a ddywedodd wedi aros ar fy meddwl.” “Byddai yn ddymunol genym,” ebe Ioan a Rhys, “gael gwybod genych am rai o'r rhesymau ag oedd gan y brawd hwnw yn erbyu yr ysgolion?” “Nid wyf,” ebe Dafydd, “yn cofio y cwbl a ddywedodd; ond y pethau mwyaf neillduol yw y rhai canlynol:”—

1. Dywedodd wrthyf, “mai yr ysgolheigion penaf oedd fynychaf yn llyncu athrawiaethau cyfeillornus.” Y mae yn wir, Dafydd Tomas, fod rhai a gyfrifid yn ddyunion enwog wedi myned yn gyfeillornwyr—ond nid dysgeidiaeth yw yr achos o hyny. Y mae cymmeryd hyn yn achlysur i ddywedyd yn ddrwg am ddysgeidiaeth, yr un a phe dywedid mai gwell yw i filwyr ofalu am beidio bod yn rhai medrus, gan fod rhai o'r milwyr mwyaf cyfarwydd, ar amserau, yn troi allan yn encilwyr. A chan fod rhai o'r cyfeillornwyr yn ddyunion dysgedig, y mae yn rhaid cael rhai dysgedig i sefyll yn erbyn eu cyfeillornadau hwynt.

2. “Fod y rhai ag oedd yn cael dysgeidiaeth yn ddifater am gynnorthwyo yr Ysbryd Glân.” Y mae yn hawdd i chwiri weled nad oes dim grym yn y gwrthdadaid hwn. Y mae pob pregethwr duwiol, bydded ddysgedig neu annysgedig, yn gwybod mai yn llaw Duw y mae'r llwyddiant.

Zech. 4, 6. "Ac efe a atebodd ac a ddywedodd wrthyf; gan ddywedyd, Hyn yw gair yr Arglwydd at Zorobabel, gan ddywedyd, Nid trwy lu, ac nid trwy nerth, ond trwy fy Ysbryd, medd Arglwydd y lluoedd." Yr oedd Dr. Watts, Dr. Owen, Dr. Gill, Dr. Williams, o Rotherham, Robinson, o Leicester, Charles, o'r Bala, a phregethwyr dysgedig ereill, yn treulio llawer o amser yn yr ystafell, i weddio am gynnorthwyon Ysbryd Duw, i iawn gyfrauu gair y gwirionedd.

3. "Nad oedd y rhai ag oedd yn cael eu dwyn i fynu yn yr ysgolion ddim mor ostyngedig a hawdd eu trin a phregethwyr ereill." Gwir yw, fod rhai yn dywedyd nad ydynt yn gwneuthur dim yn yr athroseydd ond dysgu i fod yn falch ac yn foethus; a galarus yw, fod rhai o honynt yn rhoddi lle i etynion yr achos i gablu: ond er fod rhai yn peri gofid i ni, y mae ymarweddjad ereill yn dangos eu bod yn gwybod am y ddygeidiaeth a ganmolir yn Iago (3, 17.) "Eithr y ddoethineb sydd oddi uchod, yn gyntaf pur ydyw, wedi hyny heddychlawn, boneddigaidd, hawdd ei thrin, llawn trugaredd a ffrwythau da, diduedd, a diragrith." Nid yw fod rhai yn cam-ddefnyddio'r manteision gwerthfawr hyn ddim yn profi nad yw dysgeidiaeth yn ddefnyddiol i bregethwyr. Gellir dywedyd am lawer o'r pregethwyr dysgedig, fel ag y dywedodd un gŵr am yr enwog Mr. Charles.—"Y mae Mr. Charles," eb efe, "mor ostyngedig a'r pregethwyr diddysg ag sydd yn ein mysg—ie, y mae yn hawddach i'w drin nâ rhai o honynt." Y mae ŷgeiniau o'r rhai a addysgwyd yn yr athroseydd, yn ymddwyn mor addas i'w galwad yn y dyddiau hyn, fel ag y mae'r cablwyr yn gorfod bod yn ddystaw.

4. "Fod llawer o honynt yn arfer geiriau a'r nad yw llawer yn deall eu hystyr, ac yn adrodd y gwirionedd mewn dull mor ysgolaidd fel nad

yw cannoedd yn deall dim o hâner y pethau sydd yn cael eu llefaru." Y mae yn rhaid cyfadd fod rhai o honynt yn eugog o wneuthur hyn ond gellir dywedyd am bawb ag sydd yn gofal yn gywir am enw Duw, eu bod yn ymdrechu osod gwirioneddau Duw allan mor eglur ag gallo y gwanaf ei ddeall wybod beth a fydd ganddynt. Ac nid ydych, Dafydd bach, ddi heb sylwi fod llawer o'r pregethwyr annysged yn llefaru mewn dull mor dywyll a dyrystly fel nad oes nemawr, weithiau, yn gwybod beth sydd ganddynt. Pa bryd bynag y clywoch yn amcanu dywedyd pethau ag a fyddo uwchla deall ei wrandaw-wyr, ac yn ddfater am ddywedyd pethau yn oleu iddynt, gellwch ddywedyd am danu, ei fod yn ymddwyn yn hynod annheby i Grist, i'r apostolion, ac i'r pregethwyr mwy defnyddiol yn mhob oes. Ioan 7, 46. "A swyddogion a atebasant, Ni lefarodd dyn erio fel y dyn hwn." 1 Cor. 14, 19. "Ond yn y eglwys gwell genyf lefaru pum gair trwy i neall, fel y dysgwylf ereill hefyd, nâ myrddiw o eiriau mewn tafod dyeithr."

**IOAN.** Y mae'r pethau aglywsom gan Dafydd Tomas, yn dangos mai rhai o'r pregethwyr annysgedig sydd yn llenwi'r bobl o ragfarn y erbyn dysgeidiaeth. Ond chwi a welwch, i mrawd, nad oes dim grym yn y pethau a ddywedir yn erbyn yr ysgolion.

**RHYS.** Yr wyf yn gwbl o'r un feddwl â chw am rai o honynt; ond da genyf yw fod eic cybuddiad yn amherthynol i ugeinau o honynt y mae llawer o'r pregethwyr annysgedig yn gyl eillion i'r athroseydd, ac yn gweddio dros e llwyddiant. Ac yr wyf yn barnu y byddai mw o weddio dros flyniant dysgeidiaeth, pe byddi yr eglwysi yn gwybod yn well am y rhesyma cedyrn sydd genym dros yr athroseydd. A wnewch chwi, fy nghyfaill, enwi rhai o honynt

**IOAN.** Y mae yn dda genyf cael cyfle i at

Sich gofyniad. Y mae'r pethau ag wyf i enwi, yn peri i mi gredu, y dylem wneuthur a allom i roddi dysgeidiaeth i ddynion ieuainc cymmeradwy, cyn iddynt gael eu neillduo yn gyflawn i waitâ y weinidogaeth Gristionogol:—

1. Yr oedd athrofeydd neu *academies*, o'r fath ag sydd genym ni, yn bod yn mhlith y proffwydi. 2 Bren. 2, 3. "A meibion y proffwydi, y rhai oedd yn Bethel, a ddaethant allan at Eliseus, ac a ddywedasant wrtho, A wyddost ti mai heddyw y mae yr Arglwydd yn dwyn dy feistr oddi arnat ti? Dywedodd yntau, Mi a wn hyny hefyd, tewch chwi â sôn." Y mae Dr. Patrick, Poole, ac esponwyr ereill, yn golygu mai gwŷr ieuainc dan ofal y proffwydi oedd y *meibion* hyn, yn cael eu dysgu ganddynt i ddeall pethau ysbrydol, yn derbyn proffwydoliaethau o enau eu hathrawon, i'w hadrodd i'r bobl, ac yn cael eu cymhwysu ganddynt i fod yn dystion enwog dros Dduw Israel. Ac ar ol caethiwed Babilon, yr oedd addysgiadau yn cael eu rhoddi yn y synagogau, ac mewn yggolion o'r fath ag oedd gan Hillel, Gamaliel, ac ereill.

2. Yr oedd Crist a'r apostolion yn gyfeillion i'r athrofeydd. Luc 2, 46. "A bu, ar ol tridiau, gael o honynt hwy ef yn y deml, yn eistedd y'nghanol y doctoriaid, yn gwrando arnynt, ac yn eu holi hwynt." Ac onid rhai yn yr ysgol gydâ Mab Duw oedd y deuddeg a'r deg dyscybl a thrugain? Gwyddom mai rhai diddysg oedd pysgodwyr môr Galilea cyn iddynt gael eu galw i ddilyn Iesu Grist; ond cyn iddynt gael eu hanfon allan i fod yn genadau dros Dduw, buost am rai blyneddau dan ofal yr Athraw goreu a fu erioed ar y ddaear: ac heblaw y manteision helaeth a gawsant yn nghymdeithas Iesu, yr oeddynt hwy dan gyfarwyddyd anghyffredinol yr Ysbryd Glân. Cyfarwyddai Paul y gweinidog ieuac Timotheus i lynu wrth ddarllen, fel ag y byddai ei gynnydd yn amlwg i



bawb: ac os oedd Paul a'i frodyr yn ystyried y dylai pregethwyr dreulio llawer o'u hamser i ddarllen y Bibl a llyfrau buddiol ereill, gwelir mai cymhwys yw iddynt gael pob cymhorth a ellir roddi iddynt, at ddarllen yr ysgrhythrau santtaidd yn yr icithoedd ag yr ysgrifenyd hwynt ynddynt gyntaf. A rhydd y parch a ddangosasai dyscyblion Mab Duw, yn oesau cyntaf Cristionogaeth, i'r athrofeydd, le i ni gasglu i'r apostolion roddi pob aarnogaeth i ddysgeidiaeth. Hysbysir i ni yn ysgrifenedau Ireneus ac Eusebius, i St. Ioan sefydlu athrofa yn *Ephesus*; ac i Polycarp osod un i fynu yn *Smyrna*. Yn Hanesyddiaeth Dr. Mosheim am achos Crist yn mhob oes, y gwelwn fod athrofeydd yn *Alexandria*, yn *Antiochia*, yn *Edessa*, &c. yn y canrifoedd blaenaf a goreu i deyrnas y Cyswgrwr.

3. Y mae fod gwŷr dysgedig wedi cael eu gwneuthur yn offerynol i ddwyn oddi amgylch *ddiwygiadau* yn achos crefydd Crist, yn profi y dylem fod yn gyfeillion i'r athrofeydd. Neillduwyd Paul, astudiwr o athrofa Gamaliel, i wrthwynebu a dystewi'r philosophyddion a'r dysgedigion yn Athen a lleodd ereill, ag oedd yn sefyll yn erbyn llwyddiant teyrnas Mab Duw. Hysbysir i ni gan yr hanesydd Mosheim, fod gan Iesu Grist rai ag oedd yn enwog mewn dysgeidiaeth, yn ysgrifenu ac yn dadleu yn ardderchog yn erbyn yr amrywiol gyfeiliornadau a fu yn blino eglwys Dduw o ddyddiau yr apostolion hyd amser y diwygiad gan Luther a'i gyfeillion. Yr oedd Luther, Zuinglius, Melancthon, Calvin, ac oreill, a ddefnyddiwyd i orchfygu teyrnas pabyddiaeth, mewn gwahanol fanau, yn ddynion dysgedig iawn—Ac er dyddiau y diwygwyr byn hyd yn awr, cafwyd rhai o'r athrofeydd, a rhai ereill ag oedd yn dyfod yn ddynion dysgedig, heb fod dan ofal neb athrawon, ac heb ddim ond y cymhorth ag oeddynt yn gael yn

ngwaith dysgedigion, i sefyll yn gadarn drôs y gwirionedd, fel y mae yn Iesu Grist.

4. Y mae addeffadau y pregethwyr call ac ystyriol yn mysg yr annysgedig, yn dangos fod yr athroseydd yn hynod fuddiol. Addefant eu bod yn llafurio dan lawer o anfantelsion, o stiau eu bod wedi cael dysgeidiaeth. Dywedant na allasant osod gwirioneddau Duw allan moreglurag y maent, oni buasai y cynnerthwyon y maent yn gael yn ysgrifenedau Poole, Henry, Owen, Giff, Brown, Watts, &c. A chyfaddefant y buasai yn dda ganddynt gael y manteision a gafodd llawer; a sicr yw, y buasai rhai o honant yn prynu yr amser yn yr athroseydd yn well na llawer ag a fu ynddynt.

5. Profir defnyddioldeb yr athroseydd oddi wrth ymdrechadau Cristionogion o wahanol enwau i gyfrannu at eu cynnal, ac oddiwrth fod eu rhifedi yn amlau. Y mae parch yn ddyledus i esgobion y deyrnas hon, am eu gosol droe gael offeiriaid dysgedig i'r eglwysi ag sydd dan eu golygiaeth. Y mae Dr. Burgess, esgob presenol Tŷ Ddewi, yn un o'r colofnau penaf ag sydd gan ddysgeidiaeth i'w chynnal i fynu.—Y mae ngeinau o'r rhai sydd yn cael eu dysgu dan ei nawdd yn Nghaerfyrddin, yn Llan bedr, a manau ereill, yn rhoddi lle i obeithio y byddant yn offeiriaid ffyddlon yn eu dydd a'u cenedlaeth; a diau genym, ei fod yn gweddïo am i bob offeiriad yn ei esgobaeth gael bod yn offerynol yn llaw Duw, i droi pechaduriaid oddiwrth eu pechodau at yr Arglwydd.

Nid llai ymdrechus yw'r ympeilkduwyr o wahanol bleidiau, i roddi dysgeidiaeth i rai ag y byddo lle i feddwl fod Duw yn eu galw hwynt at ei waith. Y mae eglwysi Crist mewn rhanau ereill o'r byd yn ymgeleddas hynod i'r athroseydd. Ac y mae ein bod yn clywed fod athroseydd newydd yn cael eu gosod i fynu, megis ag y cafodd un ei sefydlu yn ddiweddar yn Neuadd.

lwyd, un arall yn y Fenni, &c. yn profi fod dyageidiaeth yn cynnyddu.

6. Y mae'r cymhorth a gafodd cenadan Crist yn mhob oes gan ddysgeidiaeth, at gyflawni eu gwaith, yn arddangos llesâad y sefydliadau hyn. Rhoddwyd cymhorth iddynt ganddi, dan fendith Duw, i ddwyn yr ysgrythyrau santaidd i'r Gymraeg, ac i amrywiol o leithoedd ereill; i ysgrifenu esboniadau ardderchog ar y Bibl; a thraethodau anatebadwy, i amddiffyn gwirionedd y Grefydd Grist'nogol.—Cynorthwya hi bregethwyr yr oes hon i edrych a ydyw'r cyfieithiadau ag sydd genym o'r Bibl yn gywir, i eglurâd y pethau mwyaf tywyll yn ngair Duw, i ysgrifenu llyfrau buddiol o blaid yr athrawiaeth ag sydd yn ol duwioldeb, i roddi'r ysgrythyrau dwyfol yn nwyllaw holl genedlaethau'r byd, yn eu hieithoedd eu hunain, ac i ymresymu yn dda ar bob pwnc a fyddo dan eu hystyriaeth.

Rhys. Diolch i chwi am eich atebion digymhar. Ni feddyliais i erioed eu bod mor suddiol hyd yn awr. Os byw ac iach a fyddaf, mi a synaf weled eich atebion yn nwyllaw holl eglwysi y dywysogaeth. At y pethau neillduol a ddywedasoeh, mi a ychwanegaf y tri pheth canlynol, i ddangos y manteision ag y mae gwyr ieuainc yn gael o dreulio pedair blynedd, neu ragor, mewn rhyw athrofa:

1. Y maent trwy hyn yn dyfod i garu treulio y rhan fwyaf o'u hamser yn eu llyfr-ystafell. Nid ar unwaith y daw dynion i aros o'r bore hyd yr hwyr gydâ'u llyfrau; ond wedi iddynt ymarfer eu hunain yn yr ysgol i astudio, dewisant ddarllen a mysyrjo o flaen dim arall. Ac nid oes lle i genadau'r efengyl ddysgwyl bod yn ddefnyddiol heb lynu wrth ddarllen.

2. Cânt gyfle yn yr athrofa i chwilio am y gwirionedd drostynt eu hunain, ac i ffurfio barn sefydlog am bynciau sylfaenol y Grefydd Gristionogol. Nid oes dim yn fwy rhesymol nag i

bob dyn gael barnu drosto ei hunan am bethau crefyddol; ac y mae'n ddyledswydd ar bawb i edrych a yw y pethau y maent yn gredu yn ol y gair: ac nis gall un dyn duwiol a synwrol lai na ehoffeiddio pawb a fyddo yn caru Duw ac yn caru eu cymmydog. Gwedi iddynt gael amser i ddarllen gwaith rhai o wahanol feddyliau, a chwilio am y gwirionedd dan gyfarwyddyd Ysbryd Duw, dysgwylir y byddant yn gymhwys i adeiladu'r bobl mewn gwybodaeth.

3. Y mae'r cyfeillgarwch a fyddo rhyngddynt tra yn yr ysgol, o lês hynod iddynt wedi yr elont allan. Y maent yn ysgrifenu at eu gilydd, ac yn ymgynghori llawer â'u gilydd trwy lythyr-  
au, yn cynnorthwyo eu gilydd i ymdrin yn iawn âg achosion teyrnas Iesu—pan gyfarfyddont ar amserau, y mae'r naill yn barod i adrodd ei helynt wrth y llall; ac fe w'yr rhai o honynt beth yw cofio am eu gilydd o flaen gorsedd y grâs.

IOAN. Yr wyf yn golygu fod y pethau a ddywedasoeh chwi a minnau, yn ddigon i ddangos buddioldeb dysgeidiaeth i waith y weinidogaeth. Na feddylied y pregethwyr diddysg ein bod yn meddwl nas gallant fod yn ddefnyddiol dros Iesu. Gw'yr pawb fod rhai o honynt yn hynod lasurus i bregethu gair Duw, ac yn gwneuthur llawer o ddaioni yn yr ardal oedd y maent yn byw ynddynt.—Y mae yn dda genym am bawb o honynt, ond am y rhai ag sydd yn cablu'r athroseydd. Llwyddiant a fyddo i'r athroseydd—a bendith Duw a fyddo ar lasur holl genadau ffyddlon Iesu trwy y byd. Ymdrechded y dysgedig a'r annysgedig i wneuthur defnydd iawn o'u talentau.

D. D.

# Trysorfa y Tlodion:

RHIF. V.—Pris Ceiniog.—Yn cynnwys

**CRYNODEB**

**YMADRODDION**

**DETHOLEDIG**

*Dirgel Hanesion,*

GAN MWYAF

**WEDI EU CYFIEITHU O'R SAES'NEG.**

**YB y Rhifyn nesaf rhoddir Hyforddiadau i ddiweddau  
yr hen flwyddyn a dechreu'r newydd.**

**Caerfyrddin:**

*Argraffwyd gan J. Evans, Heol y Farchnad isaf.*

**Lle gellir cael y Rhifyn cyntaf, yr ail, y trydydd, a'r  
pedwerydd, o Drysorfa y Tlodion.**

1817.

## SYLWADAU AGORIADOL.

Psal. 125, 3. *Canyis ni orphwys gwialen annuwioledeb ar rhandir y rhai cyflawn; rhag i'r cyflawn estyn eu dwylo at anwiredd.*

Wrth wialen annuwioledeb y meddylir awdurdod yn llaw annuwioledd i sino ac erlid plant Duw, Esa. 14, 5. "Yr Arglywydd a ddrylliodd ffon yr anwiriad, a theyra-wialen y llywiau dwyr." Y mae'r gair *rhandir* yn cyfeirio at yr etifeddiaethau ag oedd yn cael eu rhannu i Israel trwy goelbron. Dywedir yma, na chaent sino pobl yr Arglywydd yn hir, *rhag iddynt estyn eu dwylo at anwiredd*; hyn yw, rhag i blant Duw naiti at ymofnu am waredigaeth trwy lwybr anghyfreithlon, a thrwy hyn y ddywys gwaith ar yr achos; neu rhag iddynt ymollwng yn eu heneidiaid, a meddwi mai ofer yw gwasanaethu Duw, wrth weled eu bod yn dyoddef cymhaint; heu rhag iddynt gael eu llygru gan esampiau drwg y wlad annuwioledd, a syrthio i eilun-addoliaeth wrth weled yr erlidwyr yn dianc rhag barnedigaethau Duw. Ni addawodd Duw gadw ei bobl rhag cyfarfod â chyfyngderau; ond ya y cyfyngder y mae Duw yn gymhoorth iddynt, Deut. 32, 36.

Mat. 5, 22. *Eithr yr ydwyf fi yn dywedyd i chi, Pob un a ddigio wrth ei frawd heb ystyr, a fydd euog o farn; a phwy bynag a ddywedo wrth ei frawd, Raca, a fydd euog o gynghor; a phwy bynag a ddywedo, O ynfyd, a fydd euog o dan uffern.*

Y mae'r adnod hon yn arddangos manyldra'r ddeddf, yn sylwi ar feddyliaid a geiriau a fyddo yn tueddu at niweidio'r brawd neu gyd-greadur. Y mae digio heb achos yn haeddu barn Duw. Dysgwyl rhai am fendith yn y moddion, pan ag y byddont yn ddig wrth rai o'u brodyr, a hyn heb un achos cyfreithlon; ond barn a gyhoeddir yma iddynt. Yr un peth yw *Raca*, a phe dywedid, *O ofer-ddyn disynawr, O greadur penwan*. Ni ddylasai y rhai a arferai yr iaith hon gael dianc rhag sylw'r *cynghor*. Y mae'r *cynghor* yn cyfeirio at y rhai ag oedd yn farnwyr yn Israel. Galw rhai wrth yr enw *O ynfyd*, yw cyhoeddi barn ar eu cyflirau, megis pe dywedid, *Dyn diras, mab y gŵr drwg, adyn meiddigedig, &c.* Nid heb achos, ac nid oddiwrth lid, yr oedd Mab Duw a'i apostolion, yn galw rhai yn yafydion, Mat. 23, 17. Gal. 3, 1.—Yr oedd y rhai ag oedd yn dweud *O ynfyd*, oddiwrth falsis a chenâgen, yn haeddu'r gosp drymaf.

## *Ymadroddion Detholedig, &c.*

1. **Y** FRORDD i gael bendithion *ysbrydol* yw bod yn *daer* am danynt; ond trwy fod yn *ddiawydd* am fendithion *tymhoriol* y cair hwynt. Cafodd Solomon ddeothineb gan Dduw trwy *esyn* am dani; ac anrhydeddwyd ef â golud y byd am *no* cheisiodd ef.

2. Pan ag y byddo cymmwynasau Duw yn dyfod atom, gweddus yw ein bod yn *eu* cyfarfod hwynt â diolchgarwch.

3. Dywedir fod dyn yn *afiaeh* pan ag y byddo yn colli ei frys at fwyd: yn yr un modd y gellir dweud, fod plentyn Duw mewn sefyllfa nychlyd; pan na fyddo arno newyn am fara'r bywyd. Diffyg o'r newyn am ymborth i'r enaid, ag sydd gan y brawd profiadol, yw'r achos fod gair Duw mor ddiles i lawer yn y dyddiau hyn.

4. Nid oes neb mor dlawd a'r rhai nad yw yn teimlo eu heisieu.

5. Y mae'r anian newydd a blenir trwy waith digyfrwng yr Ysbryd Glân yn yr enaid yn *anorchfygal*: ond nid yw, fel ag y dywed rhai, yn *anwrthwynebol*:—y mae llygredd y galon yn gwrthwynebu y dyn newydd hyd eithaf ei allu; ond o da'r anian newydd y try'r fuddugoliaeth yn y diwedd. Gal. 5, 17. "Canys y mae y cnawd yn chwenychu yn erbyn yr Ysbryd, a'r Ysbryd yn erbyn y cnawd: a'r rhai hyn a wrthwynebant eu gilydd, fel na alloch wneuthur beta bynag a ewyllysioch."

6. Y mae casineb at bechod gan bawb ag sydd yn parchu Duw. Yn ol fel ag y byddont yn ymdrechu yn erbyn pechod, y gellir barnu am wirionedd eu cariad at Dduw.

7. Y pregethwr a was lês i ercill, yw yr hwn sydd yn ymofyn am lesâad i'w euaid ei hun yn y pethau a fyddo yn adrodd i'r bobl.

8. I'n cadw rhag achwyn am y pethau sydd heddyw, ystyriwn fod llaw Duw yn mhob dygwyddiad; ac fel na ofidiom am yr hyn a fydd y fory, cofiwn fod yr holl ddygwyddiadau yn llaw Duw.

9. Bu merch foneddig unwaith yn ymweled â'r diweddar Barchedig John Berridge, yr hon a dreuliodd yr holl amser ag y hi yn ei gyfrinach, i ddweud wrtho ef am ei thylwyth, ei dysg, ac am bethau ereillag oedd yn perthyn iddi ei hun, fel na chafodd Mr. Berridge gyfe ganddi i ddweud dim. Pan ag yr oedd yn ymadael âg ef, rhoddodd iddi y cynghor hwn:—"Meistres, ed efe, pan ag yr eloch i'rw gyfrinach etto, gadewch i ereill gael dweud ychydig."—Byddai yn dda i lawer yn y dyddiau hyn i sylwi ar y cynghor hwn.

10. Yr oedd rhai o'r brodyr ag oedd dan ofal y diweddar Mr. Lacy, yn Portsea, yn arfer ymgynnull at eu gilydd ar fore dydd yr Arglwydd, am chwach o'r gloch, i weddio am gymhorth i'w gweinidog, a holl genadau Crist, i bregethu; ac arferent esponiaw adnodaau o'r Bibl yn y cyfarfodydd buddiol hyn: ac yn un o honynt ymddyddanasant y'nghylch 1 Ioan 3, 18. "Fy mhlant bychain, na charwn ar air, nac ar dafod yn unig, eithr mewn gweithred a gwirionedd." Dywedodd y naill a'r llall o honynt lawer o bethau cymhwys iawn mewn perthynas i ystyr ymadnod hon, a'r defnydd addylid wneud o honi;—acar ddiwedd y gyfrinach, dywedodd un *Stuart Benjamin* wrthynt "eu bod wedi gadael y cwbl ar air ac ar dafod yn unig. Ni wna esponiaw



pethau yn y modd hyn ddim o'r tro—Dyma'r brawd *Ephraim Forth* ag oisieu ebb asno, i'w gadw yn gynnes yn yr amser oer hwn; a thyma fy swllt i i'w gymhoth i brysu un." Canlynodd ereill ei siampl, a chafodd y brawd tlawd gôh. Pe byddai cyfrinachau'r saint yn ateb y dybenion hyn a'r cyffelyb yn amlach, dilys yw genym y caem wyneb Duw yn fwy aml yddynt.

11. Yn y plwyf lle yr oedd Mr. Hervey yn pregethu, pan ag yr oedd yn *Arminian*, yr oedd Arddwr yn byw, ag oedd yn arfer gwrando yn addoldy Dr. Doddridge. Arferai Mr. Hervey, er Hesâad ei iechyd, ddilyn yr aradr gyda'r gŵr hwn: ac un bore, bu'r ymddyddan hwn rhyngddynt:—

*Mr. Hervey.* Yr wyf yn deall, fy nghyfaill, eich bod chwi yn gwybod iaith Canaan.

*Arddwr.* Yn amherffaith iawn, syr.

*Mr. H.* Mi a gymmeraf y rhyddid i ofyn un peth i chwi:—Beth ydych-chwi yn olygu yw'r peth *mwyaf anhawdd* mewn crefydd?

*Arddwr.* Nid wyf fi, syr, ond dyn annysgedig, ac yr ydych chwi yn weinidog yr efengyl: gwell yw genyf wrando arnoch chwi yn sylwi ar y gofyniad a gefais genych.

*Mr. H.* Yr wyf fi yn barnu mai'r peth mwyaf anhawdd yw i ddynion ymwrthod â'r pechodau a goffeidiasant am flyneddau meithion.

*Arddwr.* Y mae'n rhaid i mi ddweud mai peth arall oeddwn i yn ystyried yn ateb i'ch cwestiwn chwi. Barnu yr wyf mai'r peth mwyaf anhawdd yw ymwrthod â *Hunan-glod*, a chyflawni pob peth â golwg at ogoniant Duw. Crefyddu y mae canooedd, i ennill enw yn mhlith dynion, neu i haeddu ffaf Duw a phrynu'r nefoedd.

Cafodd ateb y dyn tlawd hwn le yn nghalon Mr. Hervey;—gwelodd mai nid trwy weithred.

oedd y cair y nesoedd;—ac ymdrechodd o hyn allan i bregethu Crist fel unig Waredwr pechaduriaid.

12. *Beirniadaeth ymarferol.* Cyfarfu meddwyn âg un ag oedd wedi cael bendith wrth wrandō pregeth oddiwrth Zech. 3, 2. “A'r Arglwydd a ddywedodd wrth Satan, Cerydded yr Arglwydd dydi Satan; sef yr Arglwydd yr hwn a ddewisodd Jerusalem, a'th geryddo: onid pentewyn yw hwn wedi ei achub o'r tân?” Bu yn daer wrtho am ddyfod gydag ef i'r dafarn, a dywedodd wrtho am beidio blino yn nghylch ei enaid yn rhy gynnar. Chwi gewch ddigon o amser etto, ebe'r meddwyn, i barotai erbyn y dydd hwnw. Deuwch,—deuwch am un tro eto—mi a dalaf drosoch am y ddiod: ond nis llwyddodd i'w gael ef. Dywedodd y gŵr hwn wrth y meddwyn, “Nis gallaf ddyfod, gan mai pentewyn wyf wedi ei achub o'r tân.” Beth ydych chi yn ddeall wrth hyny? ebe'r meddwyn. Wele, ebe'r gŵr hwn, chwi a wyddoch fod gwahaniaeth mawr rhwng pren i'r a phentewyn; parod iawn i'r tân gael gafael ynddo yw pentewyn. Gan mai un felly wyf fi, ymdrechaf, trwy gymhorth Duw, i gadw yn mhell oddiwrth y demtasiwn, rhag i mi fyned i feddwi etto fel o'r blaen.—

13. *Ymddyddan rhwng un ag oedd am gael bod yn aelod o'r senedd a chyfaill iddo ef.* Pan ag y byddo dau neu dri yn sefyll yn erbyn eu gilydd am fyned yn *gynnrhychiolwyr* dros ryw le i'r senedd, penderfynir y ddadl rhyngddynt trwy etholiad—y nifer fwyaf yn dangos pwy sydd i gael yr anrhydedd hon. Ac ar amgylchiad o'r fath hyn y bu'r ymddyddan canlynol:

*Seneddwr.* A ellwch chi, fy nghyfaill, ddywedyd wrthyf pa fodd y mae i mi gael y dydd ar y ddau sydd yn fy ngwrthsefyll.

*Cyfaill.* Gallaf, syr; nid oes un llwybr i

chwi i'w gorchfygu ond trwy ddiwydrwydd : y mae'n rhaid i chwi fod mor ddiwyd ag y galloch yn nghylch y mater hwn.

*Sen.* Yr wyf wedi gwneuthur a allaswn i gael rhai i roddi eu llais drosof ; ac nid bychan yw'r draul ag sydd wedi myned yn barod at hyn :

*Cyf.* Byddai yn ddymunol, syr, pe byddech mor ymdrechus i sicrâu eich dewisiad i le gwell. ¶

*Sen.* Lle gwell ! Beth ydych yn olygu wrth ddweud felty ? Y mae'r *fwrdeis-dref* hon yn un o'r goreu yn y wlad hon.

*Cyf.* Gwir, syr ; ond y nesoedd oeddwn i yn foddwl wrth y *lle gwell* : gwnewch eich goreu i fod yn mhlith y rhai a gânt fwynâu Duw byth yn y nesoedd.

*Sen.* Ho, ho ! Yr wyf yn deall beth sydd genych yn awr. Yr ydych chwi y Calfiniaid yn golygu fod sefyllfa dragywyddol yr etholedigion yn sicr er cyn yr oesoedd. Onid hyn yw eich barn chwi ?

*Cyf.* Dim yn fwy sicr, syr, na'r peth yr ydych chwi yn ei gylch y dyddiau hyn.

*Sen.* Pa fodd hyny ? Byddai yn dda genyf pe byddai fy mater i mor sicr a'ch hetholedigaeth chwi.

*Cyf.* A ydych chwi ddim yn golygu fod Duw yn gwybod am eich sefyllfa chwi ?

*Sen.* Diau y gwyr Duw am hyn ; ond nid yw fod Duw yn gwybod ddim yn rhoddi lle i mi fod yn ddiosal a difraw.

*Cyf.* Os yw yn weddas eich bod yn gwneuthur a allach yn yr achos hwn, oni ddylech ofalu am fater eich benaid ?

*Sen.* O syr, os wyf i gael fy nghadw, mi a fyddaf yn gadwedig ; ond os nad wyf, nid arnaf fi bydd y bai.

*Cyf.* Ac os ydych i fod yn aelod o'r senedd dros y lle hwn, chwi a fyddwch ; ac yna, gwell

i chwi eistodd i lawr, a phaidio gwario dim o'ch meddiannau at yr achos hwn.

*Sen.* Y mae'n rhaid i mi arfer pob diwyd, rwydd, ac onid ê ni chaf byth fy newis ganddynt.

*Cyf.* A pha beth sydd yn eich perswadio y cewch fyned i'r nefoedd heb ymdrechu i fyned i mewn?

*Sen.* Nid oes genyf ddim amser i ymddyddan rhagon â chwi yn awr yn nghylch hyn; mi a gaf eich gweled etto ryw bryd.

*Cyf.* *Rhyw bryd, rhyw bryd!* symudwyd llawer i fyd arall cyn gweled y *rhyw bryd* a soniwyd cymmaint am dano. Os cewch chwi, syr, eich dewis i fod yn aelod o'r senedd, anrhydedd i ddarfod fydd hynny; ymosynwch am fod yn blentyn i Dduw, ac yn etifedd teyrnas nefoedd. Llwyddiant i chwi, syr.—

14. Ar ddiwedd cyfarfod mewn man, aeth Mr. Jones o Langan i'r tŷ yn ymyl yr addoldŷ, i gymmeryd ychydig luniaeth; daeth llawer o'r cyfeillion i mewn, i ofyn iddo y'ngylch ei iechyd, &c. ac yn ngwaith un o honyat ya troi heibio oddiwrtho, bu mor anhappus arno ag y tafodd y botel o win ag oedd ar y bwrdd i'r llawr, fel ag y collwyd cymmaint ag oedd ynddi, "Wele, ebe Mr. Jones, gwell yw ein bod ni wedi tafu'r botel i lawr, nag i fod y botel wedi ein tafu ni i'r llawr."

15. Dywedodd Mr. Jay o'r Bath unwaith, wrth un a welodd yn dyrnu ei yd, "Yn mhob llafur," ebe efe, "y mae elw." Oes, ebe'r dyrnwr, yn ngwaith Duw; ond nid oes dim elw yn ngwasanaeth satan. Diolch i'r Arglwydd, mi a gefais atian i adael llwybrau pechod, a dyfod at waith Duw. Nid yw'r llawenydd ag y mae yr annuwiol yn gael, ddim at y golled ag sydd yn ei aros mewn byd arall.

16. Pan ag yr oedd syched mawr ar Lysimachus gynt, cynnygodd ei deyrnas i'r *Getæ*, am

gael modd i'w ddisychedu. Ar ol iddo yfed, dywedodd fel y canlyn :—“ Ys truan wyf, mi a gollais fy nheyrnas am yr ychydig ddiod hyn,— am yr ychydig ddiod hyn !” Dywed llawer, yn angeu ac yn y farw, “ Collasom,—gwerthasom,—a gwrthodasom y nefoedd, am gael treulio ein hamsen byr yn y byd i wledda ar ddanteithion pechod.” Nid yw mwynâu pleserau'r byd am dragain a deg o flyneddau, ddim at ddyoddef cosp draggyddol.

17. *Y gweyn yn rhoddi gwers i grefyldwyr.*  
Nid ydynt hwy byth yn gweithio bob un ar ei phen ei hun; ond y mae'r naill weynoen yn cynorthwyo'r llall. Gwnai Cristionogion fwy o ddaioni i achos Crist, pe byddent yn debyg i'r gweyn yn yr hyn a-enwyd.

18. Byddai un o'r tadau yn arfer dweud, *māi, Mel in ore, Melos in aure, Jubilus in corde*, oedd enw Crist i'r credadyn; hyny yw, fod ei enw yn *Fel yn y genau*, yn *Felus-gerdd i'r clustiau*, ac yn *Jubili's galonau* holl blant Duw.

19. *Cwyn-fynag y Bibl yn addoldŷ Pant-tŷg.*  
Y mae pawb ag sydd yn dyfod yma i bregethu, ebe'r Bibl ag sydd yn yr areithfa yno, yn profesu fy mod yn anwyl ganddynt, eu bod am i'r gwraudawwyr wneuthur cyfrif mawr o honof, yn dweud nad ydynt yn gallu pregethu dim ond yr hyn a ddysgwyf iddynt, yn gwneuthur a allont i annog y bobl i'm canmol yn eu teuluoedd, ac yn profi trwy y rhesymau mwyaf cadarn, nad oes dim byw yn ddedwydd heb ddilyn fy nghyfarwyddiadau i. Yn hyn y maent yn gwneuthur yn dda.—Ond fe ddaeth un yma yn ddiweddar, ac ni ddywedai fawr o eiriau, heb roddi *lach* i mi yn gyson;—a chyn iddo ddarfod, yr oedd dalen o honof yma a dalen o honof acw : a blin oeddwn, am fod y bobl yn ei ganmol, ac nad oedd neb o honynt yn tosturio wrthyf yn y sefyllfa wael ag oeddwn ynddi trwy y dyrnodiau didrugaredd

a-gefais ganddo. Y mae'n dda genyf glywed pawb yma yn pregethu yn wresog; ond yr oeddynt gynt yn medru adrodd geiriau Duw yn wresog, heb leisio yn annaturiol, a'm ffusto i fel pe byddwn y gelyn gwaethaf yn y byd.

20. Gwnaeth Harri y cyntaf *hyd* ei fraich yn brawf-fesur trwy Loegr, am y peth a elwir *gony* yn ni yn *llathen*; yn yr un modd y mae llawer etto, am beri i bawb *greda*, *addoli*, a bod o'r un enw fel crefyddwyr a hwynt-hwy eu hunain.

21. Y mae ugeinau o broffeswyr yn yr oes hon yn debyg i lawer noswaith rewlyd yn mis Rhagfyr, yn oleu, ond er hynny yn oerlyd iawn.

22. Dywedodd un wrth weinidog yr esengyl, ag oedd yn byw yn agos ato ef, ei fod yn clywed am dano, ei fod yn sefyll yn erbyn yr athrawiaeth o barâd y saint hyd y diwedd: Nac wyf, ebe'r gweinidog, yn dweud dim yn erbyn hwno, ond yn dweud a allwyf yn erbyn *parâd yr annuwilion mewn gelyniaeth yn erbyn Duw*. Y mae llawer o bregethwyr yn sôn llawer mwy am *barâd yr undeb* ag sydd rhwng-Iesu â'i bobl, nag ydynt am y *niwed* o aros heb gael Duw yn eiddo i ni.

23. Dywedodd Harri IV. o Ffrainc, un tro, ar ddydd gwledd am ei enedigaeth, "Tebygol yw, ebeff, mai fi yw'r unig un o bawb a aned ar yr un dydd â mi, a wnaethwyd yn frenin. Mawr yw gofal Duw am danaf," ebe'r brenin duwiol hwn.—Gall llawer un o blant Duw ddweud, "Myfi yw'r unig un o'r teulu a'r teulu ag sydd yn meddu duwioldeb." Y mae cael duwioldeb yn fwy o faint nâ chael y byd i gyd yn eiddo i ni.

24. Y mae tri diwrnod yn agos, yn y rhai y bydd Crist yn hynod werthfawr:—dydd trallod a gofid, dydd angeu, a dydd y farn.

25. Gwyliedydd tlawd yw yr hwn sydd yn fwy mynych yn yr araithle o *faen* ei bobl, — yn yr ystafell dros ei bobl.

26. *Nodau plant Ddu.* Gogoniânt Ddu yn ddyben penaf ganddynt; rhagluniaeth a grâs Duw yw eu dyogelwch; a gorchymwynion Duw sydd yn eu dyddanu a'u lloni dros yr amser y maent yn cael aros yn y byd.

27. *Pagan yn argyhoeddi cristion.* Daeth yr hanes ganlynol o'r India:—Pan ag y glaniau, ebe'r ysgrifenydd, yn mhorthladd *Du-mond*, daeth rhai o'r trigolion atom; ond nid hir y cawsant aros, heb gael eu difrio yn ddychrynalld gan un o'u pobl ni, yr hwn a ddywedodd eu bod yn ffot iawn i wrando ar eu hofferiaid. Nid ydym ni, yn Lloegr, yn rhoddi an paroh i'n hofferiaid a'u hathrawon;—yr ydym yn gwnenthur fel ag y mynom. “Gwir yw, ebe un o'r trigolion; nid ydych chwif y Saeson yn gofalu am ddim ond am arian.”

28. Y mae'r llyfyr mwyaf buddiol yn ol genym, pan ag y byddom yn esgeuluso darllen llyfyr y gydwobod.

29. *Y ffordd i fyw yn heddychlon.* Nid oes un llwybr yn well na bod yn ddystaw rhag dweud dim drwg am neb, a pheidio sôn ond a fyddo eisiau am un dyn.

30. Yr oedd gwraig o safyllfa uchel yn y byd, yr hon oedd yn cael y gair eu bod yn odinebus, yn dadleu yn erbyn y Bibl; gan haeru nad oedd o Dduw, o herwydd fod ynddo bethau ag oedd yn rhy dywyll i neb eu deall, &c. Wele, ebe cymmydeg iddi, yr ydych wedi dweud llawer yn erbyn tywyllwch y Bibl a phethau ereill; Beth sydd yn fwy amlwg na'r seithfed gorchymyn—*Na wna odineb?*

31. *Cynghorion i bregethwyr.* Dywedodd yr enwog Mr. Shepheard, ychydig cyn marw, wrth rai pregethwyr ienainc a ddaeth i ymweled âg ef, fod gaffidiant swydd bwysig. Y mae genyf dri pheth, eb efe, i ddweud wrthyth am y swydd o fod yn genadau dros Dduw:—1. Ni astudiais an

## SYLWADAU AGORIADOL.

Preg. 4, 13, 15. *Gwell yw bachgen llawd a doeth na brenin hên ac ynfyd, yr hwn ni fedr gymmery rhybydd mwyach. Mi a welais y rhai byw oll, y rhai sydd yn rhodiô dan yr haul, gydd'r ail mab yr hwn a saif yn ei le ef.*—Yr mae'r adnodau hyn yn gosod allan yr anweddyddwch y mae breninoedd a blaenoriaid teyrnasoedd yn agored iddo, ac mor gyfnewidiol yw plant dynion yn mhob oes, "yn barod iedrych ar yr haul a fyddo yn codi, yn hytrach nag ar yr hwn a fyddo yn machludo." Dyma y dull ag sydd wedi bod ar y byd hyd yn hys, ac nid yn fuan y gwelir pethau yn troi allan yn well. Preg. 4, 16.—*Gydd'r ail mab.*—Yr ail mab yw'r bachgen llawd, yr hwn sydd fod yn ail (successor) i'r brenin hên ac ynfyd, i deyrnasu yn ei le ef.

Preg. 5, 2. *Na fydd ry brysur â'lh enau, ac na frysied dy galon i draethu dim gor bron Dauw: c. yr Dauw sydd yn y nefoedd, a thithau sydd ar y ddaear; ac am hyny bydded dy eiriau yn anaml.*—Yn bwylllog ac yn ystyriol y dylem weddio ar Ddauw, addunedu i Ddauw, a llefaru dros Ddauw.—*Na fydd ry brysur.*—Gan nad yw yn bosibl i neb fod yn rhy ddirifol a dauwiol, gwelir mai nid cymhwys yw dweud mai dya prysur iawn yw dyn a fyddo yn byw yn agos at Ddauw. Yr un peth yw dweud, *Na fydd ry brysur, a dweud, Na fydd yn fyrbwyll ac anystyriol.*

Preg. 5, 8. *Os gweli dreisio'r tlawd, a thraws-wyro barn a chyfiawnder mewn gwlad; na rysfedda o achos hyn: canys y mae yr hwn sydd uwch na'r uchaf yn gwylicd, ac y mae un sydd uwch na hwynt.*—Yr mae gormod yn y byd etto o'r tywyth ag sydd yn treisio'r tlawd, &c. Gelwir hwynt i gyfrif cyn hir. Dauw yw'r hwn sydd uwch na'r uchaf; ac am fod yr Arglwydd uwch-law pawb, y mae un sydd uwch na hwynt.—Hyny yw, y mae Dauw yn sicr o ddarostwng y breninoedd ac ereill ag sydd yn traws-wyro barn a chyfiawnder.



## *Hyfforddiadau, &c.*



**Y** MAE daioni Duw tuag atom yn y flwyddyn diweddaf, a'n bod yn cael dechreu hon mor lysurus, yn galw yn uchel arnom i edifarâu am ein pechodau, i ddiolch am ein trugareddau, a halu ein haddunedau:

I. *I edifarâu am ein pechodau.* Y mae'r rym a wnaethom yn groes i gyfraith Dduw, a'r pethau a esgeuluswyd eu cyflawni, yn gofyn i bawb edifarâu, a syrthio ger bron Duw i ymbil am drugaredd. Pe ystyriem yn ddifrifol am y myrddiynau o fyrddiynau o bethau pechadurus a goffeidiodd y meddwl, o eiriau-segur a lefarodd y tafod, ac o droiau y bu'r traed allan o lwybrau doethineb, cyfiawnder, sobrwydd, a chymmedrolder, nis gallem lai ná wylo yn chwerw-dost. Ond gofidus yw meddwl mai difater hollol am yr hyn a wnaethant yn erbyn Duw yw miloedd. Y mae'r meddwi, y tyngu yn ofer, y tori sabboth, y godinebu, y lledrata, a phob dull arall o gyflawni trachwant y cnawd a fu'r flwyddyn aeth heibio, wedi eu claddu yn y bedd a dorodd pechod yn nghraig *Anghof*; ac y mae *Mr. Difaterwch*, *Mr. Gobeithio't goreu*, *Mr. Meddul dyfod yn ddyinion da*, a *Mr. Edifeirwch gwely angeu*, &c. yn gwylied y maen mawr

o galon-galedwch ag sydd wrth ddrws y bedd. Os na ddygir y bobl hyn i alaru yn gywir yr ochr hyn i'r bedd, bydd eu pechodau ar eu cof byth draw. Nid digon yw edrych yn ol ar y pethau pechadurus ag y buom yn euog o'u cyflawni, y mae ein bod wedi esgeuluso gwneuthur y pethau mawrion a orchymmynodd Duw i ni yn dangos y dylem alaru a gofidio am hyn. Peystyriai swyddogion gwladol, pregethwyr a swyddwyr ereill yn nhŷ Dduw, penau-teulu-oedd, cyfoethogion, a dynion o bob sefyllfa, mor esgeulus y buont yn y flwyddyn a'r blyneddau ag sydd wedi myned heibio, gwelent fod ganddynt achos i wylo o flaen gorsedd Duw. Nis gall un dyn ddweud, "Mi a wnaethum a allaswn, er lles tymhorol ac ysbrydol fy mhlant, fy ngwasanaeth-ddynion, fy nghymmydogion, &c." Cyfaddefa pob un ag sydd yn ystyried ei fyrdra, ei esgeulusdra, ei ddifrawder, ei ddiolfwch, ei fod yn euog ger bron Duw: ond wrth y diwygiad a gymmer le yn ein hywyd y flwyddyn hon, y profir gwirionedd ein hedifeirwch. Osni yr ydym, y bydd llawer byw ar ddweud fod yn ddrwg ganddynt iddynt bechu cymmaint y flwyddyn ddiweddaf; ac y treuliant hon etto mewn diogi ac anystyriaeth, fel y blyneddau ereill o'u bywyd.—Er pob peth a ddywed cenadau Crist wrth rai pobl, er pob peth a welont yn ngair Duw, ac er pob rhybyddion a gânt gan weinidogaeth marwolaeth yn eu cymrydogaethau, nis deffroir hwynt hyd oni welont fod pob cyfle i geisio Duw wedi darfod. Galarus yw meddwl, y gall ugeiniau o'r rhai a ddarllen y llinellau hyn fod byth yn wylo a dweud,—“Nyni a gawsom amser i edifarâu, i weddio, i ffoi at Dduw, i ymosyn am rês, i ofalu am yr enaid, i barotoi erbyn y cyfrif olaf;—ônd, wele, wele, cysgu a wnaethom tra bu ereill yn y farchnad; byw yn ddifraw, tra bu ein cymmydogion yn ffoi

i'r noddfa; gofalu am bethau tymhorol yn anig tra bu ereill yn trysori iddynt en hunain drysor yn y nef; ymdrechu yn nghylch y bwyd a dderfydd a fuom, tra bu ereill yn llafurio am y bara a bery byth; eistedd i lawr a gobeithio'r goreu a wnaethom, hyd oni chauwyd y drws; —y mae pob gobaith am fod yn gadwedig wedi darfod yn dragywydd." Yr oedd un yn ddiweddar o weision pechod yn dywedyd y geiriau dwys-ofidus hyn wrth farw:—"Dyma fi, eb efe, yn gorfod ymadael â'r byd hwn,—y mae meddwl am y blyneddau a dreuliais mewn annuwioledeb yn chwerw i mi yn awr,—O na chymmerai fy nghyfeillion ieuaine rybydd mewn pryd,—O na buaswn yn gwrando ar lais y genad anwyl ag sydd gan Dduw yn yr ardal hon,—Yn uffern y byddaf cyn hir,—Och, och, rhaid aros yno dros byth—byth—byth." Ymadawodd yn fuan ar ol dweud y geiriau uchod; ond nid hwn yw'r unig un a glywyd yn oergrio am wasanaethu pechod dros eu bywyd.

II. *I ddiolch am ein trugareddau.* Un o'r pethau mwyaf amlwg yn y Bibl yw, fod Duw yn teilyngu cael ei foli am ei waith, ac fod dyledswydd arnom dalu diolch iddo am ei ofal am danom. Gwel pob un a ystyrio y dylem ddiolch i Dduw,

1. *Am arbed ein bywyd.* Ymadawodd llu oedd â'r byd hwn yn y flwyddyn ddiweddaf; yr oedd cannoedd o honynt yn ieuangach na llawer o honom, yr oeddynt mor debyg i weled eleni a niniau, ac yn meddwl cymmaint am y flwyddyn hon a neb pwy bynag; ond cyn iddynt glywed neb yn dweud, *Blwyddyn newydd dda i chi,* yn oeddynt yn ardal y meirw. Gŵyr ein perthynasau, ein cyfeillion, ein cymmydogion, a phawb ereill a fu farw, b'le byddant yn oes oesoedd.

Nid i'r nefoedd yr aeth pawb o'r meirw;—  
 mae miloedd o honynt wedi eu taflu i uffern;—  
 Diolch i Dduw, yr ydym ni yn nhir y rhai byw,  
 yn y byd nad yw Duw yn gwrthod neb a ddél  
 ato yn edifeiriol, y cynnygir iachawdwriaeth  
 gyflawn i bawb a gredant yn Nghrist, ac yn y  
 wlad y mae'n bosibl i bob dyn, *os ewyllysia*, i  
 ddianc rhag y digofaint sydd ar ddyfod.

2. *Am ein iechyd.* Nid bendith fach yw cael  
 iechyd i wneuthur ein goruchwylion yn y byd, i  
 orwedd yn esmwyth y nôs yn ein gwelyau, i  
 fyned i dŷ Dduw, i ddarllen ei air, &c. Ond nid  
 yw llawer yn gweled dim o werth eu hiechyd  
 hyd oni byddont wedi ei gollu. Bu llawer o  
 honom yn iach tra parâodd y flwyddyn aeth  
 heibio; ac er i ereill fod yn glaf am rai mis-  
 oedd, y mae ugeinau o honynt yn dechreu y  
 flwyddyn newydd mor gysurus a ninnau. Pan  
 y meddylïom mor anniolchgar ydym i Dduw  
 am ein iechyd yn bersonol a theuluaid, peth  
 rhyfedd yw, na byddem yŷ fwy mynych dan  
 geryddon Duw, a'n tŷau mewn galar bob dydd.

3. *Am ein hymborth a'n dillad.* Meddylïas-  
 om y flwyddyn ddiweddaf, mai *glendid dannedd*  
 a *llyndra* fuasai wedi dal pawb o honom cyn  
 hyn. Yr oedd cannoedd yn crynu wrth feddwl  
 am y farn ag oedd yn debyg i ddyfod ar ein  
 gwarthaf. Ond er iddi fod yn ddydd cŷmylog  
 dros ychydig, cofiodd Duw am danom yn ein  
 cyfyngder, cawsom ŷd i'n cynnal o wledydd  
 ereill. Y mae'r Duw a ofalodd am danom yn  
 abl i dosturio wrthym etto y flwyddyn hon. Na  
 ddystawed pobl yr Arglwydd ar rau ein gwlad.  
 Clywsom lawer yn dweud,—“Darfuasai am  
 danom cni buasai i ni gael ymborth o fanau  
 ereill.” Dichon fod na'w ŷ bob deg o'r bobl ag

ocdd yn dweud hyn, yn paràu yn eithaf anys-  
tyriol, yn anghofio'r Duw a drugarâodd wrthym.

4. *Am ein cyfeillion.* Y mae dyn yn creadur  
cymdeithasol;—a rhan fawr o'n cysur yn y byd  
yw fod genym gyfeillion i ymddyddan â hwynt, a  
chael eu cymhorth wrth fyned y'mlaen trwy  
orthrymderau'r bywyd hwn. I'r dyben hyn y  
creodd Duw Efa i fod yn wraig i Adda. O mor  
dlawd y byddai'r byd etto heb ferched hon i fod  
yn ymgeleddwyr i ni. Dywed rhai fod mwy o  
*ofid* yn y byd nag sydd o *gysur*; ond nis gall  
neb sydd â ffyrndiau ganddynt, ac yn ymdrech  
bod yn foddion i'w sefyllfa, ddweud hynny.

5. *Am ein manteision crefyddol.* Nid hawdd  
yw i ni gyfrif y pregethau, y cyfrinachau, y  
cyfarfodydd gweddi, a chyfarfodydd ereill a  
gawsom y flwyddyn a aeth heibio;—ac y mae  
llawer yn barod i ddweud, “ Anneirif yw'r  
cynghorion, y rhybyddion, a'r annogaethau, a  
gawsom wrth wrando, darllen, ac ymddydd-  
an.” Y mae adfeddylid am y cyfleusderau a  
roddwyd i ni, am barâad ein rhyddid crefyddol o  
flwyddyn i flwyddyn, ac am yr amrywiol ffyrdd  
a gymmerodd Duw i'n dwyn atom ein hunain,  
yn peri i rai wylu wrth feddwl mor ddigynnydd  
ydnt.

6. *Am y newyddion cysurus a ddueth i ni  
o wledydd pellenig am lwyddiant yr esengyl.*  
Anrhegwyd ni â llythyrau dyddanus o *Affrica* a  
gwledydd ereill, yn y rhai y crybwyllir am ym-  
drechiadau diflin y cenadau, a'r llwyddiant sydd  
yn canlyn eu gwaith mewn amrywiol fanau.  
Hysbyswyd i ni fod Mr. John Evans, o Gaer-  
fyrddin, Mr. Evan Evans, o'r Bala, a brodyr  
ereid, wedi myned yn iach i'r Hedded, yn y rhai  
y dysgwylir y byddant o les mawr yn eu dydd.

Ni adawyd ni y flwyddyn ddiweddaf heb gly wed fod eilun addoliaeth yn colli'r dydd, ac achos Crist yn cynnyddu trwy'r byd. Pan ag y delo amser Duw i weithio, bydd breninoedd a llyw-iaudwyr yr amrywiol deyrnasoedd ag sydd yn awr yn gwrthod cenadau Crist, yn gorfod ym-ostwng i'r brenin Iesu. Os caiff y brodyr Dafydd Jones a Tomas Bevan, a'u cynnorthwywyr, dderbyniad yn *Madagascar*, o bosibl y clywir cyn hir fod yno lawer o blant yr arfaeth dra-gywyddol, y rhai y bu meddwl am danynt cyn creu na daear na nef; ac y byddant wrth y mil-oedd yn diolch i Dduw am anfon cenadau atynt o'r *Neuaddlwyd*, ac o fanau pellenig ereill.

III. *I dalu ein haddunedau.* Y mae cannoedd o'r bobl wnaeth addunedau mawrion i fod yn well dynion y flwyddyn hon, wedi myned i'r byd tragywyddol, â'u haddunedau heb eu talu. Gan i ni gael ein harbed, nac oedwn i dalu yr hyn a addunedwyd. Y mae'r mater hwn, yn perthyn i bawb—megis

1. *I genadau Crist.* Diau fod y cenadau ffyddlon yn fynych yn addunedu treulio mwy o amser i weddio a holi eu hunain;—yn addunedu astudio mwy er eu lles eu hunain, ac er daioni eu gwrandawwyr;—yn addunedu pregethu yn fwy goleu a gwresog, a dweud mwy yn y teuluoedd y byddont yn myned iddynt am bethau tragywyddol; ac yn addaw, trwy gymhorth grâs, i rodio yn mwy agos at Dduw eleni nag erioed o'r blaen. Cynghor addas iddynt yn nechreu'r flwyddyn yw—*Y peth a addunedast, tâl, Preg. 5, 4.*

2. *I rieni ac ereill a fyddo yn benau teuluoedd.* Tebygol yw i lawer tâl a mam, meistr a meis-tres, ddweud wrth ddiweddu'r flwyddyn aeth

heibio,—“Os cawn flwyddyn etto, ni a weddïwn fwy dros ein plant a'r bobl sydd dan ein gofal; ymdrechwn i'w cael bob amser i wrando; dywedwn fwy wrthynt am eu sefyllfa ysbrydol; nid y geiriau gwag, a'r ymddyddanion bydol ac afreidiol, a fydd genym iddynt; a gwnawn ein goreu i'w dwyn i feddwl fod arnynt eisieu cael rhan yn Nghrist, ac nad yw yn bosibl iddynt ddechreu ar waith Duw yn rhy gynnar. Cofiwch y cynghor—*Y peth a addunedaist, tál.*

3. *I bawb ag sydd ar enw Crist.* Yn ngwaith pob un yn cael ei dderbyn yn aelod eglwys, y maent yn addunedu ger bron Duw a'i bobl, i fod mor fynych ag y gallont yn mhob cyfarfod gyda'w brodyr, i wneusthur eu goreu at gasgliadau yr eglwys, i beidio cyd-ymffurfio â'r byd hwn, i garu eu gilydd, i dderbyn cynghor a cherydd yn ofn Duw, ac i ymdrechu hyd eithaf eu gallu i ledanu teyrnas Crist; ac addunedodd llawer o honynt ar ddiwedd y flwyddyn aeth heibio, y buasent yn gofalu mwy am y llŵ pwysig hwn y flwyddyn hon. Nac anghofied un o honynt y cynghor—*Y peth a addunedaist, tál.*

4. *I'r rhai ag sydd er ys rhai blyneddau yn addlaw dyfod at bobl Dduw.*—O bosibl y bydd i'r llinellau hyn fyned i ddwyllaw llawer o'r bobl ag sydd wedi addunedu y buasent wedi rhoddi eu hunain i bobl Dduw cyn hyn. Y mae eglwysi Mab Duw wedi aros yn hir i ddysgwyl rhai; ond y maent eto heb eu cael. Dywedodd rhai o'r bobl hyn wrth gyfeillion iddynt, eu bod yn meddwl dyfod atynt yn fuan;—ac hyd yn hyn y mae rhywbeth yn eu rhwystro i ddyfod. Byddai yn dda iddynt ystyried, y gall y flwyddyn hon fod yr olaf am byth iddynt. Am hyny,—*Y peth a addunedaist, tál.*

5. *Pr rhai adferwyd o gystudd a chlefyd.* Clywsom lawer yn dweud, pan yn glaf iawn, "Os arbedir ni, byddwn yn ddiolchgar hynod i Dduw; ni a roddwn ein cyrff a'n heneidiau i'w wasanaeth; ni a awn at ei bobl; ac ni chaiff neb ein gweled yn byw fel ag y treuliasom ein dyddiau hyd yn hyn." Pan ag yr oeddynt yn glaf, yr oeddynt yn galw am weddiwyr atynt; a'r bobl wrth fyned o dŷ'r claf yn dweud wrth eu gilydd, "Pwy a ŵyr na bydd y tro hwn o les tragywyddol iddo?" Ond ar ol iddynt gael iechyd, anghofiasant dalu eu haddunedau i Dduw. Gwelwyd rhai yn caledu'r war er cael eu ceryddu yn fynych—ac yn y diwedd yn myned i glefyd, heb gael cenad i godi byth mwy. Gan hyny,—*Y peth a addunedaist, tâl.* Tâl y flwyddyn hon, rhag mai'r olaf i ti yw.

6. *Pr cyfoethogion.* Y mae miloedd o'r bobl hyn er ys blyneddau wedi addunedu cyfranu yn gydwobodol ac yn ewyllysgar, i holl drigolion y byd gael y Bibl, gael cenadau i'w bregethu, ac at gynnal y weinidogaeth gartref; ac wrth edrych ar amgylchiadau gresynus y tlodion y dyddiau hyn, y maent yn addunedu y gwnant a allont i'w cynnal. *Y peth a addunedaist, tâl.*

Meddylid pawb y bydd y flwyddyn hon yr olaf i lawer—i annuwiolion a duwiolion. Os bydd yn rhaid i lawer ag sydd yn awr yn annuwiol fyned i fyd arall, ni ddylai fod dim yn agosach at eu meddwl na mater enaid. Gweddus yw iddynt ofyn yn aml iddynt eu hunain, "Os byddwn meirw y flwyddyn hon, pa beth sydd genym erbyn y daith?—ai tra byddom yma yn unig y pery ein llawenydd?" A chan y bydd i gannoedd o blant Duw gael eu galw adref eteni, dylent ymdrechgu i wneuthur daioni dros Dduw, gan fod yr amser yn fyr. Terfynir y llinellau



hyn trwy ddweud,—“ *Blwyddyn newydd dda* i annuwiolion,—llawer o honynt a gaffo eu haileni; *blwyddyn dda* i wrthgilwyr,—yn ol y dychwelont i gyd; *blwyddyn dda* i'r proffeswyr esgeulus,—deffroer hwynt oll; a *blwyddyn dda* i'r rhai sydd yn ddiwyd,—cael eu telynau i lawr oddiar yr helyg a gaffont, i ganu fel yn y dyddiau gynt.”

*Pant tég.*

D. D.



## HYMN.

© *flwyddyn* i *flwyddyn*  
 'Rw'i yn tynu tua'r bedd;  
 Nid hir bydda'i yma,  
 Daw angen â'i gledd:  
 Saif neb yn ei erbyn,  
 Rhaid ildio y ma's;  
 'Rw'i yn foddion er hyny.  
 Ond i mi-gael grâs.

---

Pe byddai'r moroedd mawriou  
 Yn inc o'r dua ei liw,  
 A'r tywod dirifedi  
 I gyd yn ddyunion byw,  
 A'r ddaear faith yn bapyr;  
 Pob un â'i ysgrifên-bin,  
 Byth ni fynegent gariad  
 Y Gŵr fu ar y bryn.

## HANESION BUDDIOL.

1. **GAIR** yn ei bryd i dyngwr. Darfu i' diweddar Dr. Gifford, wrth ddangos y lle ag sydd yn Llundain yn cynnwys casglfa o bethau hynod (*British Museum*) i ddyeithriad, gael ei ofidio yn fawr wrth glywed un o honynt yn cymmeryd enw Duw yn ofer. Cymmerodd Dr. Gifford gopi o'r Hên Destament yn y Groeg yn ei law, ac a'i dangosodd i'r gŵr hwn.—“O, ebe'r gŵr, nid oes dim yn hwn a'r nas gallaf fi ei ddarllen.” Wele, ebe Gifford, darllenwch y wers hon, gan ei gyfeirio at y trydydd gorchymmyn. Bu hyn yn foddion, danfendith Duw, i'w attal i gymmeryd enw Duw yn ofer byth mwyach.

2. *Gwerthfawrogrwydd y grefydd Grist'nogol.* Dywedodd yr enwog Arglwydd Lyttleton, yn ei gystudd diweddar, wrth ei Physygyr—“Pan y dechreuais daro allan yn y byd, eb efe, gwnaeth fy nghyf-eillion ieuainc eu goreu i'm dwyn i wadu gwirionedd crefydd Crist; ond ni wrandawais arnynt. Wrth chwilio am wirionedd y grefydd hon, cefais fy ngwneuthur yn gyfaill iddi gan rās Duw.—Bu'r Grefydd Grist'nogol yn rheol ac yn gysur i mi yn fy mywyd.—Ac y mae ei thystiolaethau melus yn dyddanu fy enaid yn yr oriau cyfyng hyn.

3. *Y cyfoethocaf yn y byd.* Yr oedd gŵr cyfoethog iawn unwaith yn dangos ei diroedd i gyfaill iddo—Yn dweud wrtho am yr holl leoedd da ag oedd mewn golwg iddynt, mai efe oedd yn berchenog arnynt oll, &c. Yn wir, ebe ei gyfaill, y mae genych etifeddiaeth äng; ond nid oes genych ddim i'w gydmaru â'r hyn sydd gan Mary Tomas o'r Allt.—Beth yw eich meddwl chwi wrth ddweud fod gan y wraig dlawd hōno fwy nâ myfi?—Y mae ganddi hi, ebe yntau, Grist yn eiddo i'w henaid byth.—Ni phery eich meddianqau yn llesiol ond hyd angeu yn unig.

Caerfyrddin, argraffwyd gan J. Evans.

# Trysorfa y Tlodion:

(RHIF. VII.—Pris Ceiniog:)

YN GYNNWYS

## CYFARWYDDIADAU

AC

### ANNOGAETHAU

I.

## SANTEIDDIO'R SABBOTH:

NEWYFFORDD O

Ymddyddan rhwng Meistr a'i Was.

Yn y Rhifyn nesaf bydd Darluniad o Ddyledswydd  
Rhieni at eu Plant; arddull ymddyddan rhwng tād amant.

### Caerfyrddin:

Argraffwyd gan J. Evans, Heol-y-Farchnad isaf.

Lle gellir cael y Rhifynau blaenorol.

1818.

Luc 15, 7. *Yr wyf yn dywedyd i chiwi, mai felly y bydd llawenydd yn y nef am un pechadur a edifarâo, mwy nag am onid un pum-ugain o rai cyfiawn, y rhai nid rhaid iddynt wrth edifeirwch.*—Y peth mwyaf tebygol am y rhai cyfiawn yn yr adnod hon, yw, mai ddiwidiol a olygir wrthynt. Ersed eu hantner-ffeihrwydd beunyddiol, yn galw am iddynt alarw; er hyny, nid oes dim eisieu arsynt gael eu troi oddi wrth satan at waith Duw; mae hwy wedi cymmeryd lle yn barod: a thrwy eu bod yn cael eu cynnal yn harddwch i'r eiddo, nid oes dim angenrheidrwydd iddynt edifarâo am y pechodau gwaradwyddus na buont yn euog o honynt. Yn y ddau ystyr hyn y dywedir nad rhaid iddynt wrth edifeirwch. Mewn dull ddynol y dywedir yma fod mwy o lawenydd am un pechadur, &c. Peth cyffwrddu yw llawenau mwy am beth newydd, a fyddo yn rhoddi boddloerwydd neillduol i'r meddwl, nag am hir swyniad o'r un peth. Y mae adferiad iechyd, fel y dywed Dr. Whitby, i blentyn a fyddo wedi bod yn hir yn afiach, yn llawenau mwy ar feddwl y tād na pharâd iechyd y plant eraill. I'w gwelwch yw un pechadur. Dychwelyd dig-ddim yn fwy gwerthfawr na chaat ond un o rai a fyddo eisoes yn Nghrist, ond cymmerir y dull hwn o lesaru gan Fab Duw, i ddangos fod yr Arglwydd yn ymhyfrydu yn fawr yn Shroedigaeth pechadur, ac mai cymhwys oedd iddo ef fyned at y penaf o beth-  
 bethau i'w ddwyed wrthynt am drefn yr iechydwr-  
 taeth. "B'te bydd y meddyg ond gyda'r cleifion?"

Mat. viii, 22. *A'r Iesu a ddywedodd wrtho, Canlyn fi; a gâd i'r meirw gladdu eu meirw*—Pan fyddo Crist yn galw at ryw waith neillduol, ni ddylid oedi af-  
 uddu i'w arwud. Nid oes dim atffos i'w gwelwch hwn  
 oedi o achos marwolaeth ei dâd, oblegid fe gawsai ei  
 gladdu gan ei gymfyrdogion. Gau mai meirw, neu  
 ddynton i fyned i'r bedd, yw pawb, parod yw pawb  
 i wneuthur y gymmwynas glaf hon i'w cyd-ddynion  
 —a claddu.

## Cyfarwyddiadau, &c.

**Meistr.** YR wyf yn clywed eich bod yn ymadael â'ch hên feistr. A ddenwch ataf fi yn wâs, os cytunir am y gyflog? Nid wyf yn bwriadu rhoddi dros chwech punt i neb efenl.

**Gwas.** Y mae John, y mab hynaf, yn dysod a lhenwi fy lle i; ac onid é yr wyf yn golygu y buaswn yn aros y flwyddyn hon etto yn yr hên le. Ni bum erfoel yn gwasanaethu gyda gwel pobl nag yw Dafydd ac Esther, a'u plant. Yr wyf yn clywed am danoch chwithau a Mrs. Tomas, eich bod yn dirion iawn i'ch gwasanaethwyr; —ac oblogid hynny, gwell yw genyf ddyfod atoch chi am chwech punt na myned at Enoch Tomas, o'r Cueth-le, et i mi gael cynnygiad ar wyth punt ganddo ef.

**Meistr.** Cyn rhoddi yr ernes i chi, rhaid i mi ddweud wrthy'ch yr hyn ag wyf yn arfer ddweud wrth gyflogi, bob amser, "fod yn rhaid i chi chi gadw'r Sabboth yn santaidd." A ydych chi yn addaw gwneuthur hyn, ac ystyried hyn fel un o'r ammodau ag sydd i'w cyflawni?

**Gwas.** Gan nad ydych yn ceisio genyf wneuthur dim ond yr hyn ag sydd yn gymhwys, yr wyf yn addunedu gwneuthur yn ol eich ewyllys; ac os na byddaf yn ufadd i chi yn hyn, fel mewn pethau ereill, y mae telerau'r cytundeb yn dangos fod hawl i'm troi ymalth.

**Meistr.** Areich addewid dyma'r ernes i chi. Gobeithaf y byddwn byw'n gysarws gyda'n gilydd. Dysgwylwn eich cael atom tua diwedd yr wythnos nesaf. Deuwch mor gynted ag y galloch, y mae genyf beth gwenith efenl heb ei hau.

**Meistr.** Daeth ataf yr ail ddiwrnod wedi myned o'r lle yr oedd gando o'r blaen. Y Sabboth cyntaf aethom i wrandô Mr. Ffylllon, yr hwn oedd yn pregethu yn addoldy y Pateh. B. Evans o'r Ddewen. Cawsom bregeth dda ganddo; ond nid oedd ganddo ddol ond pettiab ag

# SOLWADIU AGORIABOL.

Luc 15, 7. *Yr wyf yn dywedyd i chiwi, mai felly y bydd llawenydd yn y nef am un pechadur a edifarâo, mwy nag am onid un pum. again o rai cyfiawn, y rhai nid rhaid iddynt wrth edifeirwch.*—Y peth mwyaf tebygol am y rhai cyfiawn yn yr adnod hon, yw, mai dewisiol a ehygus wrthyt. Ersed eu hannherfeithrwydd beunyddiol, yn galw am iddynt alarw; er hyny, nid oes dim eisieu arsynt gael eu troi oddi wrth satau at waith Duw; mae hysy wedi cymmeryd He ya barod: a thrwy eu bod yn cael eu cynnal yn harddwch i'r estygl, nid oes dim angenrheidrwydd iddynt edifarâo am y pechodau gwaradwyddus na buont yn euog o hoonynt. Ya y ddau ystyr hyn y dywedir nad rhaid iddynt wrth edifeirwch. Mewn dull ddynol y dywedir yma fod mwy o lawenydd am un pechadur, sef: Peth cyffwrddu yw llawenâ mwy am beth newydd, a fyddo yn rhoddi boddlorwydd neillduol i'r meddwl, nag am hir swynâd o'r un peth. Y mae adferiad iechyd, fel y dywed Dr. Whitby, i blentyn a fyddo wedi bod yn hir yn afiach, yn llawenâ mwy ar feddwl y tād pā pharâd iechyd y plant ereill. Nid yw un pechadur dychweddig ddim yn fwy gwerthfawr nâ chant ond un o rai a fyddo eisoes yn Nghrist, ond cymmerit y dull hwn o lesaru gan Fab Duw, i ddangos fod yr Arglywydd yn ymhyfrydu yn fawr yn shfoedigaeth pechadur, ac mai cymhwys oedd iddo ef fyned at y penaf o bechodau. B'le bydd y meddyg ond gyda'r cleision?

Mat. viii, 22. *A'r Iesu a ddywedodd wrtho, Canlyn fi; a gâd i'r meirw gladdu eu meirw* — Pan fyddo Crist yn galw at ryw waith neillduol, ni ddylid oedi ufuddo i'w arwâd. Nid oes dim achos i'w hwn oedi o achos marwolaeth, ei dâd, oblegid se gawsai ei gladdu gan ei gymfyrdogion. Gau hâi meirw, neu ddynion i fyned i'r bedd, yw pawb, parod yw pawb i wneuthur y gymmwynas glaf hon i'w cyd-ddynion — a claddu.

## Cyfarwyddiadau, &c.

**Meistr.** YR wyf yn clywed eich bod yn ymadael â'ch hên feistr. A ddenwch ataf si yw wâs, os cytunir am y gyflog? Nid wyf yn bwriadu rhoddi dros chwech punt i neb eieni.

**Gwds.** Y mae John, y mab hynaf, yn dyfod i lenwi fy lle i; ac onid é yr wyf yn golygu y buaswn yn aros y flwyddyn hon etto yn yr hên lle. Ni bum erfoel yn gwasanaethu gyda gwêb pobl naig yw Dafydd ac Esther, a'u plant. Yr wyf yn clywed am danoch chwithau a Mrs. Tomas, eich bod yn dirion iawn i'ch gwasanaethu yr; — ac oblogid hynny, gwell yw genyf ddyfod atoch chi am chwech punt na myned at Enoch Tomas, o'r Cueth-le, et i mi gael cynnygiad ar wyth punt ganddo ef.

**Meistr.** Cy'n rhoddi yr ernes i chi, rhaid i mi ddweud wrthy'ch yr hyn ag wyf yn arfer ddweud wrth gyflogi, bob amser, "fod yn rhaid i chi chi gadw'r Sabboth yn santaidd." A ydych chi yn addaw gwneuthur hyn, ac ystyried hyn fel un o'r ammodau ag sydd i'w cyflawni?

**Gwds.** Gan nad ydych yn ceisio genyf wneuthur dim ond yr hyn ag sydd yn gymhwys, yr wyf yn addunedu gwneuthur yn ol eich ewyllys; ac os na byddaf yn ufadd i chi yn hyn, fel mewn pethau ereill, y mae telerau'r cytundeb yn dangos fod hawl i'm troi ymalth.

**Meistr.** A'eich addewid dyma'r ernes i chi. Gobeithiaf y byddwn byw'n gysurus gyda'n gilydd. Dysgwylfwn eich cael atom tua diwedd yr wythnos nesaf. Deuwch mor gynted ag y galloch, y mae genyf beth gwenith eieni heb ei hau.

**Meistr.** Daeth ataf yr ail ddiwrnod wedi myned o'r lle yr oedd ynddo o'r blaen. Y Sabboth cyntaf aethom i wrandio Mr. Ffylllon, yr hwn oedd yn pregethu yn addoldy y Pateh. B. Evans o'r Drewen. Cawsom bregeth dda ganddo; ond nid oedd ganddo ddolm ond pettiac ag

oeddem wedi glywed o'r blaen gan fy anwyl fagail Mr. B. Evans. Gofynais i'm teulu, wedi dychwelyd o'r cyfarfod, A oedd rhai o honiut yn cofio'r sylwadau blaenaf ag oedd gan *Ffyddlon* yn nghylch y Sabboth? Cefais atebion boddlonawl ganddynt. 1. Dywedodd Mair fy ngwraig iddo ddangos trwy rcsymau cedyrn, "fod Duw yn ewyllysio i ni gadw un dydd o saith yn Sabboth i'r Arglwydd." Ar ol i Dduw greu pob peth, gorphwysodd y seithfed dydd, ac a'i santeiddiodd ef. Neillduwyd y dydd hwn i foth Duw fel Creawdwr. Yr oedd sefyllfa dyn cyn y cwmp yn gofyn am gael un diwrnod o bob wythnos at addoli'r Arglwydd; a'r un fydd sefyllfa dynolryw hyd ddiwedd amser. Er nad oes genym ddim hanes neillduol fod y Patrieirch yn cadw'r dydd hwn; etto, gellir casglu oddi wrth y sylw ag oedd ganddynt ar y dyddiau wrth y rhifedi *saith*, (Gen. 8. a 29.) eu bod yn cadw y seithfed dydd yn santeidd i Dduw. Yn Ecsod. 16, 26. dywed Moses am gadw'r Sabboth fel peth ag oedd yn cael ei gwneuthur o'r blaen gan bobl Dduw. Y mae'r pedwerydd gorchymyn (Ecsod. 20.) yn amlygu fod rhwymau arnom i roddi'r seithfed ran o'n hauser i addoli ein gwneuthurwr. Ac y mae'r proffwydi yn dweud y byddai y duwioliog hyd ddiwedd y byd yn santeiddio'r Sabboth. Esa. 56, 4, 5.

2. "Dywedodd wrthym," ebe Sara ein hunig ferch, "mai'r dydd cyntaf o'r wythnos yw'r Sabboth dan y Testament Newydd." Nid yw y pedwerydd gorchymyn yn dweud dim yn erbyn hyn—dydd o bob saith ydyw sylwedd y gorchymyn. Yr oedd gwaith Crist yn ymddangos i'w ddyscyblion y tro cyntaf a'r ail ar ol dyfod o'r bedd, ar y dydd cyntaf, yn dangos ei fod yn foddlon iddynt. Ioan 20, 19, 26. Ar y dydd hwn y disgynnodd yr Ysbryd Glân ar yr apostolion yn nghymmafa'r Pentecost. Act. 2, 1, 2. a Lef. 23, 16. Yr oedd hyn yn arwyddo fod Duw am neillduo'r dydd cyntaf i gofio am ei Fab. Ac



ar y dydd cyntaf yr oedd yr apostolion a'r prif  
Grist'nogion yn dyfod at eu gilydd iaddoli Duw.  
Act. 20, 7. 1 Cor. 16, 2.

3. Yr wyf finnau yn cofio, ebe Morgan, y mab  
hynaf, iddo ddweud, "fod yr holl ddydd i'w  
gadw'n santaidd." Cofia gadw'n santaidd y *dydd*  
Sabbboth, yw'r gorchymyn, ac nid, Cofia am  
fod yn santaidd yn unig tra byddo addoliad yn  
nhŷ cyfarfod y plwyf, neu ryw le arall. Os  
dadleu rhai y'ng hylodh pa bryd y mae'r Sabbboth  
yn dechreu, diddadi yw fod y dydd hwn, dech-  
reued am chwech yn y prydnewn, neu am ddeu-  
ddeg o'r nôs, yn cynnwys pedair ar hugain o  
oriau, fel diwrnod arall. — Pe byddai'r gwaith yn  
dwyn hyfrydwch i'r meddwl, ni ddywedai neb  
fod y Sabbboth yn faich iddynt. Ni byddai neb  
yn foddlon i weithwr ddyfod at ei waith am un  
ar ddeg, ac ymadael am dri. Yr un modd gellir  
dweud, nad yw'r bobl ag sydd yn rhoddi ond  
dwy awr neu dair o'u hamser i addoli'r Arglwydd  
yn gwneuthur dim ond gwaith Duw.

4. Oni ddywedodd Mr. Flyddion, ebe Jen-  
kin, y mab ieuangaf, "fod Duw wedi rhoddi y  
dydd hwn dan ofal penau teuluoedd?" Nis  
gellir dysgwyl llwyddiant ar ymdrechidau  
swyddogion gwladol, gweinidogion y gair, a  
swyddwyr ereill, yn nhŷ Dduw, i ddwyn dynion  
i ymddwyn yn weddaidd ar ddydd Duw, heb  
gyd ymdrechid egniol penau-teuluoedd yn y  
gwaith. Dylai rhieni, a phawb ereill ag sydd yn  
benau-teuluoedd, fod mor ofalus, ie, yn fwy  
gofalus am eu pobl ar ddydd yr Arglwydd, nac  
un diwrnod arall. Ecsod. 20, 10. "Ond y seith-  
fed dydd yw Sabbboth yr Arglwydd dy Dduw :  
na wna ynddo ddim gwaith, tydi, na'th fab, na'th  
ferch, na'th wasanaethwr, na'th wasanaeth-ferch,  
na'th anifail, na'th ddyethr-ddyn a fyddo o fewn  
dy byrth." Ni a gawn sylwi ychydig etto ar y  
pync hwn cyn diwedd y gyfrinach.

5. Nid wyf fi, ebe'r gwâs, yn cofio ond ych-  
ydig iawn o'r pethau a glywsom gan Mr. Flydd-

lon. Ac nis gallaf enwi ond un peth yn awr—sylwodd “fod yn hawdd barnu pa fodd y byddo'r achos yn ein hardaloedd wrth edrych ar ddull profesywyr ar y dydd hwn.” Pan ag y byddo llawer yn cael eu hargyhoeddi, a Duw yn ail-ymweled â'i saint, gwelir y cyfarfodydd ya llawn o wrandawwyr, y bobl yn ymddyddan â'e gilydd am bethau ysbrydol wrth fyned i dŷ Dduw a dychwelyd adref, ac yn hynod ddiwyd yn gwasanaethu Duw, ar ei ddydd santaidf. Y mae dydd Duw mewn parch mawr gan bob eglwys a phob profesywr ag sydd yn gweddio am lwyddiant ar deyrnas Mab Duw.

*Gwâs.* Gan i chwi, wrth fy nghyflogi yn wâs i chwi, ddweud y buasai rhwymau arnaf i santeiddio'r Sabbath, ewyllysiwn gael clywed genych am yr amrywiol ffyrdd ag sydd gan ddynion i halogi'r Sabbath.

*Meistr.* Y mae'n dda genyf eich clywed yn holi am hyn. Y mae'r pethau a glywais gan un o weinidogion yr efengyl, ag sydd yn byw yn y gogledd, yn fy ngalluogi i enwi amrywiol o bethau i fod yn atebion i'ch gofyniad chwi. Halogir dydd Duw,

1. Trwy esgeuluso paratoi erbyn y Sabbath. Dylid *cofio* am y dydd hwn—*Cofio* i roddi heibio gwaith yr wythnos mewn pryd, gosod pob peth mewn trefn, fel na byddo rhwystr i ddechreu yn fore ar waith Duw, a myned i'r gwely yn amserol, fel ag y gallom ddeffroi mewn pryd at addoli yr Arglwydd. Gofidus yw meddwl, mai tuag un neu ddau o'r gloch bore'r Sabbath, y rhoddir heibio gwaith yr wythnos gan lawer, fod oriau o'r dydd yn cael eu treulio i gysgu, mwy nag a fyddo natur yn ofyn, a mwy nag y maent yn aifer ddyddau ereill, a' bod cymmaint o ymdrafferthu yn bod gan rai ar fore dydd yr Arglwydd. Nid oes dim eisieu myned drôs gyfnniau Cymru, i weled rhai yn eillio eu barf ar fore'r Sabbath, ereill yn glanau'r esgidiau, rhai eroff yn ymosyn pethau o'r ardd, &c. Oeb,

—och,—ai dyma'r dull mae pethau yn myned yn mlaen mewn teuluoedd ag sydd ar enw teuluoedd Crist'nogol.

2. Trwy weithio, siwrneia, a ngesseua. Ecs. 20, 9. Mae'n ddyleid sydd arnom i fod yn ddiwyd y'nghylch ein goruchwylion dros y chwe' diwrnod, ac y mae amgylchiadau'r bywyd hwn yn gofyn i ni siwrneia a ngesseua ar amserau; ond ni ddylid gwneuthur hyn ar y Sabboth. Esgus tlâwd dros fyned o gartref ar ryw neges, yw dweud, "Mi sum yn y cyfarfod yn y lle a'r lle." Nis gall un Cristion cywir lai nag wylo wrth feddwl mai ar ddydd Duw y mae rhai yn myned i ymweled â'u perthynasau ac â'u cyfeillion.

3. Trwy wneuthur yr hyn sydd ynddo ei hun yn bechadurus,—yfed i ormodedd, adrodd chwedlau ofer, &c. Eze. 22, 26. Galarns yw gweled y tafarn-dai, mewn rhai lleoedd, yn llawn o feddwon, a rhai yn ymgynnull at eu gilydd i adrodd chwedlau celwyddog ar ddydd yr Arglwydd. Bydd gofid am hyn ryw ddydd. ...

4. Trwy ymddyddanion bydol ac amherthynasol i waith y Sabboth. Esa. 58 13. Yn yr wythnos y dylid siarad am y byd, am yr amseroedd, am bethau darfodedig y ddaear. Gofidus yw clywed neb yn sôn am y farohnad, am helynt y byd hwn, am y newydd hyn a'r llall ar y Sabboth. Nid rhyfedd yw fod rhai yn derbyn mor lleied o gysuron yn y cyfarfodydd, gan mai ymddyddan am bethau bydol ac afreidiol y maent yn wneuthur hyd oni byddont wrth ddrws yr addoldy. Dylai pob profleswr ystyried fod eu cymmydogion annuwiol yn deall mai am bethau ysbrydol yn unig y dylai pobl Ddaw siarad â'u gilydd am danynt ar y Sabboth. Melldith i ardal, yw fod neb profleswyr yn euog o siaradi am bethau y byd hwn ar ddydd santaid Duw. ...

5. Trwy wneuthur y dydd hwn yn ddydd at wleda. Nid yw allan o le i ddynion swyta a yfed ar y Sabboth yn debyg i'r dull y byddont

yn cymmeryd pethau yn yr wythnos.—Os byddir yn arfer berwi a chael ciniaw dwymu yn yr wythnos, nid oes dim bai i gymmeryd hyn ar y Sabboth. Nid yw'r gorchymyn a gafodd Israel, *i setei yr hyn a ferwent* cyn y Sabboth, yn perthyn dim rhagor i ni, nâ dangos y dylem fyw yn gymhedrol. Os yw yn bechadurus i ni ferwi, ni ddylem *gynneu tan yn ein holl anneddu*. Ond trwy ddarpar yn helaethach ar y dydd hwn, rhwystrir baloedd o wasanaeth-ddynion i ddyfod i'r addoliad; ac y mae cymmeryd pethau yn well ar y Sabboth nag y byddont yn arfer ar ddyddiau ereill, a llwytho'r corff â bwyd yn anghymhwyso dynion i fod yn neffro yn nhŷ Dduw. Dyma'r achos fod llawer mor gysglyd ar brydnawn y Sabboth.

6. Trwy falchder. Gweddus yw ein bod yn dyfod i dŷ Dduw yn hardd ac yn gryno o ran ein gwisgoedd; ond ni wna'r trwsiad o blethiad gwallt, a phethau coegaidd ereill, ddiin ond cyffro'i trythyllwch ac anlladrwydd yn meddyliau dynion. 1 Pedr 3, 3, 4. "Trwsiad y rhai bydded nid yr un oddi allan; o blethiad gwallt, ac amgylch-oesodiad aur, neu wisgad dillad; eithr bydded cuddiedig dyn y galon, mewn anllygredigaeth ysbryd addfwyn a llonydd, yr hwn sydd ger bron Duw yn werthfawr."

7. Trwy aros gartref yn segur, yn lle dyfod i'r addoliad cyhoeddus. Esa. 66, 23. "Bydd hysyd o newydd-loer i newydd-loer, ac o Sabboth i Sabboth, i bob cnawd ddyfod i addoli ger fy mron i; medd yr Arglwydd." Cysurus i ni yw meddwl, nad yw'r tai a'r meusydd ddiin mor llawn o segurwyr y dyddiau hyn ag y gwelwyd hwy gynt. Nid oes dim yn bosibl i neb esgeuluso myned i wrando gweision Duw yn llefaru, heb bechu yn erbyn Duw. Gwel y tylwyth ag sydd yn treulio dydd yr Arglwydd mewn segur-dod; ac yn ddifater am addoliad Duw, mai nid dieuog ganddo yw neb a wnelo hyn.

8. Trwy esgeuluso. Hlywodraeth deuluaidd ar

y dydd hwn. Y mae Duw yn dysgwyl i benau-  
feuluoedd ofalu am bawb a fyddo yn eu tŷ. Ni  
ddylai na'r plant na'r gwasanaethwyr gael eu  
gadael i fod yn ddifraw ar y Sabboth. Ni bydd  
neb ar ei golled i ganiatáu i'w gwasanaethwyr  
fyned i ymweled â'u perthynasau ar un o'r chwech  
diwrnod, pan ag y byddo eisieu arnynt. Trist  
yw meddwl, fod rhai rhieni yn dweud wrth eu  
plant, "Ewch allan i ryw le, i ni gael llonydd  
genych." Os na bydd gan rieni, fodd i gael dillad  
i'w plant ddyfod yn weddus i'r addoliad, dylent  
ymdrechu i'w ddsu gartref, ac nid eu gadael i  
chwarae ar y dydd hwn. 1 Sam. 3, 13.

9. Trwy ddechreu ar waith yr wythnos cyn  
y byddo'r Sabboth yn darfod. Os yw yn bech-  
adurus fod rhai yn rhoddi'r Sabboth i edrych  
dros y llyfrau (*account books*), ag sydd gan-  
ddynt at gadw eu cyfrifon wythnosol, i edrych  
am eu meysydd a'u haifeciliaid, ac at drefnu pa  
fodd i fyned yn mlaen yr wythnos arall, nid llai  
beius yw fod rhai yn dechreu eu taitb i ffair neu  
i ryw le arall ar brydnawn y Sabboth, yn my-  
ned i ymosyn calch, &c. Os bydd angenrheid-  
rwydd i fyned i ffair a fyddo yn rhy bell i'w  
chyrhaedd ar fore dydd Llun, dylid myned yn  
agos yno nôs Sadwrn, fel ag y gellir gorphwys  
ar ddydd yr Arglwydd. Ac nid pobl ag sydd yn  
caru gwaith Duw, yw y rhai ag sydd yn myned  
i gysgu yn gynt nôs Sabboth nag ar nosweithiau  
ereill. "Yr wyf fi," medd llawer un, "yn  
gweled y Sabboth gymmaint a dau ddiwrnod."  
Hawdd yw deall nad yw'r dyn hwn yn caru hof  
ei hun, yn caru ystyried beth a wrandawodd, ac  
ymddyddan â'i deulu, a gweddio drostynt.

*Gwas.* Diolch i chwi am y pethau buddiol  
hyn. Yr ydych wedi dweud pa bethau sydd yn  
warafunedig, a wneuch adrodd y peth sydd i'w  
gwneuthur?

*Meistr.* Gwnaf; a chymhorth a gaffom i'w  
gwneuthur yn ol ewyllys Duw.

1. Dylid cyfodi yn fore, i fyfyrto, darllen, ac

i weddio. Salm 119, 147. "Achubais haen cyf-ddydd, a gwaeddais; wrth dy air y dysgwylais." Dywed y bobl ag sy'n caru Duw, ei bod yn gysurus ar en heneidiau pan ag y byddont yn dechreu yn fore i addoli yr Hollalluog. Un arwyddion gwrthgiliad yn yr enaid, yw bod un yn cysgu yn hŵy ar y Sabboth na dyddiau ereill.

2. Dylid myned i'r addoliad cyhoedd, a gofale myned yn amserol. Salm 42, 4. "Tywalltwi fy enaid ynof, pan gofiwn hyny: canys aethwn gyda'r gynnulleidfa, cerddwn gyda hwynt i dy Dduw, mewn sain cân a moliant, fel tyrfa yn cadw gwyl." Os byddir yn gallu myned at bobl Dduw, nid oes dim lle dysgwyl am fendith gartref: er darllen y Bibl, &c. Y mae gan Dduw barch mawr i byrth *Seton*. Salm 87, 2. Ac nid oes achos ofni dweud, mai dynion difatter am achos Crist a fies eu heneidiau, yw y rhai sydd yn esgentluso dysod i'r cyfarfoddydd yn brydlawn.

3. Dylem dreulio'r amser rhwng y naill gyfarfod a'r llall mewn mysfyrdodau ac ymddyddanion a fyddo yn peithyn i waith y dydd hwn. Mal. 3, 16. "Yna y rhai oedd yn ofni'r Arglwydd a lefarasant bob un wrth ei gymmydog: a'r Arglwydd a wrandawodd; ac a glybu; ac ysgrifenyd llyfr cofiadwriaeth ger ei Iron ef i'r rhai oedd yn ofni'r Arglwydd, ac i'r rhai oedd yn meddwl am ei enw ef." Amser braf yw hwn i delysgu'r teulu i ddarllen, i'w hegwyddori yn nysgeidiaeth Crist, a myfyrio ein hunain yn mhethau yr Arglwydd.

4. Dylem gyfranu yn cwyllysgar at y casgliadau a fyddo yn cael eu gwneuthur gan bobl yr Arglwydd. 1 Cor. 16, 2. "Y dydd cyntaf o'r wythnos, pob un o honoch rhodded heibiau yn ei ymyl, gan drysori, fel y llwyddodd Duw ef, fel na byddo casgl pan ddelwyf fi." Nis gall neb o'r bobl ag sydd yn ystyried mor ddaionus yw Duw iddynt hwy, lai na gwneuthur eu goreu at yr achos hwn.

*Gwas.* Y mae'r pethau a ddywedasoeh yn

ngos fod gwaith mawr genym i'w wneuthur ar dydd hwn; na wna'r cwbl a wnelom ddim ddiol Duw, heb fod eis hysbryd yn ei wasan-  
thu ef, ac nad oes ond enw o gadw'r Sabboth a Jawer. Nid boddlon wyf i fyned i gysgu o heb gael gwybod genych am yr annogaethau adw'r Sabboth yn santeidd.

*Meistr.* Os cawn wyneb Duw wrth ymddy-  
an am y pethau hyn, nid oes dim achos biao  
bydd yn ddeuddeg o'r gloch cyn myned i  
wedd. Rhai o'r annogaethau yw y rhai can-  
nol:—

1. Y mae cadw'r Sabboth yn santeidd yn  
eddu at lwyddiant gwladol. Jer. 17, 24, 25.  
Er hynny, os dyfal wrandewch arnaf, medd yr  
relywydd, heb ddwyn bach trwy byrth y ddinas  
yn ar y dydd Sabboth, ond santeiddio'r dydd  
Sabboth, heb wneuthur ddim gwaith arno:  
na y daw trwy byrth y ddinas hon, frenicoedd  
thywysogion yn eistedd ar orsedd Dafydd, yn  
archogaeth newu cerbydau, ac ar feirch, hwy  
a tywysogion, gwyr Juda, a phreswylwyr Je-  
rusalem; a'r ddinas hon a gyfanneddir byth."  
"bobl ag sydd yn gwasanaethu'r Arglwydd yn  
ywar, yn santeiddio dydd Duw, ac yn ofalus  
m achos Crist, yw y rhai sydd yn gwneuthur  
es yn y deyrnas.

2. Wrth santeiddio dydd Duw y mae dwyn  
o salach achos Crist. Esa. 58, 13, 14. "O  
bri, dy droed oddiwrth y Sabboth, heb wneu-  
thur dy ewyllys ar fy nydd santeidd; a galw'r  
Sabboth yn hyfrydwch; sant yr Arglwydd yn  
roheddus; a'i anrhydeddu ef, heb wneuthur dy  
ardd dy hun, heb geisio dy ewyllys dy hun, na  
wedyd dy eiriau dy hun: yna yr ymbyfydi  
yr Arglwydd, a mi a wnaif i ti farchogaeth ar  
shelfeydd y ddaear, ac a'th borthaf ag etifedd.  
Beth Jacob dy dād: canys genau'r Arglwydd  
llefarodd." Pe byddai mwy o ofal gan beiau-  
luoedd ar y Sabboth am eu pobl, gan weision  
fist, a chan creiff ag sydd yn gynnerthwyol

iddynt, am egwyddori yr ardaloedd ar y dydd hwn, dda'u y gwelid yr achos yn myned ymlaen yn fwy llwyddiannus.

3. Y mae treulio'r Sabbath yn agos at Dduw yn foddion i gaelw'r dyn yn nefro a gwylladwr trwy'r wythnos. Y mae miloedd yn gofidio ei bod mor ysgafu yn yr wythnos, yn byw mor bell oddiwrth yr Arglwydd, a'u bod yn treulio eu hamser yn ofer. Addas yw dweud wrth y bobl hyn, yn ngeiriau un sydd wedi marw,—"Os byddaf," ebe hwnw, "yn cael y fraint a fyw yn agos at Dduw, ar ei ddydd santidd, y mae'r dyddanwch a gefais, a'r ofn sydd arnaf gollu ei gymdeithas, yn peri i mi wyllo yn erbyn pechod trwy'r wythnos."

4. Gall pawb sy'n ymhyfrydu yn nydd Duw yma, dreulio Sabbath tragwyddol gyda Duw yn y nef.—Y mae pob duwiol yn ymhyfrydu yn ngwaith y dydd hwn, yn hiraethu am fod yn fwy tebyg i Iesu Grist, ac yn awyddus am weled y dydd i addoli Duw, heb ofni gweled bore dydd Llun yn canlyn y Sabbath. Nid oes gan y rhai ag sydd yn amharchu dydd Duw un lle i feddalu y ciant fwynau Duw tu draw i'r bedd. Os na yw Duw yn tywallt ei lid arnynt yn y byd hwn fel ag y gwnaeth ar lawer yn yr oesoedd aeth heibio, ni ddiangant byth. Y mae'r Duw dywalltodd ei lid ar y gw'r oedd gynt yn cynuttu y Sabbath o hyd yr un. O rifedi'r bobl a fydd yn cael eu harddel yn y dydd olaf y byddom oll Amen.

*Pant tég.*

D. D.

DIWEDD.

*Caerfyrddin, argraffwyd gan J. Evans.*



# Trysorfa y Tlodion:

(*RHIF. VIII.—Pris Ceiniog:*)

YN CYNNWYS

## DYLEDSWYDD RHIENTI

AT

*EU PLANT,*

NEWYFFORDD O

Ymddyddan rhwng Tâd a Mam.

---

\*.\* Bydd y Rhifyn nesaf yn cynnwys Meddyginiath i  
Gof drwg.

---

**Caerfyrddin:**

*Argraffwyd gan J. Evans, Heol-y-Farchnad isaf.*

Lle gellir cael y Rhifynau blaenorol.

---

1818.

## SYLWADAU AGORIADOL.

Matth. 5. 19, 20. Gelwir hwynt y *rhai lleiaf*, i arwyddo nad oedd y gorchymynion ag oedd y Phariseaid yn edrych arnynt yn rhai bychain a diwerth, ddim i'w diystyru gan neb o ddeiliaid teyrnas Iesu. Ni ddylai deiliaid teyrnas Crist, y deyrnas a elwir yma *teyrnas nefoedd*, ddim croesawi neb ag sydd am dafu ymaith y lleiaf o' orchymynion Duw. "Omni bydd eich tyfawnder yn helaethach."—Yr oedd ymddygiad y Phariseaid a'r ysgrifenyddion yn fyr hynod mewn dau betir:—1. Yr oeddynt, trwy eu traddodiadau, yn gadael heibio lawer o orchymynion Duw, ac yn ddifater am y pethau mwyaf pwysig. Y mae esboniadau Crist ar y gyfraith, yn y bennod hon, yn profi eu bod yn fyr iawn. 2. Nid oedd ganddynt ddim gofal am y galon, am yr egwyddor. Rhagrithwyr oeddynt. Dangosir yma nad oes neb yn ddeiliaid addas o deyrnas y Messia, heb fod yn ddynion cywir yn eu calonau, ac yn parchu *holl* orchymynion yr Arglwydd. Y mae pawb ag sydd yn Nghrist yn parchu y ddeddf.

Heb. 4. 12. Y mae llawer yn meddwl mai person y Mab sydd yn cael ei alw yma yn air Duw, herwydd fod y gair ac yn dechreu yr adnod sydd yn canlyn hon. Nid yw hyn ddim yn ddigon i brofi y pwngc, oblegid y mae y gair ac i'w wled mewn rhai manau ereill, a'r adnodau a gyssylltir yn y modd hwn yn sôn am wahanol bersonau, megis Ioan 8. 34, 35. Nid yr un personau y mae y gair gwas yn osod allan yn y ddwy adnod hyn. Hefyd, pan y mae Crist yn cael yr enw Gair Duw, fel yn Ioan 1. 1, 14, a Dat. 19, 13, dywedir am y Gair fel person yn gweithredu, ac nid fel offeryn, yn gleddyf, yn cael ei ddefnyddio gan ryw un. Gan fod yr adnod hon yn rheswm dros annog y bobl i fyned i mewn i'r orphwysfa efigylaidd, tebygol yw mai bygythion Duw yw gair Duw yma. Cafodd yr Israeliaid a syrthiasant dan farn Duw yn yr anial-wch, wybod mai nid da yw cellwsir â chleddyf yr Arglwydd, Num. 14. Psal. 95, 11. Yr un yw gair Duw etto. Cryned yr angharedinwyr.

## Dyledswydd Rhieni, &c.

**Tad.** GAN ein bod yn awr, fy anwylyd, wedi cyrhaedd y sefyllfa anrhydeddus o fod yn dad a mam, o fod yn rhieni i'r eselliad hyn, y mae dyledswyddau newydd yn perthyn i ni.

**Mam.** Gwir, fy mhriod. Yr wyf fi yn golygu na ddylem oedi i'w cyflwyno hwy, trwy fedydd, i'r Arglywydd. Gofynwch i Mr. Davies o Bethlehem pa bryd y bydd cyfle ganddo i ddyfod yma i'w bedyddio, a dymunol fyddai gan ein cymydogion gael pregeth ganddo pan ag y byddo yn dyfod.

**Tad.** Af i Bethlehem bore'r Sabbath nesaf, a cheisiaf ganddo ddyfod yma nos Fawrth nesaf.

**Mam.** Nid cymhwys fydd iddo ddyfod yma y nos hono, gan fod Mr. Ebenezer Morris yn Llanddowror. Ni ddylem fod yn rhwystr i'n gilydd. Eln dyledswydd yw byw mewn cariad a thanghnedd, gan ein bod yn blant i'r un Tad, yn ymladd yn erbyn yr un gelysion, ac yn bwriadu byw byth gyda'n gilydd yn y nesoedd, yn y wlad lle bydd yr holl rai ag sydd yn caru Crist wedi cyfarfod, cyn hir, heb achos ymadael â'n gilydd yn oes oesoedd.

**Tad.** Yr wyf, yn ddiweddar, wedi darllen ym-grifensdan amryw awdwyr ar dyledswydd rhieni at eu plant. Y mae'r naill a'r llall o honyst yn dangos fod llawer o bethau i'w gwneuthur, os ydym am eu gweled yn troi at Dduw, ac os dysgwylw'n fod yn rhydd oddiwrth eu gwaed.

**Mam.** Byddai'n dea genyf, Tomas, gael gwybod genych pa fodd y mae ymddwyn atynt.

**Tad.** Gan nad oes un gwaith neillduol yn galw am danaf, o'n myned i'r cyfarfod sydd heddyw am ddeuddeg, mi adroddaf i chwi yr hyn ag wyf wedi weled yn ngwaith Mr. Boston, Mr. Brown, ac ereill ar y mater hon. Canwch y drws, i ni gael dystawrwydd i fynd at Dduw, i eifysu am.

sendith. “ O Arglwydd, yr wyt wedi rhoddi y ddau blentyn hyn i ni—cyflwynasom hwynt i ti trwy fedydd—y mae dy nód di arnynt—cymhorth ni i’w dwyn i fyuu yn nysgeidiaeth dy Fab—os da genyt, rho ras iddynt—na ád iddynt fyned trwy y byd heb fod yn dduwiolion—gwaz hwynt yn ddynion defnyddiol yn eu dydd a’u cenedlaeth—gáid iddynt hwy, a ninnau fod ya eiddo i ti yn y dydd olaf—amen.”

Yr wyf yn meddwl y gallaf enwi y dyledswyddau, gan mwyaf, mewn deg o bethau:—

1. Dylem fod yn ddiwyd yn ein galwedigaeth, i gael ymborth a dillad iddynt. Byddant fynyddau meithion cyn y deuant i ofalu am danynt eu hunain. Ond os cawn iechyd, ac i ragluniaeth Duw fod o’u plaid, cánt yr hyn a fyddo eisiau arnynt. Yr wyf yn ddig iawn wrth eich brawd Dafydd, am ei fod yn trealio ei amser mewn segurddod, i hela, &c. yn lle bod yn gweithio i ynnill modd i gynnal ei deulu. Yr oedd yn ddrwg genyf, wrth ddysod heibio i’w dý ddoe, weled ei blant heb fawr oddim i guddio eu aoethni; ac yr oedd eu gwedd yn dangos mai prin oedd arnynt am ymborth. Gallai efe, ac creill, fod yn hynod gysurus, oni byddai eu bod yn ddifater am eu gwaith. Y mae’n sicr y bydd yn rhaid i’r plwyf roddi peth yn fuan iddo. Ni ddylid edrych yn waeth ar neb am eu bod yn eac; cymhorth gan eu plwyfyydd, os bydd angen arnynt; ond trist yw meddwl fod dyn ieuanc, fel eich brawd, a fyddo yn cael cynnyg ar waith, yn myned i bwysu ar y plwyf.

2. Dylid dweud wrthynt yn foreu am Dduw a’i wasanaeth. Mor gynted ag y byddont ya gallu sylwi ar bethau, bydd yn dda iddynt wybod pwy a’u creodd,—am briodoliaethau yr Arglwydd,—am ddrwg pechod,—am Grist a’i waith,—am angeu,—ac am y byd tragwyddol, Eph. 6, 4. Yr wyf ya caru y drefn ag oedd gan

un mair ag y bum yn was gydag ef, - i addysgu ei blant yn mhethau yr Arglwydd. — Yr oedd yn rhoddi cwestiynau bychain ac eglur i'r rhai ieu-angaf, megis *Rwy oedd y dyn cyntaf, &c.*; ac yr oedd y rhai ag oedd mewn oedran i ddygu ac adrodd pethau dyrus, yn gorfod dysgu catecism Brown, a chatecismau ereill; a phan y byddai'n darllen, y boreu a'r hwyr, gofynai am feddwl rhai adnodau. Yr oedd yn ymdrechur dwyn pob gwas a phob morwyn i ddarllen y Bibl, a deall athrawiaeth Crist. Ni buaswn i ddim yn gallu darllen fy Mibl, oni buasai i mi fod yn was yn nhŷ y cymmwynawr hwn. Os caf aros gyda fy mhiant hyn, ymdrechaf i'w dysgu yn nghylch eu mater tragwyddol.

3. Ni ddylid arbed y wialen. Nid oes dim hawl gan rieni i fod yn greulon at eu heiddo; ond ymddwyn yn angharedig at ein plant a wnawn os na cheryddwn hwynt, Diar. 13, 24. Yr wyf yn gweled tri math o rieni yn feius iawn yn nghylch ceryddu eu plant:—1. Y mae rhai nad ydynt yn ceryddu byth ond pan ag y byddont mewn tymher ddigofus atynt. Nid yw y ceryddon hyn yn gwneuthur dim ond caledu y plant. 2. Y mae rhai ereill yn bygwth gwneuthur pethau iddynt nas gallant eu gwneuthur, heb fod yn agored i gosp wladol, &c. Clywir rhai yn dweud, pan y byddo'r plentyn yn tros-eddu, "Mi dy laddaf,"—neu, "Mi doraf dy ben ymaith,"—neu,— Nid gweddus yw i mi adrodd yr holl eiriau anystyriol, a'r bygythion dychrynlyd ag sydd ganddynt. Dylid ystyried pa gosp y mae y bai yn ofyn; ac os bygythir, nid da yw anghofio y cerydd. 3. Clywir ereill yn dweud yn llym iawn wrth eu plant am wneuthur rhyw drosedd bychan yn eu herbyn hwy, fel rhieni, ond yn gadael llonydd iddynt am gymmeryd enw Duw yn ofer, &c. Oeh, y mae llawer tad a mam wedi ceryddu eu plant yn

llyn, am wneuthur gwerth ceiniog o golled iddynt hwy, ond ni ddywedasant ddim erioed wrthynt am bechu yn erbyn Duw, am halogi ei ddydd saotaidd, &c. Clywais fod gan Enoc Gwilym lwybr hynod gymhwys i geryddu ei blant. Yn un peth, yr oedd yn *dechreu eu ceryddu mewn pryd*. Nid oes dim achos rhyfeddu fod rhai yn dweud am eu plant, a fyddo wedi tyfu i fynu i oedran gwyr, "eu bod yn waeth na phlant neb." Esgeuluswyd eu ceryddu pan oeddynt yn ieuainc. Yr oedd Enoch hefyd yn *ymddyddan llawer a'r plant, wedi iddynt droseddau, i ddangos y niwed a'r drwg ag oedd yn y peth a wnaethent*. Yr oedd, yn hyn, yn ymddwyn atynt yn debyg i'r dull ag oedd gan un wraig dduwiol, ag oedd yn byw yn agos i Gaerfyrddin, i geryddu ei phlant, anaml y byddai yn arfer gwialen i'w cospi,—ei llwybr cyffredin oedd eu galw o'r neilldu, a dweud yn galed wrthynt am y trosedd, a'u cynghori i beidio gwneuthur hynny byth drachefn. Heblaw hyny, *ni roddai Enoc ddim o'r wialen o'i law hyd nes y maeddidd cyndynrwydd y plentyn*. Dywedai Enoc fod y rhieni ag oedd yn rhoddi y wialen heibio ar hanner eu ceryddu, yn debyg i'rai yn gadael i'w cefylau gael y dydd arnynt. Os gadewir i'r creaduriaid direswm hyn gael y dydd, a nacau myned yn mlaen, am ddau neu dri thro, gwaith anhawdd fydd eu cael yn ufudd byth mwy. Trist yw clywed neb rhieni yn dweud, "Ni chaf gan y plentyn, pe lladdwn ef, ddweud fod yn ddrwg ganddo wneuthur y trosedd a'r trosedd." Ni buasai achos iddynt ddweud hyn, pe buasant yn gorchfygu cyndynrwydd y plant ar y cyntaf. *Nid oedd Enoc hefyd ddim yn eu ceryddu un funud, a'u costeidio y funud arall*. Y macusanu y plant, yn ddiaros ar ol eu gwialennodi yn gwneuthur niwed mawr iddynt. Nid yw y plant hyn yn gwneuthur dim cyfrif o'r ceryddon a fyddont yn gael.

4. Eu harfer yn foreu i ddweud y gwir. Yr oeddwn, yn ddiweddar, yn ymddyddan âg untad yn nghylch y mater hwn. Dywedodd wrthyf fod llawer o rieni yn gyfrannog o bechodau y plant; 1. Trwy ganiatáu iddynt adrodd hanesion a chwedlau ofer a chelwyddog. Trwy wneuthur hyn yn aml, y mae'r plant yn dysgu ffurfio chwedlau eu hunain, yn ychwanegu at y rhai a fyddont wedi glywed, ac yn dyfod, o'r diwedd, i gael yr enw o fod yn ddynion deuenig am adrodd *'storïau*. 2. Trwy geisio ganddynt ddweud wrth y tlodion a fyddo yn dyfod at y drws, nad oes neb yn y tŷ i roddi dim iddynt. Yn lle annog y plant i ddweud anwiredd, gwell yw dweud nad oes dim ganddynt i roddi i'r tlodion, neu nad ydynt yn rhoddi dim i neb. 3. Trwy beidio eu ceryddu am ddweud celwydd. Y mae y rhieni ag sydd yn gadael eu plant yn ddigerydd am anwiredd, yn gwneuthur cam mawr â hwynt. Canmoladwy iawn oedd dull eich ewythr Dafydd a'i wraig, yn dysgu eu plant i ddweud y gwir,— Yn un peth, maddeuant iddynt am lawer trosedd, ond i'r plant ddweud y gwir am yr hyn a wnaethent. Y mae rhai rhieni yn ymddwyn mor greulon at eu plant, fel ag y mae y plant, rhag ofn y goss, yn dweud anwiredd am y peth a fyddo ar fai. Pan ag y byddai Dafydd yn eu dal yn gelwyddog, ceryddai hwynt yn llym iawn am hyn. A thrwy ofalu dweud y gwir, bob amser, eu hunain, yr oedd y plant yn cael eu dysgu, gan esampl dda eu rhieni, i beidio dweud anwiredd.

5. Dylid eu dysgu i fod yn ddystaw, ac nid eu gadael i fod yn dafodrydd, a chael eu gair yn mlaen yn mhob peth. Gallid meddwl wrth y siarad, y dadwrdd, y sŵn ag sydd gan y plant, mewn rhai teuluoedd, mai hwy sydd yn llywodraethu y teulu, a bod yn rhaid i bawb ddystawi a gwrando arnynt hwy. Hynod y gwahaniaeth,

yn hyn, sydd rhwng teulnoedd y ddau frawd Job Thomas ac Edmund Thomas. Pan elir i Job, ni chlywir y plant yn dweud dim, yn holi dim ond a fyddo eisiau iddynt. Pan ag y ban yn ei dŷ yr wythnos ddiweddar, gofynodd Henry, y mab ieuangaf, pa fodd yr oeddwn yn dysgwyl iddynt hwy dalu treth at adgyweirio y llan, gan nad oeddynt yn aelodau ynddi, &c. Ceryddodd ei dad ef yn llym, am holi dim a'e nad oedd yn perthyn iddo; a dywedodd wrtho: "mai un o'r pethau mwyaf canmoladwy mewn plant a dynion ieuainc yw bod yn ddystaw." Ond am blant Edmund, gofidus yw bod yn agos atynt. Y mae cymmaint o holi ganddynt, a chymmaint o adrodd pethau nad ydynt yn perthyn iddynt, fel ag y maent yn peri gofid mawr i mi, bob amser ag y byddwyf yn myned yno.

6. Y mae dyledswydd arnom i'w dwyn hwynt i fynu i ryw alwad onest. Yr oedd gan Cain ac Abel bob un ei alwad. Yr oedd yn rhaid i bawb, yn mhlith yr Luddewon, ddwyn eu plant i fynu i ryw alwad gyfreithlon. Y mae plant y gwŷr penaf, mewn rhai teyrnasod, yn cael eu dysgu i weithio. Nid oes dim yn fwy niweidiol i blant na chael eu gadael i fod yn segur. Trwy eu harfer yn ieuainc i weithio, y maent yn cael eu cadw rhag llawer o beryglon a themtasiynau, yn gwneuthur llawer o lês i'w hicchyd eu hunain, yn cael eu tueddu i fod yn llafurus dros eu bywyd, ac yn gwybod mwy am ddedwyddwch na'g y gall y rhai sydd yn segur wybod am dano. Y mae gair Duw yn condemnio y segurwyr, 2 The. 3, 10. A chymhwys iawn y dywedodd un am segurddod, ei fod "yn arwain i ledrad—i'r pren dyoddes."

7. Dylid eu dysgu i fod yn hawddgar i'r tloedion, a bod yn elusengar. Gwelir yn epistolau Paul a'i frodyr, mai peth canmoladwy yw *elusengarach*. Os bydd modd gan rieni i gyfranu i'r



lodion, ac at ledanu teyrnas Crist, dylent roddi peth yn nwyllaw y plant i'w rhoddi i'r tlodion, &c. Yr wyf yn caru y ddull ag sydd gan Jenkin Thomas yn hyn,—Pan y byddo rhai yn gofyn am elusen, ca'r plant fyned â'r gardod iddynt;—pan ag y byddo rhyw un yn dyfod i'r tŷ gyfarfod, i gasglu at ryw addoldŷ newydd, rhydd i'w chwe'-cheiniog ei hun, a rhana'r chwe'-cheiniog arall rhwng y plant, i bob un gael tafllu ei geiniog i'r drysorfa. Ac y mae yn dweud yn fynych wrthynt am gefio bod yn elusengar i'r tlodion, a gwneuthur a allont at achos Crist, tra byddont yn y byd.

8. Dylid eu dysgu i fyw mewn heddwch â phawb. Clywais fy ewythr Samuel yn dweud, mai peth gwerthfawr iawn yw magu plant a fyddo yn byw mewn heddwch â phawb, ac yn cael eu parchu fel dynion tangnefyddus yn y gymmydogaeth. Y mae llawer o hyn yn ymddibynnu ar yr esampl a fyddont yn gaeu eu rhieni. Y mae tri pheth, ebe Samuel, yn tueddu at wneuthur fy mhiant i yn blant heddychlon:—1. Yr wyf fi a'u mam yn ymdrechu, hyd ag y gallom, i fyw mewn heddwch â phob dyn. Nis gall y plant lai nâ daf sylw ar hyn. Os bydd rhyw gymmydog wedi troseddu yn ein herbyn, ni chaiff y plant wybod dim am hyny. 2. Yr ydym yn eu hannog i fyw mewn heddwch â'r gwasanaeth-ddynion. Ni oddefwn iddynt ddweud dim wrthym am danynt, oni fydd y peth o ryw bwys neillduol. Ac, yn olaf, yr ydym yn dweud wrthynt yn aml am ddull *Mr. Cariadus* yn myned trwy y byd:—“Nid oedd efe yn sôn dim am ei gymmydogion, ond pan y byddai ganddo ryw beth da i ddweud am danynt; nid oedd efe yn ymyraeth âg achosion neb o honynt; ac ni chai neb o'i blant adrodd dim am feiau neb o honynt.”

9. Dylid eu harfer i santeiddio dydd Duw, ac

i ymddwyn yn weddaidd bob amser yn yr addoliad. Y mae John Watcins o'r *Tŷ-mawr* yn tynnu llyngu parch am ei ofal yn hyn. Ni chais blant siarad dim am y byd, ac am bethau tyfhorol, ar ddydd Duw. Pan na byddo cyffeirys ynt ddyfod i'r addoliad cyhoeddus, y mae rhaid iddynt fod gyda'u llyfrau. Cerydda hwy yn llym os gwel efe hwynt yn dyfod i'r addoliad dan chwerthin, ac yn anystyriol, neu os fant. ac cyn diwedd y cyfarfod; a hynod mór chwerydd iddynt os gwel hwynt yn ysgafu, ac yn chwerthin, pan ag y byddont yn darllen gyda Duw, neu pan ag y byddont yn siarad â'u gilydd am bynciau crefyddol. Pan ag yr oedd Owen fab yn gofyn iddo, dydd Sadwrn diweddfaf. a gael myned dranoeth i ymwelod â'i frawd. oedd yn byw ychydig oddiwrthynt, dywedodd wrtho na chais ei blant ef, na'r gwrsanaethwynt fyned i ymwelod â neb ar ddydd Duw;—Ti gylfyned, eb efe, i roddi tro am dano dydd Merched nesaf.

10. Dylem weddio gyda hwynt, a throstyn a'u dysgu hwythau i alw ar enw yr Arglwydd Galarus yw meiddwl am y rhieni ag sydd yn ddwy weddio gyda'u plant bychain. Nis gall neb a sydd yn caru eneidiau eu plant, ag sydd yn eu hyllycio eu bod yn ddedwydd ac yn gysurus dre eu tymhor, ag sydd am iddynt fod yn eiddo Dduw yn y byd tragwyddol, lai na chofio a danynt o flaen Duw. Nid oedd gan Abraham Job ddim grâs i gyfranu i'w plant,—nid oedd ganddynt ddim i'w wneuthur ond arfer y modd i'w appwyntiedig, a gweddio am i Dduw eu gwneuthur yn blant iddo ei hun, Gen. 17, 18. Job 1, 5. Nid oes dim yn fwy hyfryd na gwelod tad yn galw ei blant at eu gilydd, hwyr a bore, i'w cyswyno i ofal yr Arglwydd. Ac nis gallai lai na charu *Mr. Parkison* am ei ofal i ddysgu ei blant i weddio. Nid yw efe, fel y mae llawer, yn

ysgu gweddi'r Arglwydd iddynt; y mae yn eilygu fod y weddi gynhwysfawr hon yn ormod blant,—gwell ganddo efe ddysgu gweddiau iddynt a fyddont yn gallu eu deall, ac a fyddo yn wy perthynasol i'w sefyllfa fel plant. Dywed u llym wrthynt os gwel hwynt yn chwerrthia trth adrodd eu gweddiau.

*Mam.* Y mae y pethau a gawsoch yn ngwaith brown, a'r sylwadau ag ydych wedi wneuthur y bethau a welsoch chwí eich hun mewn gwahanol deuluoedd, yn dangos fod dyledswyddau pwysig i'w cyflawni tuag atynt. Trwy gymhorth Duw, gwnaf fy ngoreu i'w dysgu. Pau ag y byddoch chwí gydâ'ch gwaith, bydd cyfle braf ehyf fi i ddysgu yr A, B, C, &c. iddynt, i holi weatlysau bychain iddynt, a'u hyfforddi yn ieuenc yn y pethau a fydd yn llesiol iddynt dros u bywyd. Gall y mamau wneuthur llawer yn ffordd hon.

*Tad.* Y mae yn dda genyf eich clywed yn ddaw gwneuthur a alloch er llês amserol a thragwyddol y plant. Cynnorthwyed Duw ni i bod y pethau a nodais yma mewn ymarferiad. Gŵyr cannoedd pa fodd y dylent ymddwyn at u plant, ond ychydig iawn o bobl sydd yn gwneuthur yr hyn a wyddant. Nid yw'r *dygiad* *syntu crefyddol* a sonir am dano mewn rhai teuluoedd, yn y dyddiau hyn, ddim yn deilwng o'r maw hwn. Y mae difaterwch crefyddwyr, yn nghylch dysgu eu plant yn y pethau a enwyd, yn gwneuthur niwed mawr i achos Crist, ac yn un o'r pethau mwyaf i rwystro llwyddiant ar deyrnas Jesu. Nid oes dim amser i mi ymddyddan rhagor yn awr, gan ei bod yn hanner awr gwedi yn ar ddeeg, ac y mae'r gŵr sydd i fod heddyw yn y *capel* yn ofalus am fod erbyn yr amser yn wastadol; a pheth canmoladwy iawn yw fod pregethwyr yn dyfod erbyn yr amser a addawant. Os caiff y gŵr dweithu gystal rhydd-did i

bregethu heddyw, ag y gafodd pan y bu yma o blaen, cawn gyfarfod melus. A ydych chiwi y cofio'r testun ag oedd ganddo y pryd hyny?

*Mam.* Ydwyf. Ei destun yr amser hwns oedd, Rhuf. 16, 7. Un sylw ag oedd ganddo ar yr ymadrodd *y rhai oedd yn Nghrist o'u blaen i*, oedd, nad yw yn bosibl bod yn Nghrist yn rhy gynnar. Oddiyma dangosodd y *manifestion* ag oedd o gael crefydd yn more'r bywyd. Buasai yn dda genyf gael dyfod heddyw i'w wrando; ond gan nad oes genyf neb i gadw y plant hyn, gwell genyf aros gartref na dyfod i hwynt yno i gadw swm. Ymdrechwch i gofio y bregeth. Caiff gymhorth fy ngweddiau innau.

*Pant-têg.*

D. D.

---

Ni welwyd ac ni welir,  
 Heb ras mo deyrnas nef;  
 Am 'nabod yr adeni,  
 Fo'm beunydd gri a'm llef;  
 Ca'r dyrfa ail-anedig,  
 Eu harddel ddydd a ddaw,  
 Bydd pawb o honynt yno,  
 Yn sefyll heb ddim braw.

DIWEDD.

---

*Cacrfyrddin, angraffwyd gan J. Evans.*

# Trysorfa y Tlodion:

(*RHIF. IX.—Pris Ceiniog:*)

YN CYNNWYS

**MEDDYGINIAETH**

**GOF DRWG.**

\* Bydd y Rhifyn nesaf yn arddangos y **BUDD  
DER O GODI YN FORELL**, ac yn rhoddi hanc  
am y **TEULU CYSURUS**.

**Caerfytodin:**

*Argraffwyd gan J. Evans, Heol-y-Farchnad*

Lle gellir cael y Rhifynau blaenorol.

1818.

## SYLWADAU AGORIADOL.

Rhuf. 14, 15. Y mae rhai yn haeru fod yr adnod hon yn profi y gall rhai o'r bobl ag y bu Crist farw drostynt fod byth yn golledig,—ond ni wyr yr adnod hon, nac un adnod arall trwy'r Bibl, ddim am yr athrawiaeth anghysurus hono. Ceir esponiad eglur a chywir ar hon yn 1 Cor. 8, 11, 12. Y *dystrywio* a'r *dyfethu* yma yw curu eu gwan gydwybod hwy.

Rhuf. 14, 6. Yr oedd rhai o'r Cristionogion yn yr amser hwn yn golyga y dylesid rhoddi parch i'r gwyliau Iuddewig, a gwrthod bwyta'r pethau ag oedd yn waharddedig gynt, ac yr oeddylt yn cadw at hyn, gan ystyried fod hyn yn ogoniant i'r *Arglwydd*. Yr oedd ereill yn barnu fod y pethau hyn wedi myned heibio dan y Testament Newydd, ac yn eu gadael heibio o barch i'r *Arglwydd*. Gan fod y naill blaid a'r llall yn gwneuthur yr hyn a olygai yn ddyledswydd arni, gweddus oedd iddynt gyd-ddwyn â'u gilydd, a bod yn dirion wrth y gwelnaid.

# MEDDYGINIAETH.

## GOF DRWG.

---

**G**OFYNODD un o genadau Crist yn ddiweddar i'r bobl ag sydd dan ei ofal, a oedd rhai o honynt yn cofio y sylwiadau ag oedd ganddo ar y bregeth a glywsent ganddo y boreu Sabbath cyn hyny. Nid oedd ond dau o honynt yn gallu rhoddi atebion iddo. Dywedodd Evan Jenkins, Martha Pugh, a Dafydd Penry mai *côf byr* iawn oedd gan bob un o honynt lwy. Ac yr oedd y lleill yn cwyno am nad oeddent yn gallu dweud ychydig wrtho am y pethau buddiol a glywsent ganddo. "Wele," ebe y gweiniog, "gwelaf nad yw y pethau ag wyf yn bregethu yn aros fawr ar feddwl fy ngwrandawyr. Nis gallaf gredu eich bod chwi Evan Jenkins yn dweud y gwir am eich *côf*—clywais chwi eichdoe yn adrodd pethau ag oedd gwedi dygwydd pan nad oeddech ond saith mlynedd o oedran, a chwithau yn awr yn drugain oed. Pasut y cred neb mai *byr* yw eich *côf*. A phan y troseddodd Esther Owen yn erbyn Martha Pugh, cafodd Esther wybod ganddi am foian ag oedd wedi myned heibio er's 30 o flynyddau yn ol. Gwelir wrth hyn nad oes dim lle i Martha ddweud fod ei *chôf* yn fyr. Ac am Dafydd Penry, gwyr pawb beth yw yr achos ei fod ef yn anghofio y pethau ag sydd yn cael eu dweud—y mae Dafydd yn cysgu bob amser yn y cyfarfod. Gallaisid dygwyb y buasai y cerydd llym.

a gafodd gan Mr. Arthur Jones, o Bangor, am gysgu yn yr oedfa, yn gwneuthur lles mawr iddo; ond yr un dyn yw Dafydd etto. Cofied pawb o honoch fod y pethau a ddywedais wrth y tri hyn yn perthyn i chwithau. Galarus yw meddwl nad oes ond dau yma yn gallu enwi pe-  
au y bregeth."

Y Sabbath cyntaf ar ol y cyfarfod hwn sylw-odd y gweinidog ar y gallu sydd yn yr enaid i gofio pethau, rhoddodd gyfarwyddiadau neill-  
duol i gofio pregethau, a dangosodd mai gwaith llesiol yw trysori y pethau a fyddom yn glywed yn y côf. Ac ar y nos Fercher gyntaf ar ol hyn, gofynodd i'r bobl ag oedd wedi dyfod at eu gilydd i'r *society*, "A oes rhai o honoch," eb efc, "wedi dal sylw ar y pethau a ddywedais yn nghylch cofio pregethau, &c." Dywedodd Bevan yr henuriad, ei fod ef yn cofio y sylwadau blaenaf ag oedd ganddo:—1. Dywedasoch "mai gallu gwerthfawr yw y côf." Y mae pob peth a gawsom gan Dduw yn werthfawr iawn. Y mae holl alluoedd yr enaid yn ddrud-fawr; ond y mae'r côf mor brisfawr ag un o honynt. Y bobl sydd yn hen fel myfi wyr am werthfawrog-  
rwydd y côf. 2. Clywsom genych mai "nid ar y côf y mae'r bai na byddai dynion yn cofio pethau da a santaidd yn gystal ag y cofiant beth-  
au dilles." Y mae yn wir fod rhai yn gallu cofio pethau yn well nâ'u gilydd; ond yn yr ewyllys y mae y drwg na byddid yn cofio pethau ys-  
brydol yn well. Pe byddai cariad dynion gym-  
maint at waith Duw ag yw at bethau y bywyd hwn, â'u hyfrydwch gymmaint yn ngwirion-  
eddau y Bibl ag yw yn nhrysorau y ddaear, byddai pawb yn cofio pregethau, a phethau lles-  
iol ereill, yn well. 3. Cawsom wybod genych "mai trysordd y myfyrdod yw y côf." Nid oes dim yn bosibl, fel y clywsom, i ni fysyria



ar y bregeth os na byddir yn ei ehofio. Ffe  
 fyddai geaym ymorth paraus i'r mysfyddod pe  
 ymdrechid i gofio y pethau mawrion ag ydym  
 yn wrando yn well. 4. Dywedasoch wrthym y  
 "byddai y cof yn peri gofid neu lawenydd i ni  
 byth." Ni byddai mor ofidus ar drigollion Ge-  
 henria oni byddai eu bod yn cofio am yr holl  
 bechedau a gyflawnasant yn y byd. Y mae y  
 tywysog *Angdgrfaeth* yn cadw y neuadd, a phob  
 peth mewn heidwch ganddo, tra byddont yn y  
 byd hwn; ond nis gallant yn uffern lai na me-  
 ddwl am eu cyflwr gresynus, a ba fyddai gan-  
 ddynt pe gallent anghofio y beiau dros gym-  
 maint a hanner awr, unwaith bob deng mil o  
 flwyddau. O'r tu arall, rhanfawr o wynfyd y  
 sant yw eu bod yn cofio y pregethau gwerth-  
 fawr a glywsant, yn cofio am y cyfarfodydd  
 rhelus a gwsant, ac am ofal Duw am danynt  
 hyd oni ddygwydihwynt i'r orphwysfa dragy-  
 wyddol. Arol i'r gŵr hwn ateb y pethau hyn,  
 dymunodd y gweinidog arno ofyn i Evan Jen-  
 kins yn nghylch y *cyfarwyddiadau*. Dywedodd  
 Evan fod y cerydd a gafodd yn y cyfarfod diw-  
 eddaf wedi gwneuthur lles neillduol iddo. Yr  
 wyf, eb efe, yn cofio *pedwar* o'r cyfarwydd-  
 iadau:—

1. Tuag at gofio y bregeth, dywelwyd wrth-  
 ym "fod yn rhaid i ni ymdrechu deall y pethau  
 a fyddom yn glywed gan weision Duw." Gof-  
 ynir yn fynych gan lawer, "Pa fodd y mae hwn  
 a hwn," meddeut, "yn cofio pregethau a'r peth-  
 au y mae yn ddarllen yn well na nywi?" Yr  
 ateb iddynt yw, fod *hwn a hwn* yn ymdrechu i  
 deall pob peth. Pan y byddom yn gwrando,  
 dylem sylwi ar y dull ag y byddo y pregethwr  
 yn rhannu ei destun, a'r modd y byddo yn egluro  
 y dail beth a'r Hall. Yr wyf fi, ebe Evan, yn  
 caru clywed pawb yn adrodd pethau yn dref-

mus. Yr wyf yn gwybod, eb efe, y gall pre-  
ethwyr osod pethau allan heb enwi un pen ar  
bregeth; ond y mae yn hawdd i bawb wyb-  
od fod dull o enwi pesau, a rhanu y testun  
ddau neu dri o bethau, yn gymhorth mawr  
gofio y bregeth. Chwi a wyddoch fod Morg-  
yn dweud pethau llesiol iawn bob amser, ac y  
pregethu mewn dull efengylaidd, ond gormod  
waith i mi yw cofio hanner y pethau y mae y  
ddweud, o herwydd ei fod mor annhrefnus. E-  
mor drefnus y mae *Mr. Gofalus* yn nghylch ad-  
rodd gwirioneddau Duw, y mae llawer o'i bobl  
ef yn anghofio y pethau y mae efe yn osod allan.  
Dysged Duw ni i wrando yn astud.

2. "Y dylem ymarfer ein hunain i gofio rhan  
o air Duw *bob dydd*." Clywais Mr. Thomas, o'r  
Winllan, yn dweud mai dyma'r dull y daeth ef i  
gofio pregethau mor gryno ag y mae yn eu cofio  
yn awr. Yr oeddwn ar y cyntaf, ebc Mr. Tho-  
mas, yn ymdrech cofio tair o adnodau o'r ben-  
nod a fyddwn yn ddarlain o flaen y teulu bob  
dydd, ac yn dysgu dau neu dri phwnc allan o  
Gorff Duwinyddiaeth Dr. Lewis bob wythnos.  
Bu hyn yn foddion i'm dwyn i gofio pregethau  
yn hynod dda. Os parâa'r bobl ieuainc i dry-  
sori gair Duw yn eu côf, fel ag y maent yn  
gwneuthur yn y blyneddau hyn, galluogir hwynt  
cyn hir i drysori pob pregeth a fyddont yn  
wrando yn eu côf. Ni chlywir neb cyn hir yn  
achwyn ac yn dweud mai *côf byr* sydd gan-  
ddynt, os â pethau yn mlaen fel ag y maent yn  
awr.

4. "Mai buddiol yw ymddyddan â chyfeill-  
ion i ni, yn nghylch y bregeth, wrth ddychwelyd  
o'r cyfarfod, neu ryw amser arall a fyddo yn  
gyfleus at hyn." Gwyr llawer mai am y bre-  
geth, a'r pethau a fu dan sylw yn yr odfa, y  
byddai y diweddar Tomas Evan, o'r Lan, yn

ymddyddan wrth ddychwelyd o'r cyfarfodydd. Clywais rai o'i gyfeillion yn dweud yn ddiweddar eu bod wedi colli cyfaill anwyl, a chynghorwr da, pan yr ymadawodd Tomas â'r byd hwn. Ei ddall oystredia oedd holi cwestiynau, ac esponio pethau i'w frodyr ieuainc. Llauer o weithiau y clyw-wyd ef yn gofyn wrth dyfod adref, "Wele, frodyr bach, ni a gawsom glywed pethau mawrion heddyw—a oes rhai o honoch chwi yn cofio pa fodd y dywedodd am y peth a'r peth yn ei bregeth, &c." Yr wyf yn caru y drefn ag sydd gan Timotheus Owen a'i frawd Edward—y maent hwy bob amser yn adrodd penau y bregeth i'w gilydd. Y mae cyfarfod newu rhai eglwysi yn cael ei gynnal at holi am y pethau a fyddont wedi glywed ar ddydd Duw. Diau genyf y dylai swyddwyr tŷ Dduw holi mwy i'r aelodau, yn y cyfrinachau, yn nghyleh y pethau y maent yn wrando. Os oedd y bregeth a ga'wd gan y gwelnidog ar y Sabbath yn deilwng i roddi awr o amser i'w gwrandu, sicr yw y dylid siarad am dani yn y *society* gyntaf a gedwir ar ol hyny.

4, "Y dylem feddwl am y bregeth wrth fyned i orwedd y nos, a phan ddihunom yn y boreu." O mor anaml y byddwn yn myned i'n gwelyau, ac yn dyfod o honynt, â phethau ysbrydol ar ein myfyrdod. Clywais un o fy mhiant yn dweud ddoe am y llwybr sydd ganddo i gadw hymnau yn ei gôf—y mae'n meddwl am danynt wrth fyned i gysgu ac wrth godi. Diau genyf y byddai yn dda i ni ddilyn yr esampl hon, tuag at gofio y gwirioneddau pwysig a bregethir i ni o Sabbath i Sabbath. Os byddir, wrth fyned i'r gwely, yn ymdrechu i gofio y bregeth, tebygol yw y bydd yn lled gryno yn y côf pan y meddylir am dani yn y bore.

Dyma'r pethau, ebe Evan, ag wyf si yn gofio.

Y mae'r tri cyfarwyddyd arall wedi myned yn anghof genyf. Gofynnodd y gweinidog i Dafydd Penry, "A ydych chiwi, Dafydd, yn cofio y cyfarwyddiadau ereill?" Y mae yn ddrwg genyf, ebo Dafydd, nas gallaf ddweud dim yn ychwaneg na'r hyn a ddywedodd fy mrawd Ewan—yr oeddwn i'n hysbys yn cofio y pethau a glywsom ganddo ef. Yr wyf yn ofni nad ydych chiwi ddweud gwir, ebe y gweinidog wrth Dafydd. Beth oedd y pedwar peth a enwodd Ewan? Aeth Dafydd yn y man yn fust. O Dafydd, Dafydd, ebe y gweinidog, y mae pob peth yn profi mai cysgyr ydych chiwi yn yr odffôn. A galarus yw meddwl fod cannoedd yn treulio eu hamser yn y cyfarfodydd mor ddifater a ehwithau, er nad yw pawb o honnynt yn cysgu fel chwi.

Ar ol dweud fel hyn wrth Dafydd Penry, gofynnodd y gweinidog i Abraham William, a oedd ef yn cofio'r pethau nad oedd wedi eu henwigan Ewan. Dywedodd Abraham wrtho ei fod yn cofio y pethau ag oedd wedi myned dros gôf gan Ewan. At y cyfarwyddiadau a enwyd, dywedwyd wrthym,

5. "Mai gwaith angenrheidiol iawn i'n dwyn i gofio pregethau yn well, oedd gwrandio drosom ein hunain." Job 5, 27. Pan ag y byddo dyn yn ystyried y berthynas ag sydd rhwng y gwirionedd â'i enaid ei hun, yn gwrandio *er ei fwy ei hun*, y mae'n cael ei oleub, ei argyhoeddi, ei gynnorthwyo, ei ddyddanu, a'i wneuthur yn ddyn bywiog dros achos Crist yn y byd, trwy air y gwirionedd. Ac os bydd wedi cael llës oddiwrth y bregeth, os bydd gwirioneddau y gair wedi ateb i'w angen, nid hawdd yw i'r bregeth fyned yn anghof ganddo. Yr wyf yn fynych yn meddwl am y peth a glywais gan un o'r brodyr sydd wedi hano er ys blwyddyn yn ol—"Pan ag y byddwyf," ebe y brawd hwnw, "yn

gwrando yn gymhwysiadol, a'r gwirionedd yn *air y bywyd* i fy enaid, y mae y rhan fwyaf o lawer o'r bregeth, yr amser hwn, yn aros ar fy meddwl." Peth blin iawn genyf yw clywed rhai yn canmol pregethau, ac yn dweud eu bod wedi cael cyfarfod hyfryd y pryd a'r pryd, a'r cwbl a glywsant wedi myned dros gôf ganddynt. Nid fel hyn y mae gan gardodyn a fyddo yn myned yn newynog at dŵrs y cyfoethog—os câ efse beth i dori ei newyn, ni chlyw neb mo hono yn dweud, os bydd yn ddyn cydwybodol, "na wŷr efse ddim pa un a gafodd efse beth neu peidio"—ac nis gall ymddwyn mor ffol a chamol yr ymborth a ddygwyd iddo, heb allu dweud beth oedd yr ymborth, pa un ai bara haidd neu fara gwenith a fwytaodd efse, &c. Yr oeddwn yn gofyn i frawd yn ddiweddar, ag sydd yn arfer myned i wrando i leoedd oreill ar yr amser y byddo ei frodyr ei hun yn ymgynnull at ei gilydd i addoli Duw, pa fodd yr oedd yn gallu gwneuthur hyn. "O," ebe yntau, "cevais lawer gwell odfa yn y lle a'r lle nâ phe buaswn yn dyfod atoch chwi i'r *society*." Wedi clywed hyn, gofynais iddo am y testun ag oedd gan y gŵr dy-eithr, a phenau ei bregeth. Attebodd i mi, nad oedd efse yn cofio dim a glywodd ond y testun—cymmerodd ei destun, eb efse, allau o *Epistol cyffredinol Paul at Iwan*. Wele! wele! ebe mi wrtho, se fuasai yn llawer mwy cymhwys i chwi fod yn y *society* i gael eich dysgu, nâ myned o fan i fan fel hyn ac heb ddysgu dim. A phe buasoch yn gallu ateb yn iawn am y testun, ac yn gallu adrodd penau y bregeth, nis gallaf gredu i Dduw roddi ei wyneb i chwi, a chwithau ar yr un pryd yn tŵri y llw sobr a wnaethoch wrth gael eich derbyn yn aelod atom ni—i beidio esgeuluso eich cyd-gynnulliad eich hun.

6. "Fod yn rhaid i ni weddio am gymhorth

Du w'i ddal ar ei'at." Pan ag y byddo'n wedi bod yn erfys yn gydwobodol am gynnorthwya i'r Hefarwr, a o am gymborth i'w wrando fel teud ad dros Dduw atom, y mas meddwl ati y weddi yn tueddu i'w gadw ar ddiun yn y cyfarfod. Os byddir wedi bod yn ymbil am north i dryori y pethau a fyddom yn glywed yn ein côf, tebygol yw, y bydd i lawer iawn o'r bregeth ara ar y meddwl ddyddiau lawer. Yr wyf yn' ofni mai ychydig iawn yw y bobl ag sydd ya gweddio yn daer am gael Ysbryd Duw i'w cymhorth i gofio y pethau mawrion ag ydym yn glywed gan genadau yr Oen. Yr wyf yn am y meddwl am ddall y diweddar Mr. Grey ya gweddio ar fore dydd yr Arglwydd—am y clywyd ef yn dweud yn y dull canlynol—"O Arglwydd, dyma'r dydd a milldawyd genyt at safon dy weision allan i'r prif-ffyrdd a'r caeau, at sieni, at argyhoeddi, at oleuo, ac at wneuthur llës fragywyddol i bechsdariaid—cymhorth di ni i ddysgwyl wrthyt am fendith—ac na âd ni i ymarferyd a'r moddion heb ymbil arnat yn barad am gael llës i'w heneidiau—O, cynnorthwya ni i bregethu—cynnorthwya ni i wrando—a gwraut mor gydwobodol gyda phob rhan o'th waith, a phe byddem yn gweled yr Awm sydd amweledig gyda ni yn mhob cyfarfod—."

7. Dywedwyd wrthym yn olaf "mai buddiol iawn at gofio pregethu oeld ysgrifenu y penau wrth eu gwrandaw." Sicr yw fod miloedd o wrandaw-wyr nas gallant ysgrifenu, ond pe byddai y rhat sydd yn medru yn cadw at hys, cai y rhai nad ydynt yn gallu ysgrifenu wybod am dani drachefn ganddynt hwy. Os yw yn ddyledswydd ar genadae Crist i astudio, i ysgrifenu, i chwilio am bethau buddiol i'w gwrandaw-wyr, a rheddi eu hamser at barotol pethau i'w dweud wrthynt hwy, diau y dylai pawb wacu

Maer eu gartu i gofio y gwirioneddau a fyddont yn lefaru—ac nis gall fod dim yn fwy manteisiol at hyn na bod un yn gallu gosod i lawr ar bap yr nodiadau a fyddo gan y llefarwr ar ei destun.

Diolch i shwâ Evan ac Abraham am ateb mor gynnir am y cyfarwyddiadau. Yr wyf yn goheithio y bydd y pethau hyn o lês i lawer. Dim ch yn agosach yma, ebe y gweinidog wrth Mr. West, i ni gael gwybod georych am y buddiadau ag sydd o ymdrech y cofio pregethau. Ddech Mr. West i ymyl y gadair ag oedd o flaen y gulpu, a rhoddodd atebion heddlonawl yn nghylch y mater hwn:

1. Clywsom georych, ebe Mr. West, fod yr hwn sydd yn cofio y pethau ag y mae'n wrando, yr hyn ag y mae'n wled mewn Myfrau Adailadol, i'w lloer ganddo bob amser, Psa. 119, 105. Bydded yr amgylchiadau mor ddwyn ag y byddent, yr olwg ar bethau mor ddywyll ag y byddent, yr cyfyngderau mor drwm ag y gallont i fed, y mae y gŵr hwn â'i ganwyll ganddo i'w dywys yn mhob amgylchiad. Nid oes dim yn rhyfedd fod rhai yn myned yn mlaen yn hwylus, gan eu bod yn gweithur cyfrif mawr o'r gair, yn ymdrech gofio yr hyn y mae cenadau Daw yn ddwendwrthyn, &c.

2. Fod ganddo ymborth parâus, Ioan 6, 27. I'r oedd un unwaith yn dwend ei fod yn ymdrech yn hynod ar y Sabbath i drysori y pregethau, a phethau buddiol ereill yn ei gôf, fel ag Ibasai ganddo ymborth i'w enaid dros y ehwe' iwrnod ag oedd yn canlyn; ac er mor egniol byf, eb efe, y mae yn myned yn brin arnaf, feithiau, yn mhell cyn y delo'r ail Sabbath. Ier yw na wŷr y bobl sydd yn anghofio'r cwbl dim am y gwleddoedd ag y mae rhai yn gael mewn myfyrdodau duwiol.

3. Y mae y gŵr hwn â'i glëddyf ar ei glun,

yn barod bob amser i wrthsefyll ei elynion, Eph. 6, 17. Gellir dweud am y bobl ag sydd yn gwneuthur defnydd o'r pethau a glywant gan weision Crist, eu bod yn debyg i'r adeiladwyr yn nyddiau Nehemia—"yr oedd pob un wedi gwregysu ei gleddyf ar ei glân, ac yn adeilada." Y mae'n barod i wrthsefyll holl-dematasiynas y gelyn yn debyg i'r dall, ag y gorchfygodd Mab Duw y gelyn, Mat. 4, 7.

4. *Fod ganddo gyfaint yn mhob gofid, Psal. 119, 2.* Yn y gair y mae plant Duw, yn mhob oes, wedi cael dyddanwch yn wyneb eu holl orthrymderau. Y mae'n hysod ofidus ar lawer eleni, ond fe fyddal yn waeth ar rai oni byddai fod y Bibl yn dal eu hysbryd i fynu. Yr oedd un o blant y gofid yn dweud yn ddiweddar yn y modd hwn;—"Y mae fy nghyfaint (y Bibl) yn dweud tri pheth wrthyf, eb efe, i'm cysuro yn ngwyneb holl galedu y fwyddyn hon—1. Nad yw'r caledu hyn ddim i'w gymharu â'r hyn ag wyf wedi haeddu. 2. Fod llawer ag oedd yn fwy duwiol na myfi wedi cyfarfod â mwy o galedi. Nid wyf fi, hyd yn hyn, yn gwybod dim beth yw cael fy hirdynnu, &c. dros achos Iesu. 3. Fod y duwiolion yn ymadael â'u gofidiau gyd yn awr marwolaeth.

Irlwyddiant a fyddo ar lafur cenadau Crist trwy'r byd—ymdrechiadau eu gwratrdaw-wyr gofio a defnyddio yr hyn a glywont gandd, it.

*Pant-têg.*

D. D.

DIWEDD.

---

*Caerfyrddin, argraffwyd gan J. Evans.*



# Trysorfa y Tlodion:

(RHIF. X.—Pris Ceiniog:)

YM CYNNWYS

ARDDANGOSIAD

FUDDIOLDEB CODI YN FORE

HANES BYR

AM Y

**TEULU CYSURUS.**

---

♦♦ Bydd y rhifyn nesaf yn cynnwys GWPPAN.  
AID O WIN I DEULU YR ADFYD.

---

**Caerfyrddin:**

*Argraffwyd gan J. Evans, Heol-y-Farchnad isaf.*

Lle gellir cael y Rhifynau blaenorol.

1818.

## SYLWADAU AGORIADOL.



Esa. 55, 1. Haera rhai mai dynion wedi derbyn anian newydd i sychedu am bethau ysbrydol yw y rhai sydd yn cael eu gwahodd yma at fwrdd yr efengyl; ond eglur yw mai camwynied y maent—canys 1. Fe ddywedir yn yr ail adnod am y rhai sydd a *sycbed arnynt*, eu-bod “*yn gwario eu harian am yr byn nid ydyw fara.*” Nid yw'r enaid gafodd anian rasol yn gwneuthur hyn. Eglur yw, gan hynny, mai *sycbed* am ddedwyddwch dacarol a darfodedig yw yr hyn a sonir am dano yma. Y mae llawer yn ymofyn ac yn sychedu am ddedwyddwch mewn pethau nas gallant foddloni a digopi y meddwl. 2. Y mae gwahoddiad yn y drydedd adnod i'r rhai hyn sydd a *sycbed arnynt* i ddyfod at Dduw, gan addaw y bydd byw eu henaid, ac y gwnai Duw gyfammod tragywyddol â hwynt. Pe buasent wedi cael eu hail-eni, cymhwys fussai dweud, *Y mac'ch henaid, yn fyw, ac yr wyf wedi gwneuthur cyfammod tragywyddol â chwî.* Os dynion heb räs yw y rhai sychedig yma, pa lës yw'r gwahoddiad iddynt hwy? Y mae y gwahoddiad yn ateb yr un dyben iddynt hwy ag oedd fod Mab Duw yn galw ar y rhai *dall* a *noeth* i brynu ganddo ef. Dat. 3, 17, 18.

Hyfryd yw cael dweud wrth rai wedi eu bywâu trwy räs, a'u gwahodd at wleddoedd yr efengyl; ond nid iddynt hwy yn unig y mae gwahoddiad yr efengyl yn perthyn.—Y mae dyledswydd arnom i alw pawb at Grist—Y mae cenadwri yr efengyl yn perthyn i bechaduriaid fel pechaduriaid dall, euog, aflan, &c. Oni buasai fod yr efengyl ya gwahodd pawb, fod aberth Crist yn ddigon i bawb, a bod rhwymau ar bob un i'w dderbyn fel pe na byddai y genadwri wedi eu hanfon at neb arall, ond yn dweud wrth y pechadur hwnw, dy Grist, dy Geidwad, dy Gyfryngwr *di* yw, ni byddai gofid ar neb yn y farn am wrthod Crist.

## ARDDANGOSIAD, &c.

**D**YGWYDDODD i Mr. *Gofalus* ddyfod i fy *William Diog* am 8 o'r gloch yn y bore er's ychydig amser yn ol, a deallodd trwy ofyn, pa le'r oedd, i'r gwas, ei fod ef heb godi o'r gwely. Bu dros awr o amser drachefn cyn i Mr. *Diog* dyfod atto. Pan ag y daeth at Mr. *Gofalus*, dywedodd wrtho, "Bore da i chwi, fy nghymydog." Y mae y rhan fwyaf o'r bore hwn wedi myned heibio, ebe ei gyfaill wrtho. Yr wyf yn gobeithio nad ydych yn arfer cysgu bob amser byd 8 neu 9 o'r gloch. Cael cysgu ychydig y bore fel hyn, ebe *Diog* wrtho, yw'r hyfrydwch penaf ag wyf fi yn gael yn y byd gofidus hwn. Y mae llawer fel chwithau, ebe *Gofalus*, yn meddwl mai peth hyfryd iawn yw cael gorwedd yn y bore—Mi fum fy hun o'r un meddwl â chwi am yr arferiad hyn; ond yr wyf yn awr er ys blyneddau yn arfer codi yn fore bob amser os byddaf yn iach. Pa beth, ebe Mr. *Diog*, a'ch tueddodd i wneuthur hyn? Gallaf enwi pump o bethau i fod yn atebion i'ch gosyniad caredig chwi, y rhai a'm galluogodd, trwy gymhorth Duw, i roddi heibio yr arfer o gysgu yn hir y bore:—

1. *Deallais fod fy amgylchiadau yn y byd yn galw am i mi godi yn fore.* Gan fod llawer o weision a gweithwyr genyf i lafurio y fferm, ac amrywiol o bethau creill i ofalu am danynt, gwelais mai i ddyrswch a thlodi y buaswn yn myned with gysgu yn hir y bore. Wedi i mi arfer bod i fynu yn fore i edrych dros bethau a threfnu gwaith y dydd, yr oedd pob peth yn myned yn mlaen yn amserol, a'r gwaith yn dyfod i ben yn well o lawer nag o'r blaen. Fy arfer o'r blaen oedd dweud fod y bai ar yr hwn oedd yn feistr ar fy nhir, am fod fy ardreth yn rhy uchel, ac yr oeddwn yn gosod y bai am fy aflwyddiant ar lawer o bethau creill, heb ystyried fod rhan

fawr, os nid y rhan fwyaf, o hono arnaf fi fy hun am dreulio y bore mewn cysgadrwydd.

Yr wyf yn gweled yn awr nad oes dim yn bosibl iddynion, yn enwedig sfermwyr, ddyfod yn mlaen yn gysurus, a gallu talu pob gofynion heb godi yn fore. Ni ystyrlais ddim hyd yn ddiweddar fod cymmaint yn yr hen ddiareb—"Ni cholodd y boreuwr erioed o'r dydd." Bydded galwad dyn beth a fyddo, a'i amgychiadau bydol fel ag y byddont, nid oes dim yn well iddo tuag at fyw yn gysurus yn y byd nâ chodi yn fore. A phe nâ byddai gofalon y byd yn gofyn am godi yn fore, y mae digon o bethau ereill yn galw am hyn—megis,

2. *Fod codi yn fore yn lleiol i iechyd dynion.*

Y mae cysgu yn hir y bore yn niweidio rhediad y gwaed, pryddâu yr ysbrydoedd, ac yn dystyriwio y blys at ymborth. Yr oeddwn i wrth gysgu yn hir y bore yn teimlo fy hun yn farwaidd iawn at bob peth pan y byddwn yn codi, ac nid oeddwn byth yn dyfod i'm lle nes y byddai tua hanner y dydd. A ydych chiwi Mr. *Diog* yn gwybod dim am hyn? Ni feddyliais i ddim, ebe *Diog*, mai cysgu llawer oedd yr achos fy mod yn teimlo fy ysbryd yn isel am amser wedi dyfod o'r gwely, fy mod yn methu bwyta dim ond ychydig bach yn amser y boreu-bryd, ac yn methu teimlo awydd i wneuthur dim hyd oni byddo y rhan fwyaf o'r dydd wedi darfod. Ar ol clywed hyn ymdrechodd Mr. *Diog*, i ddyfod o'i wely yn fore, a dywedodd wrth Mr. *Gofalus* yn mhen amser ar ol hyn, ei fod ef wrth godi yn fore yn teimlo ei hun yn fwy bywiog, yn bwyta yn well, ac yn cael ei hun yn fwy awyddus at waith.

Y mae'n dda genyf eich clywed yn dweud fel byn, ebe *Gofalus* wrtho; yr wyf yn gobeithio y gwnewch eich goreu i berswadio eich brawd *Nathanael* i roddi heibio yr arfer o gysgu yn hir y bore, ac y byddwch o lés i lawer ereill.

3. *Tueddwyd fi i godi yn fore trwy ystyried*

fod y dynion mwyaf defnyddiol yn mhob oes yn arfer gwneuthur hyn. Rhai yn arfer dyfod o'u gwelyau yn fore oedd Abraham, Jacob, Moses, Joshua, Samuel, Job, ac ereill o'r bobl a fu yn enwog dros Dduw dan yr Hên Destament. Y mae genym ddigon o le i gasglu fod Mab Duw a'r apostolion, a'r rhai fu yn ddefnyddiol dros achos Crist yn oesoedd cyntaf Cristionogaeth yn ddynion ag oedd yn codi yn fore at eu gwaith.

Hysbysir i ni trwy hanesion cywyr fod Dr Owen, Dr. Doddridge, a'r duwiolion ereill a ysgrifennodd lawer er adeiladaeth eglwysi Crist yn arfer codi yn gynnar. Ni wna neb ag sydd yn gyfarwydd yn hanesion y Bibl, a'r buchdraethodau ag sydd genym er coffa am y rhai fu yn llafurus dros achos Iesu, ddweud dim yn erbyn yr hyn a soniais am Abraham, &c.—Yr oedd un ychydig amser yn ol yn gofyn i mi, a oeddwn i yn gwybod pa fodd yr oedd Poole, Henry, Doddridge, ac ereill, wedi cael amser i ysgrifenu cymmaint o waith—yr wyf fi, meddai y gŵr hwn wrthyf, yn cael cymmaint o waith a allaf wneuthur i barotoi dwy bregeth erbyn pob Sabboth. Yr ateb a gafodd genyf, oedd, fod y gwŷr hyn yn codi yn foreuach nag y mae efe. Yr wyf fi, ebe yntau, yn codi rhwng saith ac wyth bob amser. Yr oeddynt hwy, ebe minnau, yn darllen ac yn ysgrifenu llawer cyn saith o'r gloch bob bore.

4. Cefais fy mherswadio i godi yn fore wrth sylwi fod y creaduriaid direswm yn deffroi yn fore. Pan ag yr oeddwn yn arfer cysgu yn hir, yr oeddwn yn fynych yn cael gofid pan ag yr aethwn allan i edrych am y fferm, wrth weled yr anifeiliaid, a phob creaduriaid ag oedd genyf, yn ymddangos yn llon, fel rhai wedi deffroi oriau o fy mlaen i, a minnau yn hanner marw wrth gysgu gormod. Ac yr wyf yn cofio yn neillduol am un tro, pan yn gorwedd yn fy ngwely, y cefais fy argyhoeddi yn llym trwy glywed yr adar yn molianu Duw yn eu dull hwy, ac ys-

tyried fy mod i ag oedd yn greadar rhesymol yn ddystaw.

Ac wrth feddwl fod y morgryg yn ddiwyd hynod yn yr hâf i barotoi erbyn y gauaf, meddyliais fod sodi yn fore yn angenrheidiol i mianau, ac yn rhan fawr o'm hâf i fod yn barod erbyn y dyddiau blin. Beth ydych chiwi yn feddwl am hyn, Mr. Diog? Nid oes genyf fi, fy nghymmydog, ddim i ddweud ond fod y creaduriaid direswm yn fwy diwyd yn eu tymhor nag wyf fi wedi bod hyd yn hyn. Ac os ydynt hwy mor ddiwyd, ac heb un byd ar ol hwn o'u blaen, pa mor ddiwyd y dylwn i fod wrth y gorchwyl o lafurio am y bywyd a bery i fywyd tragywyddol.

5. Y peth penaf ag sydd genyf i ddweud wrthyhych am yr hyn a'm tueddodd i godi yn fore, yw, i mi ystyried fod y bore yn amser manteisiel iawn at addoli Duw, a chael lles i'r enaid. Y mae genyf lawer o bethau i ddweud wrthyhych yn nghylch hyn, fy nghymmydog—ond cyn enwi dim yn neillduol, dywedaf wrthyhych pa fodd yr oedd arnaf fi fy hun pan yn arfer cysgu yn hir y bore; yr oeddwn yn hynod wrthgiledig yn fy ysbyrd, yn farwaidd iawn, ac yn hynod ddilewyrch wrth gyflawni y ddyledswydd deuluaidd yn y bore; ac yr wyf yn ofni mai y'ngwlad y gwrthgiliad y mae'r rhan fwyaf o'r crefyddwyr ag sydd yn euog o dreulio y bore yn y gwely. Wele, wele, ebe Mr. Diog, y mae etch cyfaddefiad yn peri i mi farnu mai cysgu yn hir yw'r achos fy mod ianau yn methu cael fy hun mor wresog a bywiog gyda chrefydd yn awr ag y bum gynt. Rhoddwch wybod i mi, Mr. Gofalus, am rai o'r manteision ag sydd i gynnuddu mewn grâs wrth dreulio'r bore yn ngwaith Duw. Wrth godi yn fore, ebe Gofalus, y mae genym amser, I. *At ddarlhen.* Yr oedd rhai o'r hên dduwiolion yn arfer darlhen ychydig bob bore. Dywedir wrthyhych am y diweddar Milwriad Gardiner, pan y byddai galwad arno i fod gyda'r milwyr am bed-

war o'r gloch yn y bore, y byddai yn codi am ddau, i gael treulio'r amser arferol, sef dwy awr bob bore, i ddarllen gair Duw ac i weddio. Er nas gall llawer roddi ond ychydig o amser bob dydd i ddarllen, er hynny, nid yw rhoddi hanner awr at hyn bob bore ond peth all pob un ei wneuthur, heb wneuthur niwaid i'w amgylchiadau. Nis gwyr neb ond y rhaisydd yn arfer darllen ychydig bob bore, am y llesâad sydd o wneuthur hyn. Gofidus yw meddwl fod crefyddwyr yr oes mor ddifater am astudio rhan o air yr Arglwydd bob dydd. 2. *At weddio yn y dirgel.* Nid oes dim yn well cyn dechreu ar orachwyllion y byd na threulio ychydig o amser mewn gweddi, i roddi ein gofal i Dduw, ac i ymbil am gymhorth i dreulio y diwrnod yn ofn Duw. Ofni yr wyf nad yw llawer yn rhoddi dim tair munud bob bore i alw ar enw'r Arglwydd, eithr yn byw ar ddweud yr un peth o flaen Duw bob amser, ac yn hollol ddifater am gael ei wyneb. Y maecysgafnder, difaterwch, a diosfalwch llawer yn y dydd, yn profi na buont yn gywir yn galw am nerth i fyw yn agos at Dduw. Y mae pob un ag sydd yn ersyn yn iawn am gymhorth i roddi er clod i enw'r Arglwydd ar hyd y dydd, yn cael ei nerthu i wyllo. 3. *At fyfyrto.* Cymhwys iawn ar fore'r Sabbath yw myfyrto y'nghylch adgyfodiad Crist. Ni bydd yr hwn ag sydd yn caru myfyrto y'ngwaith Duw ddim heb ddigon o destunau ar gyfer pob bore arall yn yr wythnos. Wedi aros ychydig yn yr ystafell i fyfyrto yn ngair Duw, huddiol yw myned allan i edrych ar waith y greadigaeth, ar yr haul yn codi, ac ar y pethau mawrion ereill ag sydd yn mynegi gogoniant Duw. A hynod addas yn y bore yw meddwl am y bore y byddwn yn codi o wely'r bedd, i sefyll o flaen Duw yn y farn. Bore sobt oedd hww, pan dysgynodd barn Duw ar Sodoma; ond nid oedd hwn nac un bore arall ag y gwnaethwyd pethau mawrion arno ddim at fore

y dydd olaf. Yr wyf fi, ebe *Gofalus*, yn cael y fraint ar amserau, i holi rhai cwestiynau sobr i fy enaid wrth godi o'r gwely; megis, a gâf ddeffro yn y dydd diweddaf yn ddibeehod, a byddaf yn gysurus yn y dydd hwnw, ai yn mhlith pobl Dduw y byddaf y bore hwnw, &c.?—4. *At dala diolch i'r Arglwydd.* Nis gall yr enaid ystyriol lai nâ diolch i Dduw am yr esmwythder a gafodd y nôs aeth heibio, am iddo gael hân gysurus, am iddo gael ei gadw rhag i ddim wneuthur niwed iddo, ac am ei fod yn cael agor ei lygaid ar dir y byw; neu os bydd wedi traelio'r nôs yn effro ac mewn poen gan afiechyd, y mae yn barod i ddiolch am nad yw yn y wlad lle mae y trigolion mewn eitha poenau, ac heb obaith i'r nôs fyned heibio byth.

Hyderus wyf eich bod erbyn hyn, Mr. *Diog*, yn gweled nad oes dim llwyddo y'mhethau'r byd, nac mewn crefydd, heb godi yn fore. Nid oes dim eisiau i chwi, ebe *Diog*, ddweud dim yn ychwaneg am hyn—Euog, euog wyf. *Cyn yr eloch ymaith* oddiyma, rhoddwch wybod i mi pa fodd y mae i mi gael y dydd ar yr asfer lygredig o gysgu yn hir y bore. Dau beth sydd genyf i ddweud wrthy ch am hyn:—1. Gan mai am wyth yr ydych yn codi yn awr, dechreuwch yr wythnos nesaf i godi am 15 mynud cyn wyth, a'r ail wythnos am hauer awr ar ol saith, a'r trydydd am 15 mynud wedi saith, a'r bedwaredd wythnot am saith; ac yn y ffordd hon chwi fyddwch cyn hir yn gallu codi am bump o'r gloch bob bore. Dywedwch wrth ryw gyfaill *gofalus* am eich deffroi mewn pryd. 2. Rhoddwch y rhan flaenaf o'ch hamser bob ddydd i lafurio am wybodaeth, i weddio, &c. Ac wrth wneuthur hyn fe fydd yr hyfrydwch a fyddwch yn gael yn hyn yn eich tueddu i godi yn fore at waith yr Arglwydd. Diolch i chwi, fy nghymmydog, am eich cynghorion buddiol. Y mae genyf un peth etto i chwi cyn myned ymaith—Yr ydym heb wedd-



io—**a** wnewch fod yn enau agored drosoam at Dduw? Ynagalwyd am y gwasanaeth-ddynion a phawb o'r teulu at eu gilydd; ond yr oedd wedi myned yn rhy ddiweddar i'w cael at eu gilydd—Nid oedd neb ond Sara y wraig a dau o'r plant mewn cyfle yn awri ddyfod i'r ystafell. Ar ol gweddio, ymadawodd Mr. *Gofalus*, a dymunodd ar Mr. *Diog*, i syfyrio ar Diar. 13, 4. hyd nes y cyfarfyddent drachefn â'u gilydd.

---

## HANES BYR

AM Y

### TEULU CYSURUS.

**Y**r oedd gŵr duwiol iawn o'r enw *Tomas Dedwydd*, flyneddau yn ol, yn byw yn swydd *Cardigion*. Yr oedd pawb o'i gymmydogion yn dweud yn barchus am dano—yr oedd efe yn hynod ofalus am gadw tangnefedd ar ei draed yn ei deulu—ac yr oedd pawb yn ei gymmydog-aeth yn dwend nad oedd un teulu yn yr holl ardaloedd hyny, yn byw mor gysurus ag oedd *Tomas* a'i bobl. Y mae'r hanes a gefais gan *Arthur Picton*, yn dangos y byddai yn dda i lawer wybod am ei ddull yn llywodraethu ei deulu. Dywed *Picton* fod *Tomas* yn ganmoladwy iawn y'ng hylch gofal am ei deulu.—Gallaf enwi chwech o bethau, ebe *Picton*, ag oedd yn tueddu i wneuthur ei deulu ef yn gysurus:—1. Yr oedd *Tomas* yn cadw y llywodraeth yn ei law ei hun. Yr oedd pawb ag oedd dan ei ofal yn gorsod ufuddâu i'w ef—Nid y mab na'r gwas, fel ag y mae mewn rhai teuluoedd, oedd yn llywodraethu ei deulu ef. Ac yr oedd cymmaint o synwyr, o ostyngeddrwydd, a gofal am gadw at ei rhwymau priodasol yn perthyn i *Ada* ei wraig, fel na wnai hi ddim ag oedd o bwys heb ofyn cenad i *Tomas*, a chael cyfarwyddyd ganddo i fyned yn mlaen—ond er fod y gŵr hwn yn cadw llywodraeth yn ei law ei hun, nid oedd yn

myned yn mlaen â'i oruchwylicion heb ymgynghori âg *Ada* yn eu cylch. Can fod y plant a'r gwasanaethwyr yn gwneuthur fel ag yr oedd-ynt yn cael eu eyfarwyddo gan *Tomas*, yr oedd, cysur a llawenydd yn gartrefu yn ei drigfan ef.

2. Yr oedd pawb ag oedd yn ei deulu yn cael eu hegwyddori ganddo y'ngair y gwirionedd. Fe fyddai yn cadw ysgol yn ei dŷ ddwy waith bob wythnos yn y gauaf, er lles i'w gymmydogion yn gystal a'i bobl ei hun. Yr oedd efe yn gwneuthur daioni mawr i'w gyd-ddynion yn y llwybr hwn. Ac ar nosweithiau ereill, ni chai y plant a'i wasanaeth-ddynion ddim eistedd wrth y tân yn segur, i adrodd *'storiau* a son am bethau diles.—Yr oeddynt yn dysgu darllen, yn trysori pennodau o air *Dau* yn eu côf, ac yn parotoi erbyn y Sabbath i adrodd eu *catecismau*, &c. Blin yw meddwl mai arferiad cannoedd o deuluoedd yn hir nês y gauaf yw ymddyddan â'u gilydd y'ngylch *canwyllau cyrff*, *bwgunod*, *ysbrydion dynion*, a phethau ereill ag sydd yn perthyn i gred *Mr. Ofergoelus*. Yr oedd *Tomas* yn rhoddi Testamentau Cymraeg i'r gwasanaethwyr am eu bod yn ymdrechu i ddyngu darllen, &c. Wrth wneuthur hyn, yr oedd heddwch a buddlonrwydd yn ymddangos ar wynebau pawb o'i bobl.

3. Yr oedd *Tomas* yn peri i bawb o'i bobl ymddwyn yn weddaidd, ac adrodd adnodau pan ag y byddai yn cynnal addoliad yn ei dŷ yr hwyr a'r bore. Bum echdoe yn nhŷ *Simon Barber*—Yr oedd *Simon* yn darllen pennod cyn myned i weddi yn y bore—y wraig yn eistedd wrth y tân, ac heb ddybennu bwyta—a'r ail forwyn yn golchi y llestri. Dyma yr annhrefn ag oedd byd nes aeth *Simon* ar ei liniau i weddio. Yr wyf yn ofni fod llawer mor ddifater a *Simon*, yn nghylch hyn. Gofynais i *Simon*, a oedd efe ddim yn annog ei bobli adrodd adnodau yn yr addoliad teuluaid. Nac wyf fi, ebe *Simon*—nid oes ond un o'r gwasanaethwyr yn medru

darllen—y mae y tair morwyn a dau o'r gweision yn anwybodus, ac yn hollol ddiymgais am ddyngu darllen. *Un* o'r gwasanaethwyr—*un* o honynt yn medru darllen, ebe mi wrth *Simon*—dan ofal pwy y mae'r lleill? Myfi yw eu meistr, ebe *Simon*. Wele, ebe minnau, eich difaterwch a'ch diogi chwi yw'r achos na byddai pob gwas a phob morwyn ag sydd genych yn gallu darllen, gan eu bod oll ond un yn eich tŷ er ys tair mlynedd. Byddai yn dda genyf i chwi ganlyn esampl *Tomas Dedwydd*—y mae pawb yn rhoddi heibio eu gwaith pan ag y byddo efe yn dechreu darllen—mae pob un yn adrodd ei adnod y bore a'r hwyr—a phawb o honynt yn ymddwyn yn weddaidd tra byddo yn galw ar enw'r Arglwydd.

4. Yr oedd *Tomas* yn caniatáu i'w bobl fyned i wrando lle y byddont hwy yn ewyllysio myned. Yr oedd efe yn hyn yn groes iawn i *John Rhagfarnllyd*—Mae'n dyfeisio pob ffordd a allo ddyfod i wybod am dani, er nad yw yn chwennych i neb wybod am hyn, i gael pawb gydâg ef i wrando; ond nid yw trwy hyn yn gweuthur lles i'w frodyr ei hun, oblegid y mae'r gwasanaethwyr yn deall mai *zél bleidiol* ac nid cariad at achos Crist sydd yn ei gymhell i wneuthur hyn. Y mae fod *Tomas Dedwydd* yn gadael iddynt fyned lle y byddont yn dewis, yn peri iddynt gredu mai ei ofal penaf ef yw am iddynt gael adnabod Crist a'u dwyn i fod yn weision i Dduw. Er nad yw *Tomas* yn eu rhwymo i ddyfod i'r addoldŷ ag y mae efe yn arfer myned iddo, y mae yn rhaid iddynt fyned i ryw le ag y byddo addoliad i Dduw ynddo. Y mae *Tomas* yn y ffordd hyn yn dwyn ei bobl i'w garu yn fawr, ac y mae hyn yn tueddu at wneuthur ei deulu yn ddedwydd.

5. Yr oedd *Tomas* yn ymdrechu i osod terfyniad yn ddioed ar bob ymryson a ddygwyddai i fod rhwng y plant neu'r gwasanaeth-ddynion. Mor gynted ag y delai i wybod fod rhyw ddadl yn bod

rhwag rhai o'r bobl yn ei dŷ, galwai hwynt i neillduol, i gael gwybod am yr achos o'r ymraeth, ac i ymddyddan â hwynt y'ng hylch y llwyb i derfynu y ddadl; a chyn siarad i'm yn neillduol, âi i weddi drostynt. Clywais rai'n dweud fod ei weddi yn aml yn gosod diwedd i'r amryson, heb achos iddo ddweud dim wrthynt hwy. Yr oedd cymmaint o ofn cael eu galw i leu neilldu fel hyn, ar ei blant a'r gweision, fel ag yr oeddynt yn ofalus i fyw mewn heddwch â'u gilydd. Ni oddefai iddynt ddifrio eu gilydd, i osod enwau ar naill y llall, &c. A thrwy hyn yr oedd ei deulu yn gysurus bob amser.

6. Yr oedd yn ymddwn mor garuaidd a serchog tuag at ei bobl, fel nas gallasant lai na'i garu, ac ymdrechgu i'w foddioni yn mhob peth. Pao ag y del *Tomas* atom, ebe un o'i weision wrthyf, y mae'n siarad â ni mor serchog a phe byddai yn was ei hun, ac nid fel Mr. *Ucheldrem*, yr hwn sydd yn edrych arno ei hun yn rhy dda i siarad llawer â'i wasanaeth-bobl. Mae *Jacob* fy mrawd, yn was gyd â Mr. *Ucheldrem*—clywais ef yn dweud fod llawer o wahaniaeth rhwng hwn a *William Ostyngedig*, ag oedd efe gyd â ef y llynedd. Y mae ymddygiad *Tomas* mor serchog bob amser, fel ag y mae pawb o honom yn cael ein rhwymo i'w barchu. Nid yw'r hyn a wyddoch chi, Mr. *Picton*, ac ereill, am *Tomas*, ddim at ŵyr y rhai ag sydd yn byw yn ei dŷ ef. Un o'r pethau penaf ag sydd yn gwneuthur ei deulu yn gysurus yw fod pob peth yn myned yn mlaen yn *drefnus*—yr ydym yn cael bwyd yn amserol—yn rhoddi ein gwaith beibio'n amserol—a'r gwasanaeth prydawnol yn amserol—yn myned i gysgu yn amserol—ac yn codi yn amserol, fel ag y byddo cyfle i addoli Duw y bore fel yr hwyr goym. O na byddai teuluoedd y byd yn debyg i deulu cysurus Mr. *Dedwydd*!

*Pant-tég.*

D. D.

DIWEDD.

# Trysorfa y Tlodion:

(RHIF. XI.—Pris Cciniog:)

YM CYNWYS

## CWPA NAID O WIN

DEULU'R ADFYD.

---

• Bydd y rhifyn nesaf yn cynnwys HANES  
BYWIR AM DDAU FRAWD O'R ENWAU TANG  
NEFYDDUS AC YMDRECHUS.

---

Caerfyrddin:

Argraffwyd gan J. Evans, Heol-y-Farchnad isaf.

Dim gellir cael y Rhifynau blaenorol.

---

1818.

## SYLWADAU AGORIADOL.

---

Luc 15, 11. Y mae'r tair dammeg ag sydd yn y bennod hon wedi cael eu llesaru i amddiffya gwaith Crist yn myned at y publicanod a'r pechaduriaid, i wrthwynebu siarad diystyrlyd y Phariseaid am dano ef, ac i osod allan barod-rwydd Duw i dosturio wrth bechaduriaid. Gwel pob un a ystyrio yr achos o' llesaru y ddammeg hon, mai yr ysgrifenyddion a'r Phariseaid a' olygir wrth y *mab hynaf*, a'r publicanod a'r pechaduriaid wrth y *mab ieuangaf*.

Matth. 6, 34. Y *gofal* a waherddir yma yn yr hyn a nodir allan yn adnod 25. Dylid gochelyd gofalon poenus ac anghymmedrol. Gall fod *drwg* neu ofidiau pob diwrnod yn ddigon am y diwrnod hwnaw; ni ddylid bod mor flol a 'chwanegu gofidiau diwrnod arall atynt.

## CWPA NAID O WIN, &c.

---

**F**E fu yn amser cysurus ar drigolion. Prydain  
Sawr flynyddau a aeth heibio; ond amser gofidus  
yw yma'n awr. Y mae'r adfyd ag sydd yn llenwi  
y wlad yn galw yn uchel am i ni ystyried y wlad  
eu, a phwy a'i hordeiniodd. Bu cyfarfod hyfryd  
yn cael ei gynnal echdoe yn nyffryn *Ystyriaeth*,  
rhwng *Enoc Ofidus* a'i ewythr, *Mr. Boddlongar*.  
Cyfarfuasant i ymddyddan yn ngbylch sefyllfa  
preswylwyr y deyrnas hon, yn y dyddiau blin-  
ion hyn. Gofynnodd *Mr. Boddlongar* i *Enoc*,  
beth oedd ei olwg ar bethau yn awr?—Ac ys-  
tyried pob peth, ebe *Enoc*, nid wyf yn meddwl  
iddi fod yn galetach erioed nag yw yn y dyddiau  
hyn.—Onid gofidus yw fod dyled y goron mor  
fawr,—fod y trethi mor uchel,—fod llawer yn  
methu cael arian i ateb i'r gofynion,—fod cym-  
maint yn y deyrnas yn ffaelw cael gwaith,—a  
bod cannoedd yn treulio dau ddiwrnod, yn ty-  
nych, o bob wythnos heb ymborth? Yr wyf yn  
ofni, ebe *Boddlongar*, eich bod chwi am osod y  
bai i gyd ar y trethi, &c. Fe fuasai mwy gan  
fioedd ar gyfer yr amseroedd gofidus hyn, pe  
buasant yn gofalu am bethau yn well, pan ag yr  
oedd cyfle ganddynt. Yn y blyneddau cysurus  
a gawsom, daeth pedwar o foneddigion ag oedd  
yn perthyn yn agos i *Mr. Peccatum* i ynweled  
â ni, y rhai a wnaethant niwed annhraethadwy  
i'r deyrnas hon. Gwyr pawb mai *Mr. Moethus*,  
*Mr. Balch*, *Mr. Trachwantus* am gyfoeth, a *Mr.*  
*Caru byw* yn segur oeddynt. Onid y tylwyth  
hyn ddysgodd trigolion y wlad hon i wario eu  
harian ar bethau diles, afreidiol, ac anhbar,

thynasol? onid hwynt-hwy fu yn offerynof i duedda llawer i fyw uwchlaw a allasant; ereill i feddwi a godinebu; rhai ereill i gribddeilio, a thynu rhai i fod yn feichiau drostynt am arian, a'u gadael byth heb dalu iddynt; ereill i roddi heibio eu crefftau i gymmeryd sfermau, heb fodd ganddynt i sefyll i fynu pan y daeth tro ar bethau; a rhai ereill i fyw mor afradlon a phe na buasai yn bosibl i bethau fyned yn ol byth mwyach? Os goddefwch i mi ddweud y gwir wrthy ch, chwi fuoch chwi, *Enoc* bach, mor fol a meddwl y buasech yn yr cyfoethog iawn cyn hyn,—rhoddasoch heibio eich crefft o fod yn *deiliwr*,—cymmerasoch y sferm *Lettyllawen*,—mawr oedd eich rhwysg am ychydig,—yr ydych yn awr, etto, yn gorfod ennill eich bywioliath wrth fod yn *deiliwr*, a'r trugain pent ag oedd genych ar lŷg gydâ Tomas Harri wedi eu gwario genych. Ond nid ydych wedi bod yn ffolach nâ llawer ereill yn y blyneddau a aeth heibio. Yr wyf yn golygu fod pedwar math o bobl agsydd yn teilyngu ein sylw, ac yn galw am i ni wylo gydâ hwynt:—1. Y rhai ag oedd yn byw yn gynnil yn yr amser goreu a gawsom, ac, er hyny, yn methu cael cyfle i drysori dim erbyn yr amser blin hwn. Gwyddom am rai nad oedd yn gallu gwneuthur dim ond ateb i'r ardreth, a thalau ereill ag oedd arnynt, yn y blyneddau mwyaf llwyddiannus a fu arnom,—a phan y daeth tro ar bethau yn y deyrnas, a meistriaid tiroedd llawer o'r bobl hyn yn gwrthod rhoddi y lleoedd iddynt am ardreth rhesymol, y mae cannoedd o honynt wedi eu dwyn i amgylchiadau cyfyng ac anghysurus iawn. Pe byddai pawb o'r meistriaid a'r *stewardiaid* yn gwneuthur i ereill fel ag y dymanent i ereill gwneuthur iddynt hwy, ni adewent y bobl hyn i ladd eu hunain â goffid yn nghylch eu bywioliath. Y



mae, parch yn ddyledus i lawer am en bod wedi ystyried sefyllfa eu deiliaid yn amserol. 2. Y rhai ag oedd ag arian ganddynt, ac wedi rhoddi eu benthyg i rai nad y'nt yn meddwl eu talu yn ol byth. Y mae y cyfnewidiad a gymmerodd le yn amgylchiadau y wlad hon wedi analluogi llawer i dalu pawb ag oedd yn eu gofyn,—ond am hawb ag sydd yn gofidio am hyn, gellir bod yn sicr y bydd iddynt gofio am y rhai ag y maent yn eu dyled mor gynted ag y byddont yn gallu gwneuthur hyn. Blin yw meddwl am y cannoedd a'r miloedd o bannau ag y mae rhai wedi gael gan y naill a'r llall, ac heb feddwl eu talu yn ol byth. Gwyddom am rai ag sydd yn gorfod cael cymhorth gan y plwyf, o herwydd eu bod wedi rhoddi eu harian i gyd i ddynion ag sydd yn awr yn dangos eu bod o egwyddor ddrwg. Y mae lleidr pen-ffordd yn wr gonest wrth ei gydmaru â dynion ag sydd yn twyllorhai i roddi benthyg arian iddynt, heb un bwrriad i'w talu yn ol. Nid peth zhyfedd fyddai fod anfoddloerwydd Duw yn cael ei amlygu, mewn modd neillduol, i'r ysbeilwyr hyn, cyn yr ploant o'r byd hwn. 3. Y rhai ag sydd â llawer o blant ganddynt, ac yn ffaelw cael gwaith i ynnill cynnatiaeth iddynt. Y mae golwg dfawd i'w gweled ar lawer o deuluoedd, yn y dyddiau hyn. Heb sôn am ddillad, nid yw cannoedd yn cael diu agos digon o fwyd i'w rhai bychain. Er mor haelionus y mae'r plwyfan i'r tlodion, y mae amgylchiadau llawer o honynt, er hyny, yn hynod gyfyng,—ac er cymmaint yw elusengarwch y trugarog yn mhob ardal tuag atynt, gofidus iawn yw ar floedd o deuluoedd tlodion. 4. Y rhai a roddasant eu hunain yn feichiain i rai mewn anwybodaeth. Nis gellir gwade nad yw yn eithaf cyfiawn i'r meichniydd gael talu, os bydd yr un ag y rhoddodd ei enw drosto yn

methu, herwydd ar gyfrif y feichniaeth y bodd-  
lonwyd i'r dyn hwnw gael yr arian. Os nad  
oedd y meichniydd yn golygu mai cyfiawn oedd  
iddo ef gael talu, yn ngwynob anallu neu ddrwg-  
ewyhys y llall, ni ddylasai reddi ei enw drosto.  
Nid yw o un pwys i wybod pwy sydd wedi  
gwneuthur defnydd o'r arian, yr oedd y meich-  
niydd yn eu derbyn yn gystal a'r Hall. Ni bu-  
asai mor ofidus ar gannoedd, po buasent wedi  
bod mor gall yn y blyneddau aeth heibio a gwr-  
thod myned yn feichiau i rai. Y mae rhai wedi  
cael talu yn ddrud am wrthod gwraudo ar ry-  
byddion Solomon, Diar. 11, 15, "Blinder mawr  
a gaiff y neb a fechnio dros ddyeithr-ddyn: ond  
y neb a gasio fechniaeth fydd ddyogel." Ond  
galarus yw meddwl am y rhai a roddasant eu  
henwan dros eu cyfeillion mewn anwybodaeth—  
po buasai y meichniydd yn cael gwybod y gwir  
gan yr un ag yr aeth yn rhwymedig drosto, ni  
buasai byth yn rhoddi ei enw drosto ef. Y mae  
miloedd yn ochain o herwydd eael eu twyllo yn  
y llwybr hwn.—Y mae llawer ag oedd yn byw  
yn gysyrus wedi eu dwyn i sefyllfaoedd isel iawn  
gan y *twyllwyr* hyn. Fe ddaw dydd eu gofid-  
bwythau cyn hir. Nid yw y pedwar math hyn  
ond rhan fach o'r bobl ag sydd mewn adfyd yn y  
deyrnas hon. Troied un ei wyneb lle y myno,  
clyw gni ac ochain *teulu'r adfyd* yn mhob man.  
O bosibl y gwnei y pethau canlynol-les i rai o  
honynt, i dawelu y meddwl, a bod fel gwŷn i lônri  
eu hysbrydoedd yn yr amser gofidus hwn:—

f. Ni bu un genedfaeth o bobl orioed a'r nat-  
oedd yn gwybod am adfyd, Job 14, 1, "Dyng  
aned o wraig sydd fyr o ddyddiau, a llawn o  
helbul." Gwŷn y rhai ag sydd yn gyfarwydd  
yn haesion gwahanol oesau y byd, fad cyfyng-

derau wedi cyfarfod â thrigolion y ddaear yn mhob oes.

2. Nid yw ein hadfyd ni ddimant yr hyn a brofodd teyrnasoedd cymmydogaethol. Hynod mor ddystaw y byddem ni i gyd yn y wlad hon pe ystyriem am y gofid ag a gafodd miloedd yn Yspain, yn Russia, yn Ffrainc a manau ereill, wybof am dano;—dinasoedd yn garneddau,—meusydd ffrwythlon yn feusydd y gwaed,—meddiannau yn cael eu hysbeilio,—rhanau hel-aeth o'r gwledydd yn anrheithiedig,—miloedd gwedi eu lladd,—newyn ac afiechyd yn canlyu y difrod hwn. Nid ein daloni ni yw yr achos ei bod yn well arnom.

3. Yr oedd llawer o'r cyfyngderau ag sydd wedi ein gorddiwes yn anocheladwy, trwy fod terfyniad i'r rhyfel yn cymmeryd lle. Nid y gw'r dysgedig a ysgrifiodd ar "ddyledswydd Prydain i wrando ar gynghor Gamaliel" yw yr unig un ag sydd yn gweled y buasai yn dda i ni pe buasem wedi cael diwedd i'r rhyfel yn gynt. Y mae rhai dynion mor ffol a meddwl mai yr *heddwch* a gawsom sydd yn achos o'r gofidiau hyn—ond gwel pob dyn synhwyrol mai effeithiau y *rhyfel* ydynt. Gan fod cymmaint o alw am bethau yn amser y rhyfel, ac i brisiau pob peth trwy hyn fyned yn uchel, nid oedd dim yn bosibl iddi aros yr un pan y daeth diwedd iddo. Ond gwell yw, gan bob dyn ystyriol, gael heddwch er gorfod byw ar fara haidd, nâ chael y gwledloedd goreu, a meddwl fod miloedd o'i gyd-ddynion yn wynebu maes y gwaed drosto ef ac ereill.

4. Nid yw yr adfyd a'n goddiweddodd ond rhan fach o'r gofid a'r trallod ag y mae beiau y

wlad wedi alw am dano. Afreidiol yw hwn  
 “beth yw yr achos fod amgylchiadau llawr  
 wedi myned mor ofidus?” Ceir attebiad i’  
 cwestiwn hwn yn Gen. 18, 20, 21, “Yr Argl-  
 wydd hefyd a ddywedodd, Am fod gwaedd So-  
 dom a Gomorrah yn ddifawr, a'u pechod  
 hwynt yn drwm iawn; Disgynaf yn awr, ac ed-  
 rychaf, ai yn ol eu gwaedd a ddaeth ataf fi, y  
 gwnaethant yn hollol: ac onidê, mynaf wy-  
 bod.” Addas yw i ni ddweud, “Peth rhyfedd  
 yw na buasai yn waeth arnom.”

5. O bosibl y daw pethau i'w lle cyn hir, ac y  
 ceir achos i ganu etto, yn lle y galaru a wneir y  
 dyddiau hyn. Y mae llawer o bethau yn dangos  
 fod Duw yn meddwl arbed Prydain Fawr,—  
 cawsom yd o wledydd ereill—yr ydym, yn y  
 dyddiau hyn, yn cael hîr gysurus i hau ein  
 meusydd—y mae prisau yr anifeiliaid a phethau  
 ereill yn codi—y mae y gweithiau yn myned yn  
 mlaen yn well, &c. Gobeithio yr ydym y gwelir  
 cysur a llwyddiant fel afon yn llifo dros y wlad  
 hon cyn hir.

6. Er mor ofidus yw ar lawer, derfydd adfyd  
 rhai yn angen. Yr oedd un o blant Duw er's ych-  
 ydig yn ol yn dweud, “Fe fu yn galed arnom  
 yr haf diweddaf—yr oeddwn i yn gorfod myned  
 ar fy nhraed, unwaith neu ddwy bob wythnos, i  
 Gaerfyrddin i werthu ychydig o ymenyn, i gael  
 barlys at fwyd—trwy hyn y mae llawer o'r ar-  
 dreth etto yn aros—nid oes dim golwg y daw  
 pethau yn well y tymhor hwn etto.—” Y mae  
 y gŵr hwn yn awr, yn ol ein barn ni, yn myn-  
 wes Abraham,—ac yn lle y corff afiach ag oedd  
 ganddo, caiff gorff iach a chryf yn y dydd y  
 gwelir ef yn dyfod o'r bedd. Dichon fod llawer  
 etto yn debyg i'r gŵr hwn,—“Yn methu deall

pa fodd y gallant gael arian i brynu bwyd hyd oni ddelo yr hâd a heuir yn awr yn addfed, &c." O bosibl y byddai llawer o bobl yr Arglwydd ag sydd yn y gofid, wedi myned i wlad y llawnder diddiwedd, cyn gwelod hanner y gofidiau ag y maent yn ofni a ddaw i'w cyfarfod. A hyfryd yw meddwl am y rhai ag y mae eu holl gyfyngderau a'u blinderau yn ddfod pan ag y byddont yn ymadael â'r byd hwn.

Diolch i chwi, ebe Enoch wrth ei ewythr, am y swpanaid melus hwn a gawsom genych. A oes genych ddim yn rhagor i'w ddweud wrthym am yr amser gofidus hwn? Ni byddai ddim allan o ie, ebe *Boddlongor*, i mi adrodd i chwi y sylwadau ag oedd gan ein bugail ni y Sabboth diweddf, ar yr *adfyd* ag sydd wedi dyfod i ran trigolion yr ynys hon. Ar ol datgof beth oedd yr achos o'r gofidiau, dymunodd arnom gosio am y pethau canlynol:—

1. Mai cyfnewidiol yw y pethau gofren yn y byd hwn. Y mae miloedd ag oedd yn gyfoethog, yn gysurus, yn byw yn nghanol llawnder o bob peth, wedi myned yn dlawd iawn. Nis gall neb ddweud am eu cyfoeth, am eu sefyllfaoedd uchel, am eu llwyddiant bydol, ac am gysuron y bywyd hwn, y bydd y pethau hyn ganddynt hyd awr marwolaeth.—Gwyddom am ugeinau ag oedd, y blyneddau aeth heibio, yn meddu llawnder o drugareddau, sydd yn awr yn gwylbod am lawer o dloidi. Duwioledeb yw y rhan a erys yn ein meddiant byth.

2. Na ellir gwybod dim beth yw cyflwr neb oddiwrth ymddygiad rhagluniaeth Duw tuag atynt. Y mae llawer o blant Duw mewn adfyd, a'i elynion yn cael nosio mewn hawddfyd—ac

am lawer o broffeswyr ag sydd wedi eu dwysu fod yn gysurus i dlodi mawr, cyfeiliorni gyda chyfeillion Job wnawn wrth feddwl mai rhag-rithwyr ydynt i gyd. Nid yw y llwyddiant na'r aflwyddiant ag sydd yn cyfarfod â phlant dynion yn y byd, ddim i brofi beth yw eu sefyllfa ysbrydol gerbron Duw.

3. Yn wyneb yr holl ofidiau hyn, gweddus yw fod plant yr Arglwydd yn ddystaw, ac yn ddirwgnach. Hynod mor gall yr oedd un yn ddiweddar yn ateb yn nghylch yr amser hwn.— Wrth glywed cymmydog iddo ef yn dweud, ei bod yn amser gofidus iawn ar lawer,— “Y mae lle iddi fod yn waeth,” ebe yntau. Un arall yn dweud wrtho y byddai diwedd am bawb cyn hir,— “Cynt” ebe yntau, “y bydd rhai wedi cyrhaedd eu gartref tragywyddol.” Wrth glywed cymmydog arall yn dweud na wyddai ddim beth a ddeuai o'r byd, dymunodd arno beidio blino yn nghylch hyn,— “Y mae y byd,” eb efe, “yn llaw y Duw ag sydd yn gwybod beth sydd oreu i ni.” Ac wrth frawd iddo ag oedd yn methu gwybod, gan gymmaint ei ofid, pa fodd y treuliai yr amser ag oedd ganddo yn y byd, dywedodd, “Chwi fyddwch chwi a minnau wedi myned trwy y byd hwn cyn hir—y cwestiwn mawr yw, pa fodd y bydd arnom wedi myned oddiyma.”

4. Galarus yw meddwl fod yr adfyd wedi lladd bywiogrwydd a chysur cymmaint o hobl Dduw. Annebyg iawn i Habacuc gynt, ac i Paul, ac ereill, yw lawer o broffeswyr yr oes hon, Hab. 3, 17, 18, “Er i'r ffigysbron na flodeuo, ac na byddo firwyth ar y gwinwŷdd; gwaith yr olew-wŷdd a balla, a'r meusydd ni roddant fwyd; torir ymaith y praidd o'r gor-

law, ac ni bydd eidion yn eu beudai: etto mi a lawenychaf yn yr Arglwydd; byddaf hyfryd yn Nuw fy iachawdwriaeth." Rhuf. 8, 35, 37, "Pwy a'n gwahana ni oddiwrth gariad Crist? a'i gorthrymder, neu iog, neu ymlid, neu newyn, neu noethni, neu enbydrwydd, neu gleddyf? eithr yu y pethau hyn oll yr ydym ni yn fwy na choncwerwyr, trwy yr hwn a'n carodd ni." Gofidus yw meddwl fod yr adfyd yn achlysur gan rai i esgeuluo cyfarfodydd—fod creill ag sydd yn y gofid yn edrych mor bendrist dan y gair—a bod cymmaint yn edrych mor ddigalon a phe byddai dim mewn crefydd i gynnal y meddwl yn nydd tristwch. Y mae y bobl hyn yn rhoddi auair i grefydd Mab Duw.

5. Y mae yr adfyd yn galw am i bawb a allo fod yn elusengar i'r tlodion: Gwir yw fod y tlodion yn aml iawn,—ond nid oes gan un dyn ddim i'w wneuthur ond cyfrannu yn ol fel ag y mae Duw yn rhoddi iddo yntef. Ystyried y cyfranwyr, mai gwell yw fod ganddynt ychydig i'w gyfrannu, na'u bod yn byw ar elusen ereill, Act. 20, 35, "Mi a ddangosais i chwi bob peth, mai wrth lasurio felly, y mae yn rhaid cynnortwyo y gwelnaid; a chofio geiriau yr Arglwydd Iesu, ddywedyd o hono ef, mai dedwydd yw rhoddi, yn hytrach na derbyn." Gwaith da yw bod yn garedig wrth rai mewn tlodi, a phob cyfyngder arall, Preg. 11, 1, 2, "Bwrw dy fara ar wyncb y dyfroedd; canys ti a'i cei ar ol llawer o ddyddiau. Dyro ran i saith, a hefyd i wyth: canys ni wyddost pa ddrwg a ddygwydd ar y ddaear.

6. Mai da iawn fyddai fod cymmaint o ofid gan rai am aflwyddiant achos Iesu ag sydd ganddynt am y pethau gofidus ag sydd yn eu blino

y dyddiau hyn. Hynod mor hawdd yw cyfar-  
 fod â dyn ag sydd mewn eithaf gofid yn nghyck  
 ei fywioliaeth, &c. ond am y rhai ag sydd yn  
 gofidio wrth weled achos Crist yn isel mewn  
 gwahanol ardaloedd, nid bob awr o'r dydd y cy-  
 farfyddwn â'r bobl hyn. I Dduw b'o y diolch,  
 nid yw y byd hwn ddim heb rai ag sydd yn me-  
 ddwl am enw Duw, ag sydd yn dilyn llwybrau  
 Jeremiah, ac ereill o'r tadau, ag sydd heddyw  
 yn nbŷ eu hir gartref, Jer. 9, 1, "O na bai fy  
 mhen yn ddyfroedd, a'm llygaid yn ffynnon o  
 ddagrau, fel yr wylwn ddydd a nos am laddedig-  
 ion merch fy mhobl."

*Pant. tég.*

D. B.

---

Rhof ffarwel i dŷ'r caethiwed,  
 Ac i'r Aiphthiaid o bob rhyw,  
 Af yn mla'n tua'r dawel Ganaas,  
 Lle mae trigfan hardd fy Nuw;  
 'Rwy'n bwriadu tynu fy nuw,  
 Trwy'r holl dd'rysni dyrus maith,  
 Er im' gwrdd a myrdd o groesau  
 A blinderau ar fy nhaith.

DIWEDD.

---

*J. Evans, Argraffydd, Caerfyrddin.*



# Trysorfa y Tlodion:

(*RHIF. XII.—Pris Ceiniog:*)

YR OLYNFFYD

## HANES CYWIR

AN

DDAU FRAWD,

G'R ENWAU

TANGNEFYDDUS AC YMDRECHUS.



Caerfyrddin:

Argraffwyd gan J. Evans, Heol-y-Farchnad isaf

[Ido gellir. cael y Rhifynau blaenorok

1818.

## SYLWADAU AGORIADOL.

---

Matth. 23, 16, 17. Yr oedd y bobl yn cael eu harwain ar gyfeiliorn yn nghylch llwon ac addunedau. Os dywedai un, *Myn y deml*, dywedent nad oedd tōri y llŵ hwn ddim yn gwneuthur y dyn yn euog; ond os dywedai un, *Myn aur y deml*, dywedent nas gallai dōri y llŵ hwn heb fod yn euog e anudoniaeth. Gan mai perthynas yr aur a ddygid i'r drysorfa â'r deml oedd yn gwneuthur rhagor rhwng yr aur hwnw ac aur arall, gwelir mai peth ffol oedd y gwahaniaeth yn nghylch y llwon. Dangosir i ni yn yr adnodau hyn, a'r tair adnod gallynol, fod tyngu i'r deml, i aur y deml, i'r allor, i'r rhodd sydd arni, &c. yr un peth a phe dywedid, "*Myn Duw, gwnaf, neu ni wnaif, y peth a'r peth.*"

---

## HANES CYWIR, &c.

---

**G**ANED y ddau ŵr enwog hyn yn ninas *Ailcedigaeth*. Buont am rai blyneddau yn aelodau eglwys Crist yn nyffryn *Adfyd*,—ac er eu bod hwy wedi marw, y mae son parchus am danynt yn yr eglwys hon. Y mae yr hen frawd William Owen yn cofio am danynt. Clywais William yn dweud dau beth am y brawd *Tangnesfyddus*,—a olygiadau ar heddwch yr eglwys, a'i ofal neillduol am gadw heddwch ar ei draed yn eglwys Dduw.

I. *Ei olygiadau ar heddwch yn mhllith pob Dduw.* Yr oedd *Tangnesfyddus* yn arfer dweud fod llawer o bethau yn galw am fod profesyw yn byw mewn undeb a heddwch â'u gilydd,—megis,

1. Heb eu bod yn un, ni bydd'lddynt ddysgu eu gilydd yn mhethau yr Arglwydd. Un dyben neillduol o fod dyscyblion Crist yn myned trwy y byd yn eglwysi, neu yn gymdeithasau, yw, iddynt gael cyfle i ddysgu eu gilydd yn y pethau a berthyn i'w heddwch tragywyddol. Os oes rhai am gael gwybod beth sydd gan bobl Dduw yn y cyfrinachau neillduol, parod ydym i ateb mai cadw ysgol y maent, i adeiladu y naill a'r llall mewn pethau ysbrydol—dysgu eu gilydd i ddeall meddwl Duw yn ei air, adrodd pa fodd y mae gwaith Duw yn cynnyddu yn eu calonau, annog eu gilydd i wrthwynebu temtasiynau y gelyn, a bod yn fywiog dros grefydd, rhoddi cyfarwyddiadau i'w gilydd i ogoneddu yr Arglwydd, ac adgyweirio y rhai a fyddo wedi cael eu clwyfo gan y gelyn. Nis gellir dwyn y pethau hyn yn mlaen heb fod y brodyr yn caru eu gilydd.

2. Ni wnant amddiffyn enw da y naill a'r llall. Y peth nesaf at ladd un yw dweud rhywbeth am dano na byddo yn wir, a'i ysbeilio o'i enw da. Os bydd yn dda genym am ryw un nis gallwn oddef i'w *gair* gael ei dduo. Os byddwn wedi ei ddal ar ryw fai, neu glywed ei fod wedi llithro mewn gair neu weithred, ni ddywedwn wrth neb am hyn—ond da yw dweud wrtho ef ei hun. Y mae rhyw fath o grefyddwyr yn mysg pawb ag sydd yn llawenâu wrth glywed am gwympiadau rhai yn mblith pob enw ond am y *secti* y maent hwy yn perthyn iddi; ac yn taenu y son am eu cwmp yn mhob lle, er y dywedant "fod yn ddrwg ganddynt am hyn." Pe byddent yn gofidio wrth glywed am danynt, nis gallent lai na bod yn ddystaw.

3. Nis gallant fod mewn ysbryd addas i weddio dros eu gilydd, 1 Tim. 2, 8; Col. 1, 3. Y mae cariad brawdol yn eu cymhell i weddio dros eu gilydd—am i bob un gael y gwir, gael

Hes yn y cyfarfodydd, gael bod yn ogeffant i'r achos yn eu teuluoedd, gael ei gadw at ddiwedd yn ei enaid, gael nerth i lyhu, ac am i bob un gael ei gadw i weddio a gwylio hyd y diwedd. With gofio am eu gilydd gerbron yr orsedd, yr ydym yn rhoddillaw i gymhorth y naill a'r llall i barâu yn flyddlon hyd anghau.

4. Ni ddygant feichiau eu gilydd, Gal. 6, 2. Un hynod oedd Paul am ddwyn beichiau ei frodyr, 2 Cor. 11, 20. Pan y byddo undeb y mae yr aelodau yn edrych ar eu gilydd fel plant yr un Tad, yn hynod ofalus am gysur y naill y Hall. Os bydd un mewn ofnau am ei gyfiwr, mewn cystudd, mewn blinder yn nghylch ei amgylchiadau bydol, mewn tledi, wedi cael ei dramgwyddo, neu mewn rhyw gyfyngder arall, y mae y brodyr yn myned, ac yn gwneuthur a'allont i'w gysuro. Bydded i bawb ag sydd dan feichiau trymion ddweud wrth eu cyd-aelodau am eu sefyllfa, fel y caffont rai i gyd-ddwyn y balch â hwynt. Am yr hwn nad yw yn meddwl dim am ei frodyr, am Seion, am y gweloriaid, y mae achos iddo ofai nad yw yn perthyn i deula Dew, 1 Ioan 3, 17.

5. Ni byddant o un-cysur i genadau Crist a fyddo yn llafurio yn eu plith. Y bobl heddychlon sydd yn cysuro meddyliau eu bugeiliaid, 1 Thea 5, 13. Nis gall neb ddweud mor llawenydynt wrth weled yr aelodau yn un, ac yn wraigog gyda'r achos. Ond os bydd rhai yn aflonydd yn eu cymmydogaeth, yn barod i roddi tramgwydd, yn anfaddaugar, yn gwrthod addef eu bod ar fai, ereill yn dweud pethau yn nghesfu eu brodyr na byddo gwir, &c. mawr yw y gofid ag y mae gweision Crist yn gael oddiwrthynt.

6. Nis gallant fod yn anhogarthol i ereill ddyfod at grefydd. Nid oes dim yn tueddu yn fwy at ennill milwyr newydd at fyddin Iesu na fod crefyddwyr yn byw yn heddychlon, Ioan 17, 21.

Yr oedd y fath undeb rhwng dyscyblion Crist gynt fel ag yr oedd eu gelynion yn dweud am danynt,—“Gwelwch fel y mae y Cristionogion yn caru eu gilydd.” O'r tu arall, gofidus yw bod neb yn cael achos i ddweud, “I ba beth yr awn yn aelodau at y bobl yma?—nid oes ond angehydfod bob amser yn eu mysg, &c.” Os bydd tangnefedd yn llywodraethu yr eglwys, bydd y bobl ddigrefydd yn dweud,—“Ni a ddeuwn gydâ chwi, canys gwelwn fod yr Arglwydd gydâ chwi.”

II. *Ei ddull yn cadw heddwch ar ei draed yn eglwys Crist.*

1. Yr oedd yn annog y brodyr i gyfeillachu yn fynych â'u gilydd. “Nid oes dim;” ebe *Tangnefyddus* wrthynt, “yn tueddu yn fwy i wneuthur pobl Dduw fel un galon, nâ'u bod yn aml yn nghyfrinach y naill y llall. A phe byddai brodyr o wahanol farn yn cyfeillachu mwy â'u gilydd, byddai mwy o gariad ganddynt at eu gilydd.”

2. Yr oedd *Tangnefyddus* yn gwneuthur lles i'r undeb trwy annog y brodyr i beidio derbyn wyneb. Dylid ceryddu y troseddwr pa un a'i cyfoethog neu dlawd fyddo;—a phan ag y byddo dadl yn bod rhwng rhai yn nhŷ Dduw, y mae yn rhaid ymdrechu ymddwyn yn ddiuedd wrth farnu, os dysgwylir am gadw heddwch yn mhllith y brodyr, Iago 2, 1—3.

3. Yr oedd *Tangnefyddus* yn myned at y brawd a droseddai yn ei erbyn, heb ddweud wrth neb arall am y peth. Yr oedd efe, trwy hyn, yn dilyn rheol y gair, Matth. 18, 15. Nid oedd neb, hyd yn oed y swyddwyr, yn cael clywed am drosedd y brawd, hyd nes yr ymdrechai ei oreu i gael ei frawd i edifeirwch—ac os cesai ef i gyfaddef ei fai, yr oedd y son am dano yn darfod am byth.

4. Yr oedd y gŵr da hwn yn gwneuthur dai-

oni mawr i heddwbh yr eglwys, trwy attal y bobl i ddwyn dim o flaen yr eglwys a ellid ei adgyweirio heb wneuthur hyny. Pan ag y byddai trosedd yn adnabyddus ond i ryw un, neu ryw ychydig yn unig, dywedai wrth yr un hwnw, neu yr ychydig hyny, mai hwynt-hwy oedd i ddweud wrth y troseddwr am ei fai, ac os llwyddent, dyna y brawd hwnw yn cael dyfod i'w le heb fod gelynyon yr achos yn gwybod dim amdano. Fe byddai i swyddwyr tŷ Dduw yn mhob man wneuthur hyn, byddai tangnefedd yn fwy blodeuog yn yr eglwysi nag yw hyd yn hyn.

5. Yr oedd efe yn ymarfer ei hun i siarad yn barchus am ei frodyr ac am bawb ereill. Bliu yw meddwl fod neb yn cael achos i ddweud, "fod rhai o'r crefyddwyr mor barod a neb i adrodd beiau eu gilydd." Ond am y brawd *Tangnefyddus*, ni chlywodd neb erioed mo hono yn son am wendidau neb yn yr eglwys, ac yr oedd yn siarad yn barchus bob amser am y bobl oddiallan. Os byddai ganddo ryw beth da i'w grybwyll am ryw un, ni fyddai ddystaw amdano. "Yr oedd ei enau yn *fedd* i feiau pawb, ac yn *adgyfodiad* i'w rhinweddau."

6. Yr oedd yn well ganddo efe ddyoddef pob peth na chyfodi terfysg yn yr eglwys. Mae rhai dynion yn cadw llawer o swm am bethau bychain. Mae'n rhaid iddynt gael cyfarfod eglwysig i sefydlu pethau nad ydynt o werth son dim amdanynt—ac nid y'nt yn prisiu gwneuthur terfysg yn nhŷ. Dduw am bethau nad yw llawer yn edrych dim arnynt—ac os na chant eu hoddioni y'mhob peth, absennolant eu hunain o gymmundeib am fis neu ddau. Fe fyddai yn ddaioni mawr i'r achos pe byddai y tylwyth hyn i gyd yn cael eu diarddel. Ond am y brawd *Tangnefyddus*, gwell ganddo ef fod yn ddystaw, er cael cam weithiau.

7. Yr oedd efe yn daer o flaen Duw am gymhorth i fyw mewn heddwbh a phawb. Os oedd y Mab yn gweddio am i'w ddyscyblion gael eu

*cadw yn un*, y mae yn sicr y dylem ni erfyn am nerth i rodio fel ag y dymunai Crist i ni rodio yn y byd drwg hwn. Y mae meddwl am ein bod wedi gweddio am gymhorth i beidio rhoddi tramgwydd, am nerth i'n cadw i siarad yn barchus am y brodyr bob amser, a bod yn barod i faddeu iddynt, &c. yn tueddu i'n gwneuthur yn frodyr i'r brawd *Tangnefyddus* yn ein tymhor byr yn y byd. Dyma y dull y treuliodd y gŵr duwiol hwn ei amser ar y ddaear, ebe William,—mawr yw y golled a gawsom pan yr ymadawodd â'r bywyd presennol—Ni chawsom neb i lenwi ei le hyd oni ddaeth *Evan Heddychlon* atom.

Ar ol gorphen dweud am y brawd *Tangnefyddus*, rhoddodd William Owen i mi hanes am frawd arall o'r enw *Ymdrechus*, yr hwn oedd wedi bod yn ffyddlon dros achos Crist yn eu plith hwy. Dywedodd wrthyf am ddau beth yn nghylch llafur y gŵr enwog hwn:—

I. *Y daioni ag oedd efe wedi wneuthur i'r achos yn eu plith hmynt.* Yr wyf, ebe William, yn cofio am bump peth neu ragor i'w dweud am ddefnyddioldeb y gŵr hwn yn nhŷ Dduw, yn yr ardal hon.

1. Efe ddaeth a phietiau i drefn ya y gyfeillach-neillduol. Yr oedd genym ni *society* oddiar pan bu *Eward Effro* yn aelod yma; ond nid oedd yn ateb ond ychydig ddaioni i ni cyn i'r brawd *Ymdrechus* ddyfod i'n plith. Nid oedd genym ya y cyfeillachau o'r blaen ddim yn cael ei ddwyn yn mlaen ond adrodd *profiadau* i'w gilydd—ac am nad oedd egwyddori eu gilydd mewn gwybodaeth am athrawiaethau y gair yn bod genym, nis gallasem fod yn ddynion cynbyddfawr mewn pethau profiadol. Yn awr y mae athrawiaethau y Bibl, a phynciau dyrus y gair, yn cael bod dan sylw unwaith neu ddwy bob mis—a hynod yw y lles ag y map y drefn hon

wedi wneuthur i'r eglwys hon. Y mae yn rhaid cael rhyw lwybr i addysgu yr eglwysi mewn gwymbodaeth, cyn y gwelir pethau byth yn myned yn mlaen yn dda.

2. *Ymdrechus* sefydlodd yr ysgol Sabbathol yn yr ardal hon. Pan y clywodd am y sefydliad cyntaf o'r ysgolion Sabbathol gan Mr. *Raikes*, cododd yntef un yn fuan yma. Darfu i'r diweddar Mr. Charles o'r Bala ac ereill ganlyn ei siampl, fel ag y mae y gwaith hwn yn awr wedi ymdaenu dros y wlad—a hynod yw y lles ag y mae yr ysgolion wedi wneuthur mewn gwahanol ardaloedd. Os bydd pobl Dduw yn glynu wrth y gwaith o gadw ysgolion Sabbathol am ugain mlynedd etto, mawr yw y cyfnewidiad a welir wrth gymharu yr amser hwnw â'r dyddiau hyn. Nid Lloegr, Cymru, Iwerddon, a Scotland yn unig w'yr am fuddioldeb yr ysgolion hyn. Ni dderfydd y gwaith hwn hyd oni byddo teyrnas anwybodaeth wedi ei dystyrio yn hollol trwy y byd.

3. Efe a ddechreuodd y cyfarfodydd gweddi yn y gymmydogaeth hon. Yr oedd genym ni gyfarfod gweddi yn cael ei gynnal unwaith bob mis yn y tŷ cyfarfod o'r blaen—ond yn amser y brawd hwn y daeth y cyfarfodydd gweddi wythnosol. Y mae llawer iawn o bobl yn dysod iddynt—ac y mae ugeiniau wedi tystio iddynt gael bendith yn y rhai hyn. Yr oedd *Ymdrechus* yn arfer esponio adnod neu ddwy bob amser yn y cyfarfod gweddi—ac yr oedd pawb ag oedd yn y cyfarfod yn cael cyfle i ddweud eu meddyliau bob amser—ac heblaw hyn, yr oedd y gŵr duwiol hwn yn peri i'r brodyr fyddai yn myned i weddio fod yn fyr ac yn drefnus, fel y caffai pawb fyned adref mewn pryd. Nid gweddi hir a chanu maith, ond gweddi fer a bywiog a chanu melus sydd yn bywiocâu ysbrydoedd y gwrandaw-wyr. Parâed y cyfarfodydd hyn tra



bydde gan Dduw bobl iddo ei hun ar y ddaear.

4. *Ymdrechus* ariogodd y swyddwyr ag oedd pryd hyny yn yr eglwys hon i gyfarfod â'u gilydd unwaith bob mis, i ymddyddan yn nghylch Hes yr achos. Y mae y drefn hon yn aros hyd heddyw yma—ac yr wyf yn clywed fod hyn yn bod yn addoldŷ newydd Llan-y-bri, ac mewn amrywiol o fanau ereill. Y mae y drefn hon yn tueddu at gadw pethau yn drefnus yn yr eglwysi. Y mae y swyddwyr ag sydd yn cyfarfod yn y dull hwn yn gwybod am y pethau mwyaf angeurheidiol i ymdrin â hwynt yn y cyfrinachau—y maent, trwy hyn, yn gallu rhagflaenu llawer o bethau niweidiol, yn ceryddu ac yn cyngori rhai yn amserol, ac yn annog y naill y Hall i fod yn fywiog ac yn llafarus dros achos Iesu Grist.

5. Y gŵr da hwn ddechreuodd yr ysgol at ddysgu canu mawli i Dduw. Cyn i *Ymdrechus* ddyfod atom yr oedd y canu yn aanhrefn iawn—ond yn awr y mae y gwaith o foliannu Dduw yn cael ei ddwyn yn mlaen yn *drefnus*, yn *arrog*, ac mewn dull derbyniol gan y gynullidfa. Y mae yn hyfryd i edrych ar y bobl ieuanc yn uno gyda'r dyrfa i foliannu enw'r Arglwydd, am ei ryfeddedau i feibion dynion. Y mae oes canu pethau ffôl yn agos a therfynu—moliant i Dduw glywir o enau pawb cyn hir—ac y mae yr amser yn agos pan na bydd neb mor ddisynwyr ag y dywedant “nad oes dim yn bosibl fod y bobl ag sydd yn dysgu canu, yn cadw at fod yn drefnus ac yn rheolaidd wrth ganu, ac yn cadw llyfrau o'u blaen wrth foliannu Dduw, yn moliannu yn yr *ysbryd*. Dyledswydd yr eglwysi yw rhoddi pob annogaeth i'r ysgolion hyn, a llawenâu ddylent wrth weled y dô ieuanc yn agor eu genau bob amser, i foli Dduw yn yr addoliad cyhoeddus.

6. Gwnaeth *Ymdrechus* sefyllfa y gweinidog

yn llawer mwy cysurus nâg oedd o'r blaen. Llwybr a gymmerodd at hyn oedd ceisio gas gweinidog gadw cyfrif am bob peth ag oedd ef yn dalu am dano—yn mhen blywyddyn ar ol hyn dymunodd *Yndrechus* gael gweled ei *gyfrif*—ol edrych drosto, gwelodd nad oedd dim arian wedi myned am bethau afreidiol, &c. A phan ag yr oedd yr eglwys yn gwneuthur y casgliad blyneddol at gynnal y gweinidog, a'r swm yn un holl iawn o ateb *cyfrif* y gweinidog, dywedodd *Yndrechus* wrthynt fod yr hyn a wnaethent yn rhy fach o lawer. Pa fodd y gall hyny fod? ebe *Tomas Ddifater* a *William Gybyddlyd*. Nid oes dim achos bod yn hir cyn rhoddi i chwi wybodaeth am hyn—darllenaf i chwi *gyfrif* ein bugail fyddlon. At ymborth iddo ef a'i deula aeth 27 o bunnau—at ddillad, 15 punt—at ardreth y *fy*, 7 punt—at lyfrau, 5 punt—at drafaelio i'r cymmanfaoedd a chyfarfodydd ereill, 2 punt—ac at dalu am lythyrâu a chyhoeddiadau ynddynt, 15 swllt,—y mae y cwbl yn 56 punt a 15 swllt, ac nid oes genych chwi ond deugain punt a phedwar swllt ar gyfer hyn. Gan fod pawb o honoch yn addef fod y gweinidog wedi byw mor gynnwl ag y gallasai, gadewch i ni cyn ymadael yn awr gael gwneuthur y cyfrif hwn i fynh, fel na byddo hyn yn blino meddwl gwas yr Arglwydd. Casglasant y swm hwn, a dywedasant wrth eu bugail am iddo ef roddi ei hun i astudio, a phregethu, a bod yn ofalus am waith Duw, ac y gofalent hwy am ei fywioliaeth. Diolchodd y gweinidog iddynt am eu caredigrwydd, a dywedodd wrthynt, pe buasai efe am gael llawer o drysorau y ddaear, nad trwy fod yn bregethwr yr oedd dyfod yn gyfoethog; ond gan fy mod yn go-beithio i mi gael fy ngalw i fod yn genad dros Dduw, gwell yw genyf, eb efe, fyw ar ychydig fel hyn, rhoddi fy amser i ddweud wrth bechaduriaid am effeithiau marwol loes ac angeu drad.

**Fawr Mab Duw.** Pe byddai swyddwyr yr eglwys yn debyg i'r brawd *Ymdrechus* yn gofala am eu bugeiliaid, ni byddai achos i weision Duw fod mewn blinder am eu bywioliaeth, ac fe fyddai eu bod hwy yn rhydd oddiwrth ofalon bydol a gofid yn gwneuthur lles mawr i eglwys Crist.

II. *Y parck ag oedd ganddo i'w gyfammod eglwysig.* Yr oedd *Ymdrechus*, ebe *William*, yn un hynod lafurus, ac yn ofalus iawn am gyfammod yr eglwys. Clywodd llawer ef yn dweud mai dynion ag sydd yn gwneuthur piwed mawr i achos Iesu ac iddynt eu hunain, yw y rhai sydd yn esgeuluso eu cyd-gynulliad eu hunain. "Y maent," eb efe, "wrth wneuthur hyn, yn *tori eu llô*. Addunedasant gerbron Duw i fod mor fynych ag y gallasant gyda'u brodyr, i ddwyn yn mlaen achos y Cyfryngwr mawr." Y mae y llw sofr hwn yn agos iawn at feddwl pob enaid cydwybedel—ac am y rhai ag sydd yn ddifater yn nghylch hyn, bydd y llw hwn yn peri iddynt grynu ar wely angeu. Dyma yr achos ei bod mor dywyll ac anghysurus ar lawer o broffeswyr pan y byddont yn ymadael â'r ddaear hon. Y maent hefyd yn *digaloni eu brodyr*. Nid oes dim yn fwy cysurus gan yr effro nâ gweled pawb o'r aelodau yn ymdrechu dyfod i'r cyfarfodydd. A phan ag y byddo rhai yn esgeulus, mae hyn yn peri blinder mawr i'r rhai fyddo yn meddwl yn iawn am lwyddiant yr achos. Y maent trwy hyn yn *caledu y byd annuwiol*. Y mae y cymmydogion, y plant, a'r gwasanaethwyr yn gwybod y dylai y penau teuluoedd ag sydd yn broffeswyr fyned i'r *societies*, i'r *cordd parotoad*, &c. ac os byddant yn peidio myned, onid yw hyn yn tueddu i beri i'r annuwiolion feddwl nad oes dim mewn crefydd?—ac y maent hefyd yn *oeri yn eu cariad at y gwaith*. Y mae y bobl esgeulus ar y ffordd i fyned yn ddifater

am addoliad Daw yn eu tai eu hunain; ac ar rhyfodd yw eu bod yn profsychder mawr yn y moddion. A mynych y clywyd *Ymdrechus* yf dweud mai tri pheth oedd yn pori ei fod ef yn gofalu am gadw at y llw a wnaeth pan y derbyna iwyd ef yn aelod o eglwys Dduw: 1. Yr wyf, eb efe, yn gosod y rhwystrau a'r llw yn y dafod—ac yna yn ymresymu â mi fy hun yn y *dull* hwn—“Gwnaethum fy llw i fod gyda y brodyr mor fynych ag y gallaswn—a yw y rhwystr hwa a'r llall yn ddigon i'm cadw gartref?” 2. Yr wyf yn gwneuthur hyn yn fater gweddi. A phaa byddwyf yn gweddie yn daer am gymhorth i gadw yn ffyddlon gyda'r brodyr, y mac meddwl am y weddi yn fy nghymhell i'barotoi mewa amser, ac ymdrechu i symud ymaith bob rhwystr. 3. Yr wyf yn ystyried nad yw yr ynnill ag y mac rhai yn gael wrth aros gartref ddim at y golled ag sydd wrth esgeuluso cyfarfodydd plant Daw. Os gwna y dyn ryw orchwyl tra byddo y brodyr ereill yn y *society*, nid yw ei ynnill ef ddim at y golled ag y mac ei enaid wedi gael. Er na chymmer yr esgeuluswyr i neb ddwead wrthynt am y golled yn awr, bydd yn rhaid iddynt gyfaddef yn awr marwolaeth mai colledwyr oeddynt wrth esgeuluso eu cydgynnulliad eu hunain. Un yn cadw at ei gyfammod oedd *Ymdrechus*—ac un aeth trwy afon angeu yn gysurus oedd efe. O na byddai holl weinidogion Crist, holl swyddwyr tŷ Dduw, a phawb ag sydd yn enwi enw Crist, yn dilyn siamplas *Tangnesfyddus* ac *Ymdrechus*.

*Pant-tég.*

D. D.

DIWRDD.

---

*J. Evans, Argraffydd, Caerfyrddin.*

